

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Cynllun Pensiwn Aelodau

Trefniant y rheolau

Ebrill 2013



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Cynllun Pensiwn Aelodau

Trefniant y rheolau

Ebrill 2013



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## TREFNIANT Y RHEOLAU

### RHAN A

#### *Rhagarweiniol*

- A1 Teitl
- A2 Dehongli a Darpariaethau Cyffredinol

### RHAN B

#### *Ymddiriedolwyr a gweinyddu*

- B1 Sefydlu'r Gronfa
- B2 Penodi Ymddiriedolwyr
- B3 Buddsoddi'r Gronfa
- B4 Indemnio Ymddiriedolwyr

### RHAN C

#### *Aelodaeth*

- C1 Aelodaeth Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- C2 Aelodaeth deiliaid swydd
- C3 Hawl Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i eithrio o'r Cynllun
- C4 Hawl deiliaid swydd i eithrio o'r Cynllun
- C5 Hawl Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ymuno â'r Cynllun
- C6 Hawl deiliaid swydd i ymuno â'r Cynllun

### RHAN CH

#### *Cyfraniadau*

- CH1 Cyfraniadau Aelodau cyfranogol
- CH2 Cyfraniadau deiliaid swydd cyfranogol
- CH3 Cap enillion

## **RHAN D**

### *Gwasanaeth Cyfrifadwy*

- D1** Gwasanaeth cyfrifadwy gwirioneddol
- D2** Cyfanswm y gwasanaeth cyfrifadwy

## **RHAN DD**

### *Yr Hawl i Bensiwn*

- DD1** Hawl Aelodau sy'n Bensiynwyr
- DD2** Y swm sy'n daladwy i Aelodau sy'n Bensiynwyr
- DD3** Hawl deiliaid swydd sy'n Bensiynwyr
- DD4** Y swm sy'n daladwy i ddeiliaid swydd sy'n Bensiynwyr
- DD5** Yr uchafswm pensiynau a ganiateir
- DD6** Yr Isafswm Pensiynau Gwarantedig
- DD7** Parhad pensiynau

## **RHAN E**

### *Cymudo*

- E1** Cymudo pensiwn yn gyfandaliad

## **RHAN F**

### *Pensiynau ymddeol yn gynnar a Phensiynau Cynnar a Leiheir*

- F1** Ymddeoliad cynnar i Aelodau
- F2** Ymddeoliad cynnar i ddeiliaid swydd a fu'n aelodau

## **RHAN FF**

### *Pensiynau Oherwydd Salwch*

- FF1** Pensiynau Haen 1 oherwydd salwch sy'n seiliedig ar wasanaeth fel Aelod cyfranogol
- FF1A** Pensiynau Haen 2 oherwydd salwch sy'n seiliedig ar wasanaeth fel Aelod cyfranogol
- FF2** Pensiynau oherwydd salwch sy'n seiliedig ar wasanaeth fel deiliad swydd cyfranogol
- FF3** Pensiynau oherwydd salwch i gyn-Aelodau
- FF4** Pensiynau oherwydd salwch i gyn-ddeiliaid swydd
- FF4A** Gofyniad ar gyfer Anallugorwydd ar gyfer Galwedigaeth
- FF5** Tystiolaeth feddygol

FF6 Pŵer ymddiriedolwyr i adolygu pensiynau oherwydd salwch

## **RHAN G**

### *Gwragedd a Gwŷr Gweddw a Phlant*

- G1 Triniaeth gyfartal
- G2 Pensiynau i wragedd a gwŷr gweddw
- G3 Pensiynau i blant
- G4 Marwolaeth Aelod cyfranogol mewn swydd
- G5 Pensiynau cychwynnol mwy i wragedd a gwŷr gweddw
- G6 Ystyr "pensiwn neu bensiynau sylfaenol neu arfaethedig"
- G7 Pensiynau i Bartneriaid
- G8 Pensiynau Dibynyddion
- G9 Pensiynau Dibynyddion ar adeg marwolaeth aelod sy'n gadael gwraig neu ŵr gweddw a Phartner sy'n goroesi

## **RHAN NG**

### *Arian Rhodd ar Adeg Marwolaeth*

- NG1 Arian rhodd ar adeg marwolaeth mewn swydd
- NG2 Arian rhodd ar adeg marwolaeth ar ôl ymdddeol

## **RHAN H**

### *Gwarant Pum Mlynedd*

- H1 Hawl
- H2 Gwarantau i wragedd a gwŷr gweddw
- H3 Gwarantau lle mae plant ond dim priod yn goroesi
- H4 Gwarantau lle nad oes goroeswyr
- H5 Terfynu cyfnod addysg amser llawn plentyn yn gynnar
- H6 Deiliaid swydd ymadawedig a oedd yn bensiynwyr

## **RHAN L**

### *Ad-daliadau*

- L1 Ad-daliad i gyfranogwr
- L2 Ad-daliad ar ôl marwolaeth

## **RHAN LL**

### *Trosglwyddo*

- LL1** Trosglwyddo i gynlluniau pensiwn eraill
- LL2** Trosglwyddo i gynlluniau pensiwn eraill ar ôl eithrio o'r Cynllun
- LL3** Trosglwyddo i gynlluniau pensiwn dramor
- LL4** Effaith trosglwyddo ar wasanaeth cyfrifadwy
- LL5** Ardystiad Actiwari
- LL6** Trosglwyddo o gynlluniau pensiwn eraill

## **RHAN M**

### *Blynyddoedd Ychwanegol*

- M1** Aelodau cyfranogol yn prynu blynyddoedd ychwanegol

## **RHAN N**

### *Cyfraniadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

- N1** Cyfraniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Gronfa

## **RHAN P**

### *Prisiadau Actiwaraidd*

- P1** Penodi Actiwari
- P2** Prisiadau actiwaraidd
- P3** Cynnwys pob prisiad actiwaraidd
- P4** Prisiadau actiwaraidd i'w gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## **RHAN PH**

### *Amrywiol ac Atodol*

- PH1** Cymhwyso pensiynau

## **RHAN R**

### *Newidiadau i'r Ddeddf Cyllid a didynnu treth*

- R1** Taliad ar ran cyfranogwyr tâl lwfans oes



- R2**    **Lleihau gwerthoedd budd-daliadau a throsglwyddo lle mae'r tâl lwfans oes yn daladwy**
- R3**    **Didynnu o daliadau treth eraill sy'n ddyledus o dan y Ddeddf Cyllid**

# TREFNIANT YR ATODLENNI

## Atodlenni

- 1 Darpariaethau cyffredinol ynglŷn ag Ymddiriedolwyr ac ati**
- 2 Canran yr Hawl i Bensiwn a Leiheir o dan Reol F1**
- 3 Personau sy'n Gymwys i gael Pensiwn Plant**
- 4 Prynu Blynnyddoedd Ychwanegol**
- 5 Rhannu Pensiwn yn dilyn Ysgariad**

## RHAN A RHAGARWEINIOL

### Teitl

A1 Enw'r Rheolau hyn yw Rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013.

### Dehongli a Darpariaethau Cyffredinol

Bwriedir i'r Rheolau hyn gael eu gweinyddu yn unol â darpariaethau Deddf Cyllid 2004 ac unrhyw reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno ac i gydymffurfio ag unrhyw gyfryw ofynion statudol eraill a allai fod yn gymwys. Os oes unrhyw anghysondeb rhwng darpariaethau'r Rheolau hyn a Deddf Cyllid 2004 (neu unrhyw reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno), bydd y Ddeddf honno a neu'r rheoliadau yn gymwys.

A2 (1) Yn y Rheolau hyn

ystyr "**y Ddeddf**" yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006;

ystyr "**Deddf Trethi 1998**" yw Deddf Treth Incwm a Threth Corfforaeth 1988;

ystyr "**cyfnod gwirioneddol o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol**" a "**cyfnod gwirioneddol o wasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd cyfranogol**" yw ystyr "cyfnod gwirioneddol o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol" a "cyfnod gwirioneddol o wasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd cyfranogol" o fewn Rheol D1;

ystyr "**blwyddyn ychwanegol**" yw cyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol a brynir o dan Reol M1 ac Atodlen 4 gan gynnwys rhan o flwyddyn a fynegir mewn diwrnodau ac unrhyw flwyddyn ychwanegol yn y dyfodol;

ystyr "**cyfanswm y cyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol**" a "**cyfanswm y cyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd cyfranogol**" yw ystyr "cyfanswm y cyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol" a "cyfanswm y cyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd cyfranogol" o fewn Rheol D2;

ystyr "**Comisiwn y Cynulliad**" yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd o dan adran 27 o'r Ddeddf;

ystyr "**pensiwn neu bensiynau sylfaenol neu arfaethedig**" yw ystyr "pensiwn neu bensiynau sylfaenol neu arfaethedig" o fewn Rheol G6;

ystyr "**partner sifil**" yw person sydd wedi ei gofrestru'n bartner sifil yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn Neddf Partneriaeth Sifil 2004, ac unrhyw ddiwygiad statudol, ailddeddfu neu addasu a wneir iddi.

ystyr "**cynllun wedi eithrio**" yw cynllun pensiwn galwedigaethol sydd wedi'i bennu am y tro mewn tystysgrif eithrio a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Nawdd Cymdeithasol o dan adran 7 Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993;

ystyr **“cyfraniad”**, (ac eithrio yn yr ymadrodd “premiwm cyfatebol i gyfraniadau”), yw unrhyw swm a ddidynnir o gyflog neu y tybir iddo gael ei dalu o dan Reol CH1 neu Reol CH2 a dehonglir unrhyw gyfeiriad at dalu cyfraniad yn unol â hynny;

mae i **“premiwm cyfatebol i gyfraniadau”** yr un ystyr ag sydd iddo o fewn adran 55(2) a 58(4) Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993;

ystyr **“pensiynwr gohiriedig”** yw person

(a) sydd wed bod, ond wedi peidio â bod, yn gyfranogwr; a

(b) sydd wedi cronni hawliau i pensiwn o dan y Cynllun, ac nad oes ganddo neu ganddi hawl eto i gael pensiwn o'r Cynllun neu nad oedd ganddo neu ganddi hawl i hynny ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth.

ystyr **“Deddf Cyllid”** yw Deddf Cyllid 2004 ac unrhyw ddiwygiad statudol, ailddeddfu neu addasu a wneir iddi.

ystyr **“blwyddyn ariannol y Cynllun”** yw blwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar y 31 o Fawrth canlynol;

ystyr **“ffracsiwn o flwyddyn”** yw rhan o flwyddyn o wasanaeth cyfrifadwy a fynegir fel cyfran nifer y diwrnodau yn y rhan honno i dri chant a chwe deg a phump; a dylid dehongli “ffracsiwn o flwyddyn ychwanegol” yn unol â hynny;

ystyr **“Cronfa”** yw'r gronfa a sefydlir o dan Reol B1;

mae i **“isafswm pensiwn gwarantedig”** yr un ystyr ag sydd iddo o fewn adran 8 Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993;

ystyr **“HMRC”** yw Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;

ystyr **“llog”** (lle y cyfeirir at dalu unrhyw swm â llog) yw adlog ar gyfradd o dri y cant y flwyddyn, cyfrifir y llog gyda seibiannau blynyddol;

ystyr **“cyflog arferol Aelod”** yw swm y cyflog sy'n daladwy o dro i dro i aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru neu adran 20 o'r Ddeddf heblaw cyflog unrhyw ddeiliad swydd a allai fod yn daladwy i'r aelod yn rhinwedd ei swydd fel deiliad swydd;

ystyr **“y lluosrif”**

(a) mewn perthynas â phensiwn person o dan Reol DD1 sy'n Aelod cyfranogol neu a fu'n Aelod cyfranogol, yw'r cyflog terfynol perthnasol o dan Reol DD2(2), a

(b) mewn perthynas â phensiwn person o dan Reol DD3 sy'n ddeiliad swydd cyfranogol neu a fu'n ddeiliad swydd cyfranogol, yw'r cyflog terfynol perthnasol o dan Reol DD4(4) wedi'i luosi â chyfartaledd yr holl ffactorau cyfraniad o dan Reol DD4(2) wedi'i gyfrifo mewn

perthynas â hwy am gyfanswm eu gwasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd cyfranogol;

ystyr “**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**” yw’r Cynulliad a sefydlwyd gyntaf gan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac a barhawyd o dan adran 1 o’r Ddeddf honno;

ystyr “**dyddiad ymddeol arferol**” yw’r dyddiad y bydd y cyfranogwr yn cyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed;

ystyr “**deiliad swydd**” yw ystyr “deiliad swydd” o fewn Rheol C2(3);

ystyr “**cyflog deiliad swydd**” yw swm y cyflog sydd o dro i dro yn daladwy i ddeiliad swydd o dan adran 53 o’r Ddeddf;

ystyr “**Aelod wedi eithrio**” yw ystyr “Aelod wedi eithrio” o fewn Rheol C3(4);

ystyr “**deiliad swydd wedi eithrio**” yw ystyr deiliad swydd wedi eithrio” o fewn Rheol C4(4);

ystyr “**cronfa neu gynllun dramor**” yw cronfa neu gynllun a sefydlwyd y tu allan i’r Deyrnas Unedig ac a weinyddir yn gyfan gwbl neu’n bennaf y tu allan i’r Deyrnas Unedig;

ystyr “**cyfranogwr**” yw person sy’n gwneud cyfraniadau i’r Cynllun a gall fod naill ai’n Aelod cyfranogol neu’n ddeiliad swydd cyfranogol neu’n Aelod cyfranogol ac yn ddeiliad swydd cyfranogol;

ystyr “**Aelod cyfranogol**” yw person sy’n gwneud cyfraniadau i’r Cynllun wedi’u didynnu o’i gyflog neu o’i chyflog fel Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (neu sydd wedi’i esgusodi rhag gwneud y cyfryw gyfraniadau gan fod cyfanswm ei wasanaeth neu ei gwasanaeth cyfrifadwy yn fwy na’r hyn a fyddai’n arwain at yr uchafswm pensiwn a ganiateir mewn perthynas â hwy o dan y Cynllun);

ystyr “**deiliad swydd cyfranogol**” yw person sy’n gwneud cyfraniadau i’r Cynllun wedi’u didynnu o’i gyflog neu o’i chyflog fel deiliad swydd;

bydd i “**partner**” yr ystyr a nodir yn Rheol G7(2) a bydd hefyd yn cynnwys partner sifil pan fydd y cyd-destun yn caniatáu hynny;

nid yw “**pensiwn**” yn cynnwys lwfans neu arian rhodd;

ystyr “**pensiynwr**” yw person sydd â hawl i gael pensiwn o’r Cynllun; a gall fod naill ai’n Aelod sy’n bensiynwr neu’n ddeiliad swydd sy’n bensiynwr neu’n Aelod sy’n bensiynwr ac yn ddeiliad swydd sy’n bensiynwr;

ystyr “**Aelod sy’n bensiynwr**” yw person sydd â hawl i gael pensiwn o’r Cynllun (gan gynnwys pensiwn ymddeol yn gynnar neu bensiwn oherwydd salwch) mewn perthynas â’i wasanaeth neu ei gwasanaeth fel Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr **“deiliad swydd sy’n bensiynwr”** yw person sydd â hawl i gael pensiwn o’r Cynllun (gan gynnwys pensiwn ymddeol yn gynnar neu bensiwn oherwydd salwch) mewn perthynas â’i wasanaeth neu ei gwasanaeth fel deiliad swydd;

ystyr **“cyfnod deiliadaeth swydd gymwys”** yw ystyr “cyfnod deiliadaeth swydd gymwys” o fewn Rheol C2(2);

ystyr **“yr uchafswm a ganiateir”** (ac eithrio’r cyfeiriad at Reol E1(5) a lle mae’r cyddestun yn nodi fel arall):-

(a) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn dreth cyn y flwyddyn dreth 2007-08, yw’r ffigur a bennwyd ar gyfer y flwyddyn dreth honno mewn gorchymyn a wnaed o dan adran 590C o Ddeddf Trethi 1988

(b) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn dreth ddiweddarach sy’n dechrau gyda 2007-08 yw’r cyfryw swm a bennir gan Ymddiriedolwyr y Cynllun o dro i dro ac a gaiff ei basio drwy benderfyniad y mwyafrif o’r Ymddiriedolwyr sy’n bresennol mewn cyfarfod â chorwm. Wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â hyn, tybir bod yr Ymddiriedolwyr wedi pennu swm arian parod sefydlog nad yw’n cynyddu, oni nodir yn wahanol. Bydd y swm a ddewisir o bryd i’w gilydd gan yr Ymddiriedolwyr yn parhau hyd nes y bydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu ei adolygu a’i ddiwygio. Gall yr Ymddiriedolwyr ar unrhyw adeg ar ôl hynny, ddewis datgymhwyso’r uchafswm a ganiateir drwy gyfeirio at enillion pensynadwy aelodau yn y dyfodol ar yr amod eu bod wedi ystyried cyngor actiwaraidd priodol;

ystyr **“swydd gymwys”** yw “swydd gymwys” o fewn Rheol C2(3);

bydd i **“gynllun pensiwn cofrestredig”** yr un ystyr ag a nodir yn adran 150 o’r Ddeddf Cyllid;

ystyr **“plentyn perthnasol”** yw ystyr “plentyn perthnasol” o fewn rheol NG3(4);

ystyr **“y Cynllun”** yw’r cynllun sydd mewn grym o dro i dro;

ystyr **“dyddiad perthnasol”** yw’r dyddiad perthnasol ar gyfer penderfynu ar bensiwn person o dan unrhyw ddarpariaeth o’r Rheolau hyn;

ystyr **“Gweinyddwr y Cynllun”** yw’r sawl sydd wedi cwblhau datganiad adran 270 o dan y Ddeddf Cyllid ac sy’n atebol i HMRC am unrhyw atebolrwydd treth sy’n codi mewn cysylltiad â’r Cynulliad yn unol â gofynion y Ddeddf honno;

ystyr **“blwyddyn dreth”** yw blwyddyn sy’n dechrau ar y 6ed Ebrill ac yn dod i ben ar y 5ed Ebrill canlynol.

(2) Yn y Rheolau hyn, onid ymddengys y bwriad i’r gwrthwyneb

- (a) mae cyfeiriad at Reol neu Atodlen wedi'i rhifo yn gyfeiriad at Reol o'r Rheolau hyn neu at Atodlen i'r Rheolau hyn sydd wedi'i rhifo felly; a
- (b) mae cyfeiriad mewn Rheol neu Atodlen at baragraff wedi'i rifo yn gyfeiriad at baragraff o'r Rheol neu'r Atodlen honno sydd wedi'i rhifo felly.

(3) Yn y Rheolau hyn

- (a) mae cyfeiriadau at
  - “ymgeisydd etholiad” yn cynnwys person ar restr ymgeiswyr plaid wleidyddol gofrestredig;
  - “etholedig” yn cynnwys person a etholir dros ranbarth etholiadol o'r Cynulliad; a dehonglir ymadroddion cysylltiedig (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ailethol) yn unol â hynny.
- (b) onid ymddengys y bwriad i'r gwrthwyneb, bydd i ymadroddion yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf.

(4) At ddibenion canfod hawl unrhyw berson i fod yn aelod cyfranogol neu'n ddeiliad swydd cyfranogol yn y Cynllun ac at ddibenion cyfrifo gwerth unrhyw fuddaliadau sy'n daladwy i'r cyfryw gyfranogwr, anwybyddir unrhyw doriad ym mharhad ei gyfnod neu ei chyfnod mewn swydd fel Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru y gellir ei briodoli i adran 2(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu i adran 14 o'r Ddeddf.

## **RHAN B**

### **YMDDIRIEDOLWYR A GWEINYDDU**

#### **Sefydlu'r Gronfa**

B1. (1) Sefydlir Cronfa a elwir yn Gronfa Bensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru at ddibenion y Cynllun hwn a bydd y Gronfa wedi'i breinio yn yr Ymddiriedolwyr ac yn cael ei gweinyddu gan yr Ymddiriedolwyr o dro i dro.

(2) Telir pob pensiwn a phob swm arall sy'n daladwy o dan y Rheolau hyn gan yr Ymddiriedolwyr, gan gynnwys premiymau cyfraniadau cyfatebol sy'n daladwy mewn perthynas â chyn-gyfranogwyr, allan o'r Gronfa, a thelir pob swm a ddaw i law'r Ymddiriedolwyr o dan y Rheolau hyn i mewn i'r Gronfa.

(3) Bydd yr Ymddiriedolwyr yn dal yr asedau a'r arian o dro i dro a gynhwysir yn y Gronfa ar ymddiriedaeth yn unol â darpariaethau eraill y Cynllun.

#### **Penodi Ymddiriedolwyr**

B2. Bydd darpariaethau Atodlen 1 i'r Rheolau hyn yn weithredol mewn perthynas â nifer, cymhwyster a gweithrediadau Ymddiriedolwyr y Cynllun, gweinyddu'r Cynllun a rheoli a defnyddio asedau'r Gronfa. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am reoli a gweinyddu'r Cynllun yn dda yn unol â'r Rheolau hyn.

### **Buddsoddi'r Gronfa**

B3. (1) Gall Ymddiriedolwyr y Gronfa fuddsoddi asedau'r Gronfa mewn unrhyw fuddsoddiad p'un ai'n ddiriaethol neu'n anniriaethol yn symudol neu'n ansymudol a ph'un a yw'n cynhyrchu incwm neu wedi'i awdurdodi gan y gyfraith ar gyfer buddsoddi arian ymddiriedaeth neu beidio. Gall yr Ymddiriedolwyr newid buddsoddiadau'r Gronfa o dro i dro a gallant yswirio unrhyw ased a berchenogir gan y Gronfa.

(2) Gall yr Ymddiriedolwyr gyfranogi mewn cynllun buddsoddi cyffredin gydag Ymddiriedolwyr cynlluniau budd-dal ymddeol eraill ar yr amod nad yw'n effeithio ar statws treth cofrestredig y Cynllun.

(3) Gall yr Ymddiriedolwyr gael cyngor gan reolwr buddsoddi neu berson proffesiynol arall a chanddo gymwysterau addas mewn perthynas â buddsoddi'r Gronfa. Gall yr Ymddiriedolwyr hefyd benodi rheolwr neu reolwyr buddsoddi a dirprwyo'r gwaith o fuddsoddi a rheoli'r Gronfa o ddydd i ddydd i'r rheolwr neu'r rheolwyr. Gall yr Ymddiriedolaeth dalu'r rheolwyr fel un o dreuliau'r Gronfa.

(4) Gall yr Ymddiriedolwyr benodi un neu fwy o asiantau i weithredu fel ceidwaid y Gronfa a gall yr Ymddiriedolwyr dalu'r ceidwaid am y gwasanaethau hyn. Bydd unrhyw dâl a delir i geidwad yn un o dreuliau'r Gronfa.

### **Indemnio Ymddiriedolwyr**

B4. (1) Bydd gan yr Ymddiriedolwyr yr hawl i bob indemniad a roddir i'r Ymddiriedolwyr gan y gyfraith. Ni fydd yr Ymddiriedolwyr yn atebol am unrhyw weithredoedd na hepgoriadau nad ydynt yn deillio o'u hesgeulustod na'u diffyg eu hunain. Bydd Comisiwn y Cynulliad yn indemnio'r Ymddiriedolwyr rhag canlyniadau gweithredu holl bwerau a disgresiynau'r Ymddiriedolwyr ar yr amod bod gan Gomisiwn y Cynulliad reolaeth dros yr amddiffyniad cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw achos yn erbyn yr Ymddiriedolwyr, gan gynnwys setlo'r cyfryw achos.

(2) Yn y Rheol hon bydd y gair 'Ymddiriedolwr' yn cynnwys pob un o Ymddiriedolwyr presennol y Cynllun a phob un o gyn-Ymddiriedolwyr y Cynllun.

## **RHAN C AELODAETH**

### **Aelodaeth Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

C1. Bydd unrhyw berson nad yw wedi cyrraedd 75 oed ac sy'n gwasanaethu fel Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Aelod cyfranogol yn y Cynllun yn



awtomatig ac eithrio unrhyw Aelod o'r Cynulliad hwnnw sydd wedi gweithredu dewis o dan Reol C3 i beidio â bod yn gyfranogwr yn y Cynllun.

### **Aelodaeth Deiliaid Swydd**

C2. (1) Bydd deiliad swydd nad yw wedi gweithredu dewis o dan Reol C5 ac sy'n Aelod cyfranogol (yn amodol ar yr amgylchiadau penodol a ddisgrifir o dan Reol DD3(3) isod) yn ddeiliad swydd cyfranogol yn y Cynllun mewn perthynas ag unrhyw gyfnod deiliadaeth swydd gymwys.

(2) Yn y Rheolau hyn ystyr "cyfnod deiliadaeth swydd gymwys" yw unrhyw gyfnod parhaus sy'n dechrau ar 6 Mai 1999 neu ar ôl hynny lle mae person:

- (a) yn dal yr un swydd gymwys, neu
- (b) yn dal dwy neu fwy o swyddi cymwys yn olynol gyda'r un cyflog yn daladwy mewn perthynas â hwy.

Caiff yr amodiad o dan Rheol C2(1) bod swyddog cyfranogol hefyd yn Aelod cyfranogol ei ddiystyru mewn perthynas ag unigolyn nad yw'n Aelod Cynulliad sy'n dal swydd Cwnsler Cyffredinol o dan adran 49 o'r Ddeddf.

(3) Yn y Rheolau hyn ystyr "swydd gymwys" yw unrhyw un o'r swyddi canlynol:

- (a) y Llywydd;
- (b) y Dirprwy Lywydd;
- (c) Y Prif Weinidog (neu Brif Ysgrifennydd y Cynulliad);
- (ch) Gweinidogion Cymru (neu Ysgrifenyddion y Cynulliad);
- (d) Dirprwy Weinidogion Cymru;
- (dd) Y Cwnsler Cyffredinol.
- (e) Aelodau Comisiwn y Cynulliad (ac eithrio'r Llywydd)
- (f) unrhyw swydd arall y mae cyflog sy'n ychwanegol at gyflog Aelod Cynulliad yn daladwy am y tro mewn perthynas â hi o dan unrhyw benderfyniad a wnaed o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu o dan adran 22 neu 53 o'r Ddeddf;

ac ystyr "deiliad swydd" yw deiliad swydd gymwys.

### **Hawl Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i eithrio o'r Cynllun**

C3. (1) Gall Aelod cyfranogol weithredu dewis yn ysgrifenedig o dan y Rheol hon i beidio â bod yn rhan o'r Cynllun.

(2) Yn amodol ar baragraff (3) isod, y dyddiad eithrio gweithredol mewn perthynas ag Aelod yw pa ddyddiad bynnag a bennir gan yr Ymddiriedolwyr fel y dyddiad ymarferol cynharaf ar ôl y dyddiad y byddant yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig gan yr Aelod ei fod neu ei bod yn gweithredu'r dewis.

(3) Os caiff yr Ymddiriedolwyr eu hysbysu'n ysgrifenedig heb fod yn fwy na thri mis ar ôl dyddiad

- (a) o etholiad cyffredin o dan adran 3 o'r Ddeddf neu o etholiad cyffredin arbennig o dan adran 5 o'r Ddeddf, pan etholwyd y person am y tro cyntaf yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru; neu
- (b) etholiad o dan adran 10 o'r Ddeddf pan etholwyd y person am y tro cyntaf yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru; neu
- (c) y daeth y person yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 11 o'r Ddeddf am y tro cyntaf

y dyddiad eithrio gweithredol yw dyddiad etholiad yr Aelod fel Aelod Cynulliad ac ad-delir unrhyw gyfraniadau a ddidynnwyd o'r Aelod ers yr etholiad hwnnw, o dan Reol CH1 ac os yw'n ddeiliad swydd o dan Reol CH2, iddo neu iddi.

(4) Cyfeirir at Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru sydd wedi arfer ei hawl o dan baragraff (1) uchod i eithrio o'r Cynllun fel "Aelod wedi eithrio" yn y Rheolau hyn.

#### **Hawl deiliaid swydd i eithrio o'r Cynllun**

C4. (1) Gall deiliad swydd sy'n Aelod cyfranogol weithredu dewis yn ysgrifenedig o dan y Rheol hon i beidio â bod yn ddeiliad swydd cyfranogol yn y Cynllun.

(2) Yn amodol ar baragraff (3) isod, y dyddiad eithrio gweithredol mewn perthynas â deiliad swydd yw pa ddyddiad bynnag a bennir gan yr Ymddiriedolwyr fel y dyddiad ymarferol cynharaf ar ôl y dyddiad y byddant yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig gan y deiliad swydd ei fod neu ei bod yn gweithredu'r dewis.

(3) Os caiff yr Ymddiriedolwyr eu hysbysu'n ysgrifenedig heb fod yn fwy na deuddeg mis ar ôl dyddiad cychwyn cyfnod deiliadaeth swydd gymwys, y dyddiad eithrio gweithredol yw'r dyddiad y dechreuodd y cyfnod deiliadaeth hwnnw ac ad-delir unrhyw gyfraniadau a ddidynnwyd o ddeiliad swydd o dan Reol CH2 mewn perthynas â'r cyfnod deiliadaeth hwnnw, iddo neu iddi.

(4) Yn y Rheolau hyn cyfeirir at ddeiliad swydd sydd wedi gweithredu dewis o dan baragraff (1) i beidio â bod yn ddeiliad swydd cyfranogol neu sydd wedi gweithredu dewis o dan Rheol C3(1) fel deiliad swydd wedi eithrio.

#### **Hawl Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ymuno â'r Cynllun**

C5. Gall Aelod wedi eithrio wneud cais i ailymuno â'r Cynllun fel Aelod cyfranogol o ddyddiad unrhyw etholiad cyffredin canlynol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu unrhyw etholiad canlynol pan etholwyd yr Aelod i fod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y dyddiad ymuno gweithredol") drwy hysbysu'r Ymddiriedolwyr yn ysgrifenedig o fewn cyfnod o dri mis sy'n dechrau ar y dyddiad ymuno gweithredol ar yr amod bod

- (a) yr Aelod yn talu'r swm a ardystir gan yr Ymddiriedolwyr fel y swm a fyddai wedi'i ddidynnu o gyflog yr Aelod o dan Reol CH1 rhwng y dyddiad ymuno gweithredol a'r dyddiad cyntaf wedi hynny pan ddidynnir o'i gyflog neu ei chyflog o dan Reol CH1 o fewn wyth diwrnod ar hugain i'r Ymddiriedolwyr dderbyn cais yr Aelod, neu o fewn y cyfryw gyfnod hwy ag y gall yr Ymddiriedolwyr ei bennu yn ôl eu disgrisiwn; a
- (b) o leiaf dri mis wedi mynd heibio ers i'r Aelod gael ei ethol neu ei hethol yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ar y dyddiad ymuno gweithredol.

### **Hawl deiliaid swydd i ymuno â'r Cynllun**

- C6. Gall deiliad swydd wedi eithrio sy'n Aelod cyfranogol wneud cais i ailymuno â'r Cynllun fel deiliad swydd cyfranogol o ddyddiad cychwyn cyfnod newydd deiliadaeth swydd gymwys ("y dyddiad ymuno gweithredol") drwy hysbysu'r Ymddiriedolwyr yn ysgrifenedig o fewn cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dechrau ar y dyddiad ymuno gweithredol, ar yr amod bod y deiliad swydd yn talu'r swm a ardystir gan yr Ymddiriedolwyr fel y swm a fyddai wedi'i ddidynnu o gyflog y deiliad swydd o dan Reol CH1 rhwng y dyddiad ymuno gweithredol a'r dyddiad cyntaf wedi hynny pan ddidynnir o'i gyflog neu o'i chyflog o dan Reol CH2 o fewn wyth diwrnod ar hugain i'r Ymddiriedolwyr dderbyn cais y deiliad swydd, neu o fewn y cyfryw gyfnod hwy ag y gall yr Ymddiriedolwr ei bennu yn ôl eu disgrisiwn.

## **RHAN CH CYFRANIADAU**

### **Cyfraniadau Aelodau cyfranogol**

CH1. (1) Yn amodol ar baragraff (4) isod a Rheol CH3, didynnir o bob taliad mewn perthynas â chyflog a wneir i Aelod cyfranogol y ganran briodol o'r taliad hwnnw; a thelir yr holl symiau a ddidynnir felly i mewn i'r Gronfa.

(2) Yn y Rheol hon, ystyr "cyflog" yw cyflog arferol Aelod. Lle gostyngir cyflog arferol Aelod drwy orchymyn o dan adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu o dan adran 21 (terfyn cyflogau Aelodau o gyrrff cyhoeddus eraill) o'r Ddeddf, ystyr "cyflog" yw lefel ostyngol y cyflog a delir i'r Aelod.

(3) At ddibenion Rheol CH1(1) uchod y ganran briodol:-

- (a) mewn perthynas â thalu cyflog a wnaed mewn perthynas â chyfnod a ddaeth i ben cyn 1af Ebrill 2004 yw 6 y cant;
- (b) mewn perthynas â thalu cyflog a wnaed mewn perthynas â chyfnod yn dechrau ar neu wedi 1af Ebrill 2004 a chyn 1af Ebrill 2005:-

- (i) yw 6 y cant lle nad yw'r Aelod cyfranogol wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A) (a) i gyfrannu 10 y cant; neu
  - (ii) yn 10 y cant lle mae'r Aelod cyfranogol wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A) (a) i gyfrannu ar y gyfradd uwch;
- (c) mewn perthynas â thalu cyflog a wnaed mewn perthynas â chyfnod yn dechrau ar neu wedi 1af Ebrill 2005:-
- (i) yw 10 y cant lle nad yw'r Aelod cyfranogol wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A) (b) i gyfrannu ar 6 y cant;
  - (ii) yw 6 y cant lle mae'r Aelod cyfranogol wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A) (b) ar y gyfradd is.

(3A) Bydd Aelod cyfranogol yn gweithredu'r dewisiadau y cyfeiriwyd atynt yn Rheol CH1(3) (b) a (c) drwy roi rhybudd yn ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr:-

- (a) yn achos unigolyn a oedd yn Aelod cyfranogol rhwng 1af Ebrill 2004 a 1af Ebrill 2005, a'r rhybudd priodol i gael ei roi erbyn 14eg Mawrth 2005 fan bellaf i weithredu'r dewis i gyfrannu ar y gyfradd uwch yn weithredol o 1af Ebrill 2004;
- (b) yn achos person sy'n Aelod cyfranogol ar neu wedi 1af Ebrill 2005, ac nad yw wedi gweithredu dewis o ran rhan (a), dim mwy na 3 mis o rybudd o'r dyddiad hwnnw i gyfrannu ar y gyfradd is yn weithredol o 1af Ebrill 2005; neu yn achos Aelod cyfranogol sydd newydd gael ei ethol ar ôl 1af Ebrill 2005, dim mwy na thri mis o rybudd ar ôl dyddiad yr etholiad cyntaf i gyfrannu ar y gyfradd is yn weithredol o'r dyddiad hwnnw.

- (3B) (i) Yn unol â gweithredu'r dewis yn Rheol CH1(3A)(a), bydd aelod yn talu i'r Ymddiriedolwyr y swm sy'n cynrychioli'r swm ychwanegol a fyddai wedi cael ei ddidynnu o'i gyflog ef neu ei chyflog hi pe bai cyfraniadau wedi cael eu didynnu ohono ar y gyfradd o 10 y cant o 1af Ebrill 2004.
- (ii) Yn unol â gweithredu'r dewis yn Rheol CH1(3A)(b), bydd yr Ymddiriedolwyr yn talu i'r aelod y cyfryw swm sy'n cynrychioli'r swm ychwanegol a ddidynnwyd o'i gyflog ef neu ei chyflog hi yn ystod y cyfnod pan ddidynnwyd cyfraniadau ar y gyfradd o 10 y cant.

(4) Lle mae cyfanswm cyfnod o wasanaeth cyfrifadwy person fel Aelod cyfranogol yn fwy na'r swm a fyddai'n arwain at yr uchafswm pensiwn a ganiateir mewn perthynas â'r person hwnnw fel Aelod cyfranogol o dan Reol DD5, ni ddidynnir o daliadau cyflog y cyfryw Aelod o dan y Rheol hon.

### **Cyfraniadau gan ddeiliad swydd cyfranogol**

CH2. (1) Yn amodol ar Reol CH3, didynnir o bob taliad cyflog a wneir i ddeiliad swydd cyfranogol y ganran briodol o'r taliad hwnnw; a thelir pob swm a ddidynnir felly i mewn i'r Gronfa.

(2) Yn y Rheol hon ystyr "cyflog" yw'r gwahaniaeth rhwng

- (a) cyfanswm y swm blynyddol sy'n daladwy i'r deiliad swydd mewn perthynas â'r swydd honno a ddelir ganddo neu ganddi a'r cyflog blynyddol sydd neu a oedd yn daladwy iddo neu iddi fel Aelod sy'n dal y swydd honno; a
- (b) cyflog arferol yr Aelod fel y'i diffinnir yn Rheol CH1(2).

(3) At ddiben Rheol CH2(1) uchod y ganran briodol yw:-

(a) mewn perthynas â thalu cyflog a wnaed mewn perthynas â chyfnod a ddaeth i ben cyn 1af Ebrill 2004 yw 6 y cant;

(b) mewn perthynas â thalu cyflog a wnaed mewn perthynas â chyfnod yn dechrau ar neu wedi 1af Ebrill 2004 a chyn 1af Ebrill 2005:-

(i) yw 6 cant lle nad yw'r deiliad swydd cyfranogol wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A) (a) i gyfrannu 10 y cant; neu

(ii) yw 10 y cant lle mae'r deiliad swydd cyfranogol wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A) (a) i gyfrannu ar y gyfradd uwch;

(c) mewn perthynas â thalu cyflog a wnaed mewn perthynas â chyfnod yn dechrau ar neu wedi 1af Ebrill 2005:-

(i) yw 10 y cant lle nad yw'r deiliad swydd cyfranogol wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A)(b) i gyfrannu 6 y cant; neu

(ii) yw 6 y cant lle mae'r deiliad swydd cyfranogol wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A)(b) i gyfrannu ar y gyfradd is.

(3A) Tybir y bydd Aelod cyfranogol sydd hefyd yn ddeiliad swydd cyfranogol (neu sy'n dod yn ddeiliad swydd cyfranogol wedyn) sy'n gweithredu un o'r dewisiadau yn Rheol CH1(3A), wedi gweithredu'r dewis hwnnw (gyda'r un dyddiad gweithredol) mewn perthynas â'i gyflog deiliad swydd ef neu ei chyflog deiliad swydd hi.

(3B) (a) Yn unol â gweithredu'r dewis yn Rheol CH1(3A)(a) gan Aelod cyfranogol sydd hefyd yn ddeiliad swydd cyfranogol neu sy'n dod yn ddeiliad swydd cyfranogol wedyn, bydd deiliad swydd cyfranogol yn talu i'r Ymddiriedolwyr y swm sy'n cynrychioli'r swm ychwanegol a

fyddai wedi cael ei ddidynnu o'i gyflog ef fel deiliad swydd neu ei chyflog hi fel deiliad swydd pe bai cyfraniadau wedi cael eu didynnu ohono ar y gyfradd o 10 y cant o 1af Ebrill 2004.

(b) Yn unol â gweithredu'r dewis yn Rheol CH1(3A)(b) gan Aelod cyfranogol sydd hefyd yn ddeiliad swydd cyfranogol neu sy'n dod yn ddeiliad swydd cyfranogol wedyn, bydd yr Ymddiriedolwyr yn talu i'r aelod y cyfryw swm sy'n cynrychioli'r swm ychwanegol a ddidynnwyd o'i gyflog ef fel deiliad swydd neu ei chyflog hi fel deiliad swydd yn ystod y cyfnod pan ddidynnwyd cyfraniadau ar y gyfradd o 10 y cant.

(4) Bydd yn ofynnol i Aelod cyfranogol a oedd yn union cyn yr etholiad hefyd yn ddeiliad swydd cyfranogol ac sy'n cael ei ailbenodi i'r un swydd gymwys neu swydd gymwys arall ar yr un cyflog mewn perthynas â'r cyfnod interim rhwng dyddiad yr etholiad sy'n ei ethol ef neu hi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a dyddiad dilynol yr ailbenodiad i swydd gymwys, gyfrannu swm sy'n hafal i gyfanswm ei gyfradd cyfraniadau ef neu ei chyfradd cyfraniadau hi a chyfradd cyfraniadau barhaus Comisiwn y Cynulliad fel y nodir gan yr Actiwari o dro i dro, wedi ei gyfrifo yn ôl swm ei gyflog ef fel deiliad swydd neu ei chyflog hi fel deiliad swydd. Bydd y cyfraniad yn cael ei ddidynnu o gyflog yr Aelod cyfranogol yn ogystal â'r cyfraniad sy'n daladwy ganddo ef/ganddi hi o dan Reol CH1 uchod. Yn weithredol o 1af Ebrill 2007, bydd y Rheol CH2(5) hon yn peidio â bod yn gymwys i'r Llywydd, y Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru, gan y bydd parhad eu gwasanaeth yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod interim drwy ddarpariaethau adran 22(4) o'r Ddeddf.

(a) Caiff unrhyw gyfraniadau a delir gan Aelod cyfranogol o dan Reol CH2(4) uchod eu had-dalu gan yr Ymddiriedolwyr iddo ef neu iddi hi o fewn y cyfryw gyfnod ag sy'n rhesymol yn ôl yr Ymddiriedolwyr os bydd yr aelod yn methu â chael ei ailbenodi i'r un swydd gymwys (neu swydd gymwys arall ar yr un cyflog) yn dilyn yr etholiad.

## Cap Enillion

CH3. Lle y bydd cyflog blynyddol unrhyw berson

- (a) fel Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru; neu
- (b) fel deiliad swydd; neu
- (c) fel (a) a (b) gyda'i gilydd

yn fwy na'r uchafswm a ganiateir, cyfyngir ar y cyfraniadau a ddidynnir o'r cyflog blynyddol hwnnw i'r ganran briodol (fel y'i diffinnir yn Rheolau CH1 ac CH2) o'r uchafswm hwnnw a ganiateir a lle mae is-baragraff (c) yn gymwys, gostyngir cyfraniadau'r person o dan Reol CH2 cyn ei gyfraniadau neu ei chyfraniadau o dan Reol CH1.

## RHAN D GWASANAETH CYFRIFADWY

## **Gwasanaeth Cyfrifadwy Gwirioneddol**

D1. (1) Yn amodol ar baragraff (2) isod a Rheolau L1 (ad-daliadau), a LL1, LL2 a LL3 (trosglwyddo) at ddiben y Rheolau hyn mae unrhyw gyfnod

(a) lle roedd neu lle mae unrhyw berson yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a

(b) lle mae unrhyw berson wedi gwneud cyfraniadau i'r Cynllun,

yn gyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol, ac yn y Rheolau hyn ystyr "cyfnod gwirioneddol o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol", mewn perthynas â pherson, yw'r cyfnod, neu (os oes mwy nag un) cyfanswm y cyfryw gyfnodau, sy'n dod o dan y diffiniad hwn.

(2) Mewn perthynas â pherson a fu'n ddeiliad swydd cyfranogol, ac yn amodol ar Reolau DD7(3) (taliad i ddeiliad swydd ar ôl ymddeoliad arferol), L1 (ad-daliadau), LL1, LL2 a LL3 (trosglwyddo), mae unrhyw gyfnod lle mae person yn ddeiliad swydd cyfranogol yn gyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd cyfranogol; ac yn y Rheolau hyn ystyr "cyfnod gwirioneddol o wasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd", mewn perthynas â pherson, yw'r cyfnod (neu, os oes mwy nag un, cyfanswm y cyfnodau hynny) o wasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd cyfranogol.

## **Cyfanswm gwasanaeth cyfrifadwy**

D2. (1) Mewn perthynas â pherson, cyfanswm ei gyfnod neu ei chyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol yw ei gyfnod neu ei chyfnod gwirioneddol o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol ynghyd ag unrhyw gynnydd mewn gwasanaeth cyfrifadwy y gellir ei briodoli i symiau a dderbynnir oherwydd trosglwyddo gwerth neu brynu blynyddoedd ychwanegol.

(2) Mewn perthynas â pherson, cyfanswm ei gyfnod neu ei chyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd cyfranogol yw ei gyfnod neu ei chyfnod gwirioneddol o wasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd cyfranogol ynghyd ag unrhyw gynnydd mewn gwasanaeth cyfrifadwy y gellir ei briodoli i symiau a dderbynnir oherwydd trosglwyddo gwerth.

## **Darpariaethau cyflog gostyngol**

(3)(a) O fis Ebrill 2010, at ddibenion pennu hawl i bensiwn yn unol â Rheolau DD2 a DD4 yn y drefn honno, caiff cyfanswm cyfnod gwasanaeth cyfrifadwy unrhyw Aelod cyfranogol neu swyddog cyfranogol (fel y'i diffinnir o dan Reolau D2(1) a D2(2)), ei ostwng ar sail pro rata ar gyfer unrhyw gyfnod pan ddewisodd y cyfranogwr gael cyflog is na'r hyn yr oedd ganddo neu ganddi'r hawl iddo yn ystod yr un cyfnod o dan reolau'r Cynllun.

- (b) O dan yr amgylchiadau a nodir yn (a) uchod, ymdrinnir â chyfanswm cyfnod y gwasanaeth cyfrifadwy a'i ostwng o dan Reol D2(3)(c) gan ddefnyddio'r un gyfran gan fod y cyflog isaf a dderbyniwyd mewn gwirionedd gan y cyfranogwr (ac y cafodd cyfraniadau perthnasol eu didynnu ohono o dan Reolau CH1 neu CH2) yn cyfateb i gyflog cyffredinol yr Aelod llawn cyfatebol neu gyflog deiliad y swydd (fel y bo'n briodol) y byddai, fel arall, wedi bod yn daladwy i'r cyfranogwr ar gyfer y cyfnod dan sylw.
- (c) At ddibenion Rheol D2(3), caiff cyfanswm cyfnod gwasanaeth cyfrifadwy'r Aelod cyfranogol neu ddeiliad cyfranogol y swydd ei bennu drwy addasu cyfanswm ei gyfnod gwasanaeth cyfrifadwy gan ddefnyddio addasiad ffactor gwasanaeth 'C' isod:-

$$A/B = C$$

Lle mae:

A = y cyflog gwirioneddol a ddefnyddiwyd gan y cyfranogwr i dalu cyfraniadau yn ystod y cyfnod perthnasol dan sylw;

B = cyflog arferol yr Aelod llawn neu gyflog deiliad llawn y swydd yr oedd hawl gan y cyfranogwr ei dderbyn o dan y Cynllun yn ystod y cyfnod perthnasol dan sylw; a

C = yr 'addasiad ffactor gwasanaeth' a ddefnyddiwyd i addasu cyfanswm cyfnod gwasanaeth cyfrifadwy'r cyfranogwr i adlewyrchu'r cyfnod pan oedd cyfraniadau'n seiliedig ar gyflog gostyngedig.

(4) Er mwyn osgoi amheuaeth yn y dyfodol, ni chaiff 'addasiad ffactor gwasanaeth' 'C' (fel y'i diffinnir yn y paragraff blaenorol) ei gymhwyso i ostwng cyfanswm cyfnod gwasanaeth cyfrifadwy'r cyfranogwr wrth gyfrifo'r canlynol:

(a) hyd cyfnod gwasanaeth cymwys y cyfranogwr at ddibenion canfod y ganran ostyngol i'w defnyddio o dan Atodlen 2. Fodd bynnag, caiff 'addasiad ffactor gwasanaeth' 'C' ei ddefnyddio i gyfrifo lefel wirioneddol y budd pensiwn y mae hawl gan y cyfranogwr iddo o dan ddarpariaeth ymddeoliad cynnar Rheolau F1 ac F2;

(b) y tâl ychwanegol at y pensiwn oherwydd salwch sy'n daladwy o dan Reol FF4;

(c) y tâl ychwanegol at y pensiwn marwolaeth mewn swydd sy'n daladwy o dan Reol G4(2);

(ch) cyfrifo'r gwasanaeth cymwys o dan Reol L1(2)(b) ar gyfer yr hawl i gael cyfandaliad gwasanaeth byr; a



- (d) hyd y gwasanaeth cymwys o dan Reol LI(1)(b) er mwyn gallu troslwyddo taliad o'r Cynllun. Fodd bynnag, bydd yn rhaid cymhwyso 'addasiad ffactor gwasanaeth' 'C' at ddibenion cyfrifo'r lefel wirioneddol o daliadau gwerth trosglwyddo i'w gwneud mewn perthynas â'r cyfranogwr hwnnw.
- (5) Er mwyn osgoi amheuaeth bellach, amodir y bydd yn rhaid cymhwyso 'addasiad ffactor gwasanaeth' 'C' i leihau cyfanswm cyfnod gwasanaeth cyfrifadwy y cyfranogwr at ddibenion cyfrifo pob buddiant arall o dan y Cynllun (ac eithrio'r rhai a enwir yn Rheolau D2(4)(a-d) uchod). Yn benodol, ystyrir 'addasiad ffactor gwasanaeth' 'C' lle prynir blynyddoedd ychwanegol o dan Atodlen 4, paragraff 4, drwy gyfraniadau cyfnodol sy'n daladwy drwy ddiwynnu o gyflog arferol Aelod. Yn unol â hynny bydd y pensiwn â blynyddoedd ychwanegol o ganlyniad i hynny yn seiliedig ar gyfanswm cyfnod gwasanaeth cyfrifadwy yr Aelod cyfranogol ar ôl cymhwyso 'addasiad ffactor gwasanaeth' 'C'.

## **RHAN DD**

### **YR HAWL I BENSIWN**

#### **Hawl Aelodau sy'n bensiynwyr**

DD1. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Rheolau hyn, bydd hawl gan berson sydd wedi peidio â bod yn Aelod cyfranogol ac y mae ganddo wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol o dan Ran D yr hawl i gael pensiwn o dan y Rheol hon pan fydd yn cyflawni'r ddau amod canlynol:

- (a) mae'n peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;  
a
- (b) mae wedi cyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed.

#### **Y swm sy'n daladwy i Aelodau sy'n bensiynwyr**

DD2. (1) Yn amodol ar Reolau DD5 a DD6, E1 (Cymudo), F1 (Ymdeol yn gynnar) a FF1 a FF3 (Pensiynau oherwydd salwch), bydd swm blynyddol y pensiwn sy'n daladwy i berson o dan Reol DD1 yn swm sy'n hafal i gyfanswm y symiau a gynhyrchir, mewn perthynas â phob blwyddyn neu ffraciwn o flwyddyn a gynhwysir yng nghyfanswm cyfnod gwasanaeth cyfrifadwy y person fel Aelod cyfranogol, drwy luosi'r cyflog terfynol perthnasol â'r ffraciwn priodol.

(2) Yn y Rheol hon ystyr "y cyflog terfynol perthnasol"

- (a) mewn perthynas â pherson a fu'n Aelod cyfranogol am gyfnod o ddeuddeg mis neu fwy, neu am ddau neu fwy o gyfnodau sy'n gwneud cyfanswm o fwy na deuddeg mis, yw swm cyflog arferol yr Aelod am y deuddeg mis diwethaf (yn barhaus neu'n ysbeidiol) pan oedd y person hwnnw yn Aelod cyfranogol; a

- (b) mewn perthynas â pherson a fu'n Aelod cyfranogol, ond yr oedd ei gyfnod neu ei chyfnod gwirioneddol o wasanaeth fel Aelod cyfranogol yn llai na deuddeg mis, yw swm a gyfrifir drwy nodi cyfanswm cyflog arferol yr Aelod ar gyfer y cyfnod (yn barhaus neu'n ysbeidiol) pan oedd yn Aelod cyfranogol a'i luosi â'r ffigur priodol:

ac yn is-baragraff (b) o'r paragraff hwn, ystyr "y ffigur priodol" mewn perthynas â pherson, yw'r ffigur (p'un a yw'n gyfanrif ai peidio) y mae'n rhaid ei luosi â nifer y dyddiau a gynhwysir yn ei gyfnod neu ei chyfnod o wasanaeth fel Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn bod yn gyfartal â blwyddyn.

(3) Ym mharagraff (1) o'r Rheol hon ystyr "y ffracsiwn priodol", mewn perthynas â blwyddyn neu ran o flwyddyn a gynhwysir yng nghyfanswm cyfnod gwasanaeth cyfrifadwy person fel Aelod cyfranogol na ostyngir ei gyflog neu ei chyflog arferol drwy orchymyn o dan adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu o adran 21 (terfyn cyflogau Aelodau o gyrff cyhoeddus eraill) o'r Ddeddf, yw:-

- (a) yn achos gwasanaeth Aelod cyfranogol yn ystod blwyddyn neu ran o flwyddyn sy'n dod i ben cyn 1af Ebrill 2004, un rhan o bum deg neu ffracsiwn cymesur o un rhan o bum deg;
- (b) yn achos gwasanaeth blwyddyn neu ran o flwyddyn yn y cyfnod rhwng 1af Ebrill 2004 a 31ain Mawrth 2005 Aelod cyfranogol nad yw wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A)(a), un rhan o bum deg neu ffracsiwn cymesur o un rhan o bum deg;
- (c) yn achos gwasanaeth am flwyddyn neu ran o flwyddyn yn y cyfnod rhwng 1af Ebrill 2004 a 31ain Mawrth 2005 Aelod cyfranogol sydd wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A)(a), un rhan o bedwar deg neu ffracsiwn cymesur o un rhan o bedwar deg;
- (ch) yn achos gwasanaeth am flwyddyn neu ran o flwyddyn yn dechrau ar neu wedi 1af Ebrill 2005 Aelod cyfranogol nad yw wedi gweithredu'r opsiwn o dan Reol CH1(3A)(b), un rhan o bedwar deg neu ffracsiwn cymesur o un rhan o bedwar deg.
- (d) yn achos gwasanaeth am flwyddyn neu ran o flwyddyn yn dechrau ar neu wedi 1af Ebrill 2005 Aelod cyfranogol sydd wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A)(b), un rhan o bum deg neu ffracsiwn cymesur o un rhan o bum deg.

Lle y gostyngir neu gostyngwyd cyflog arferol Aelod drwy orchymyn o dan adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu o dan adran 21 o'r Ddeddf "y ffracsiwn priodol" ar gyfer y cyfnodau pan oedd cyflog yr Aelod wedi'i ostwng fydd un rhan o bum deg ar gyfer pob blwyddyn cyn 1af Ebrill 2004 neu un rhan o bum deg neu un rhan o bedwar deg (fel y bo'n briodol) ar gyfer pob blwyddyn ar neu wedi 1af Ebrill 2004 wedi'i ostwng gan yr un gyfran ag y gostyngwyd cyflog yr Aelod yn gymesur â chyflog arferol Aelod bryd hynny. Bydd ffracsiynau o flwyddyn yn cyfrif yn yr un modd.

### **Hawl deiliaid swydd sy'n bensiynwyr**

DD3. (1) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Rheolau hyn, bydd gan berson sydd wedi peidio â bod yn ddeiliad swydd cyfranogol ac y mae ganddo neu ganddi wasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd cyfranogol o dan Ran D yr hawl i gael penswn o dan y Rheol hon pan fydd yn cyflawni'r ddau amod a nodir ym mharagraffau (a) a (b) Rheol DD1.

(2) Gall fod hawl gan yr un person i bensiwn o dan Reol DD1 ac i bensiwn o dan y Rheol hon; bydd symiau'r ddau bensiwn yn gronnol.

(3)(a) Dim ond os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddi-ddymu ar neu ar ôl 1 Mawrth 2011 y bydd y paragraff hwn yn gymwys sy'n arwain at:

- (i) atal talu cyflog arferol aelod ar unwaith i unigolyn a oedd, yn union cyn diddymu, yn Aelod cyfranogol a oedd wedi nodi ei fwriad neu ei bwriad i beidio â sefyll etholiad, ac a fydd yn parhau i gael cyflog deiliad swydd (ar ôl diddymu) nes bod penodiad newydd wedi'i wneud; neu
  - (ii) parhau i dalu cyflog arferol aelod i Aelod cyfranogol sydd wedi nodi ei fwriad neu ei bwriad i sefyll i gael ei ailethol neu ei hailethol, ac a fydd yn parhau i gael cyflog deiliad swydd (ar ôl diddymu) nes bod penodiad newydd wedi'i wneud, ond sydd wedyn yn aflwyddiannus yn yr etholiad.
- (b) O dan yr amgylchiadau yn (a)(i) uchod, bydd yr unigolyn fel arfer, o ganlyniad i atal talu ei gyflog neu ei chyflog fel Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn peidio â bod yn Aelod cyfranogol o'r Cynllun yn weithredol o'r dyddiad diddymu ac felly, bydd hefyd yn peidio â bod yn ddeiliad swydd cyfranogol yn y Cynllun. Fodd bynnag, yn rhinwedd y paragraff hwn, bydd y Rheolau a fyddai fel arfer yn gymwys fel uchod ac yn enwedig, Rheol C2(1), yn cael eu haddasu a dehonglir eu bod yn ymgorffori'r cyfryw newidiadau ag sy'n angenrheidiol i dybio bod cyflog deiliad swydd parhaus yr unigolyn (ar ôl diddymu) yn bensiynadwy.
- (c) O dan yr amgylchiadau yn (a)(ii) uchod, bydd yr unigolyn fel arfer yn parhau i fod yn Aelod cyfranogol o'r Cynllun tan y dyddiad y bydd cyflog arferol yr aelod yn peidio o ganlyniad i beidio â chael ei ethol yn yr etholiad ac yn unol â hynny, bydd yr unigolyn hefyd fel arfer yn peidio â bod yn ddeiliad swydd cyfranogol yn weithredol o'r dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, yn rhinwedd y paragraff hwn, bydd y Rheolau a fyddai fel arfer yn gymwys fel uchod ac yn enwedig, Rheol C2(1), yn cael eu haddasu a dehonglir eu bod yn ymgorffori'r cyfryw newidiadau ag sy'n angenrheidiol i dybio bod cyflog deiliad swydd parhaus yr unigolyn (ar ôl etholiad) yn bensiynadwy.

## **Y swm sy'n daladwy i ddeiliaid swydd sy'n bensiynwyr**

DD4. (1) Yn amodol ar Reolau DD5 a DD6, E1 (Cymudo) a F1 (Ymddeol yn Gynnar), bydd darpariaethau'r Rheol hon yn weithredol at ddiben cyfrifo'r swm blynyddol o bensiwn sy'n daladwy i berson o dan Reol DD3.

(2) Ar gyfer pob blwyddyn yr oedd y flwyddyn gyfan neu unrhyw ran ohoni wedi'i chynnwys yng nghyfanswm cyfnod gwasanaeth cyfrifadwy y person fel deiliad swydd cyfranogol cyfrifir y symiau canlynol

- (a) swm sy'n hafal i'r symiau a ddiynnir o dan Reol CH2 mewn perthynas â'r flwyddyn honno o gyflog person (o fewn ystyr y Rheol honno), ac eithrio at y diben hwn caiff y rhan honno o'r cyfraniadau o dan Reol CH2(5) sy'n cynrychioli cyfraniad parhaus Comisiwn y Cynulliad ei diystyru; a
- (b) swm sy'n hafal i'r cyfanswm a ddiynnir o dan Reol CH1 o gyflog arferol Aelod cyfranogol mewn perthynas â'r flwyddyn honno;

ac ar gyfer pob cyfryw flwyddyn cyfrifir y swm (y cyfeirir ato yn y Rheolau hyn, mewn perthynas â'r cyfryw flwyddyn, fel "y ffactor cyfraniad" ar gyfer y flwyddyn honno) sy'n hafal i'r swm a gyfrifir o dan is-baragraff (a) wedi'i rannu gan y swm a gyfrifir o dan is-baragraff (b) o'r paragraff hwn.

(3) Ar gyfer pob cyfryw flwyddyn ag y cyfeirir ati ym mharagraff (2) o'r Rheol hon cyfrifir credyd cyfraniad drwy luosi ffracsiwn priodol y cyflog terfynol perthnasol â swm y ffactor cyfraniad ar gyfer y flwyddyn honno; ac, yn amodol ar Reol E1 bydd swm blynyddol y pensiwn sy'n daladwy i'r person o dan Reol DD3 yn swm sy'n hafal i gyfanswm y credydau cyfraniad a gyfrifir o dan y paragraff hwn.

(4) Yn amodol ar Reol DD(4A) yn y Rheol hon ystyr "cyflog terfynol perthnasol"

- (a) os oedd cyfnod gwirioneddol gwasanaeth cyfrifadwy person fel deiliad swydd cyfranogol yn ddeuddeg mis neu fwy, yw swm cyflog arferol yr Aelod ar gyfer y deuddeg mis diwethaf (boed yn barhaus neu'n ysbeidiol) a gynhwysir yn y cyfnod gwirioneddol hwnnw o wasanaeth cyfrifadwy; a
- (b) os oedd cyfnod gwirioneddol gwasanaeth cyfrifadwy person fel deiliad swydd cyfranogol yn llai na deuddeg mis, yw swm a gyfrifir drwy nodi swm cyflog arferol Aelod ar gyfer y cyfnod (yn barhaus neu'n ysbeidiol) a oedd yn cynnwys y cyfnod gwirioneddol hwnnw o wasanaeth cyfrifadwy a'i luosi â'r ffigur priodol;

ac yn is-baragraff (b) o'r paragraff hwn ystyr "y ffigur priodol" yw'r ffigur (p'un ai cyfanrif ai peidio) y mae'n rhaid ei luosi â nifer y dyddiau a gynhwysir yng

nghyfnod gwirioneddol o wasanaeth cyfrifadwy y person fel deiliad swydd cyfranogol er mwyn bod yn hafal i ddeuddeg mis.

(4A) Pan fydd Aelod cyfranogol wedi talu cyfraniadau ychwanegol o dan Reol CH2(5), caiff y "cyflog terfynol perthnasol" ei benderfynu ar ddiwedd y cyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd yn union wedi'r cyfnod interim pan oedd y cyfraniadau ychwanegol yn ddyledus.

(5) Ym mharagraff (3) o'r Rheol hon, ystyr "y ffracsiwn priodol" yw

- (a) yn achos gwasanaeth deiliad swydd cyfranogol yn ystod blwyddyn neu ran o flwyddyn sy'n dod i ben cyn 1af Ebrill 2004, un rhan o bum deg neu ffracsiwn cymesur o un rhan o bum deg;
- (b) yn achos gwasanaeth blwyddyn neu ran o flwyddyn yn y cyfnod rhwng 1af Ebrill 2004 a 31ain Mawrth 2005 deiliad swydd cyfranogol nad yw wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A)(a), un rhan o bum deg neu ffracsiwn cymesur o un rhan o bum deg;
- (c) yn achos gwasanaeth am flwyddyn neu ran o flwyddyn yn y cyfnod rhwng 1af Ebrill 2004 a 31ain Mawrth 2005 deiliad swydd cyfranogol sydd wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A)(a), un rhan o bedwar deg neu ffracsiwn cymesur o un rhan o bedwar deg;
- (ch) yn achos gwasanaeth am flwyddyn neu ran o flwyddyn yn dechrau ar neu wedi 1af Ebrill 2005 deiliad swydd cyfranogol nad yw wedi gweithredu'r opsiwn o dan Reol CH1(3A)(b), un rhan o bedwar deg neu ffracsiwn cymesur o un rhan o bedwar deg.
- (d) yn achos gwasanaeth am flwyddyn neu ran o flwyddyn yn dechrau ar neu wedi 1af Ebrill 2005 deiliad swydd cyfranogol sydd wedi gweithredu'r dewis o dan Reol CH1(3A)(b), un rhan o bum deg neu ffracsiwn cymesur o un rhan o bum deg.

(6) Ym mharagraffau (2) a (3) o'r Rheol hon ystyr "blwyddyn" (ac eithrio yn yr ymadrodd "chwe deg a phum mlwydd oed") yw cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dechrau o 1af Ebrill.

### **Yr uchafswm pensiynau a ganiateir**

DD5. (1) Ni fydd swm blynyddol y pensiwn sy'n daladwy o dan Reol DD1 neu Reol DD3 i berson yn fwy na pha swm bynnag o'r isod sydd leiaf

- (a) y swm sy'n hafal i ddwy ran o dair o'r lluosrif; neu
- (b) y swm sy'n hafal i ddwy ran o dair o'r uchafswm a ganiateir.

(2) Yn achos person y mae ganddo neu ganddi hawl i bensiwn o dan Reol DD1 a Rheol DD3, ni fydd swm y ddau bensiwn gyda'i gilydd yn fwy na dwy ran o dair o'r

uchafswm a ganiateir ac, os byddant, gostyngir y pensiwn sy'n daladwy o dan Reol DD3 cyn y pensiwn sy'n daladwy o dan Reol DD1.

### **Yr isafswm pensiynau gwarantedig**

DD6. (1) Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth yn y Rheolau hyn i'r gwrthwyneb, bydd gan berson y mae ganddo neu ganddi hawl i gael pensiwn o dan Reol DD1 neu Reol DD3 (gan gynnwys pensiwn ymddeol yn gynnar neu bensiwn oherwydd salwch drwy Ran F neu Ran FF)

- (a) yr hawl i gael pensiwn sy'n daladwy am weddill ei oes neu ei hoes, o oedran pensiwn y wladwriaeth, yn amodol ar ddarpariaethau Rheol DD7(3), ar gyfradd sy'n gyfartal â chyfradd wythnosol heb fod yn llai na'r isafswm pensiwn gwarantedig, oni bai fod hawl y person hwnnw iddo wedi'i dileu oherwydd talu premiwm cyfraniadau cyfatebol o dan adran 55 Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993; a
- (b) os gohirir talu isafswm pensiwn gwarantedig y person hwnnw o dan yr amgylchiadau y mae adran 13(4) o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993 yn gymwys iddynt, cynyddir isafswm pensiwn gwarantedig y person hwnnw i'r graddau, os o gwbl, a bennir yn adran 15(1) Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993.

### **Parhad pensiynau**

DD7. (1) Yn amodol ar ddarpariaethau canlynol y Rheol hon, bydd pensiwn o dan Reol DD1 neu Reol DD3 (gan gynnwys pensiwn ar ymddeol yn gynnar neu bensiwn oherwydd salwch drwy Ran F neu Ran FF) yn parhau am fywyd y person y mae'n daladwy iddo.

(2) Caiff unrhyw bensiwn sy'n daladwy i berson o dan Reol DD7(1) ei ostwng i ddim, mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd y person hwnnw yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ar yr amod na fydd y cyfryw ostyngiad yn gymwys mewn perthynas ag Aelod sydd â'r hawl i gael neu sy'n cael pensiwn priod sy'n goroesi, partner neu blentyn o dan ddarpariaethau Rheol NG.

(3) Ni fydd darpariaethau'r Rheol hon yn gymwys at ddibenion cyfrifo'r symiau sy'n daladwy o dan Reolau H2(3), H2(4)(b), H3(2)(b), H4(2) neu H6 (gwarant pum mlynedd).

## **RHAN E**

### **CYMUDO**

#### **Cymudo yn gyfandaliad**

E1. (1) Gall unrhyw berson y mae ganddo hawl i gael pensiwn o dan Ran DD (gan gynnwys pensiwn oherwydd salwch sy'n daladwy drwy Ran FF) neu sy'n gwneud cais i

gael pensiwn o dan Ran E, cyn talu rhandaliad cyntaf y pensiwn, hysbysu'r Ymddiriedolwyr ei fod ef neu ei bod hi'n dymuno cymudo'r cyfryw ran o'r pensiwn yn gyfandaliad fel y nodir yn yr hysbysiad.

(1A) Yn weithredol ar 1af Tachwedd 2006 ac wedi hynny fodd bynnag, dim ond o leiaf chwe mis cyn iddo ef neu iddi hi gyrraedd 75 oed, neu'r cyfryw amser yn ddiweddarach cyn iddo ef neu iddi hi gyrraedd 75 oed ag a ganiateir gan yr Ymddiriedolwyr y gall person roi hysbysiad o dan baragraff (1), a rhaid i'r cyfandaliad sy'n daladwy o ganlyniad i'r hysbysiad gael ei dalu iddo ef neu iddi hi cyn i'r unigolyn hwnnw gyrraedd 75 oed.

Pan fydd y cyfryw gyfandaliad yn dod yn daladwy yn dilyn hysbysiad a ddarperir gan aelod yn union cyn eu pen-blwydd yn 75 oed yn unol â Rheol E1(A) uchod, bydd darpariaethau Rheol DD7(2) yn gymwys, i alluogi pensiwn yr Aelod i gael ei dalu ond i gael ei ostwng i ddim, hyd nes y bydd yr unigolyn yn peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) Lle mae person wedi rhoi hysbysiad o dan y Rheol hon, bydd yr Ymddiriedolwyr yn pennu

- (a) pa gyfandaliad a fyddai'n gyfartal yn actiwaraid â'r rhan o'r pensiwn a nodir yn yr hysbysiad; a
- (b) pa ostyngiad yn swm blynyddol ei bensiwn neu ei phensiwn fyddai'n briodol yn gydnabyddiaeth am dalu'r cyfandaliad hwnnw; ac

yn amodol ar ddarpariaethau canlynol y Rheol hon, telir cyfandaliad o'r swm a bennir yn y modd hwn i'r person hwnnw a gostyngir swm blynyddol ei bensiwn neu ei phensiwn yn unol â hynny.

(3) Bydd unrhyw gyfandaliad neu ostyngiad a bennir o dan baragraff (2) uchod yn swm neu'n ostyngiad naill ai a ardystir gan yr Actiwari a benodir o dan Reol P1, neu a gyfrifir yn unol â thablau a baratoir o dro i dro gan yr Actiwari, fel swm sy'n cyflawni'r amodau a nodir yn is-baragraff (a) neu is-baragraff (b) o'r paragraff hwnnw, yn ôl y digwydd.

(4) Os, yn achos unrhyw berson sydd wedi rhoi hysbysiad o dan y Rheol hon, bydd swm y cyfandaliad a bennir yn unol â pharagraffau (2) a (3) uchod, yn fwy na'r uchafswm y gellir ei gymudo,

- (a) caiff swm y cyfandaliad a bennir yn unol â hynny ei leihau gan y cyfryw gyfran ag sy'n angenrheidiol i'w wneud yn hafal i'r uchafswm y gellir ei gymudo; a
- (b) caiff gostyngiad y swm blynyddol o'i bensiwn neu o'i phensiwn o dan y Rheol honno ei leihau gan yr un gyfran.

(5) At ddibenion paragraff (4) uchod, yr uchafswm y gellir ei gymudo yw'r "uchafswm a ganiateir" sy'n ymwneud â chyfandaliadau cychwyn pensiwn fel y'u diffinnir ac y'u nodir yn Atodlen 29 i'r Ddeddf Cyllid, neu'r cyfryw swm uwch ag a ganiateir yn ôl Atodlen 36 i'r Ddeddf Cyllid, lle mae gan y person fudd diogelwch cyfandaliadau cychwyn pensiwn.

(6) Wrth benderfynu ar swm y cyfandaliad o dan y Rheol hon, lleiheir yr uchafswm y gellir ei gymudo lle y bo angen fel na chaiff swm blynyddol y pensiwn ei ostwng o dan baragraff (4) uchod yn is na chyfradd yr isafswm pensiwn gwarantedig.

(7) Gall unrhyw berson (nad yw'n 75 oed eto) sydd â'r hawl i fudd-daliadau pensiwn yn daladwy o dan Reol DD sy'n mynd y tu hwnt i'r "Lwfans Oes Safonol" (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Cyllid), gael cyfandaliad lwfans oes ychwanegol o'r Cynllun, ar yr amod bod y cyfandaliad yn bodloni'r amodau a nodir ym mharagraff 11 o Atodlen 29 i'r Ddeddf Cyllid.

## **RHAN F**

### **PENSIYNAU YMDDEOL YN GYNNAR A PHENSIYNAU CYNNAR A LEIHEIR**

#### **Ymddeoliad cynnar i Aelodau**

F1. (1) Lle mae person sydd

- (a) wedi peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a
- (b) naill ai'n gyfranogwr yn y Cynllun neu'n bensiynwr gohiriedig yn y Cynllun cyn 6ed Ebrill 2006 sy'n cyrraedd hanner cant oed neu, sy'n dod yn gyfranogwr newydd y cynllun ar neu wedi 6ed Ebrill 2006 ac yn cyrraedd hanner cant a phump oed (oni fydd gan yr unigolyn hwnnw fudd oedran pensiwn wedi ei ddiogelu yn unol â darpariaethau paragraff 22 o Atodlen 36 i'r Ddeddf Cyllid);

yn gwneud cais ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr am bensiwn ar unwaith o dan y Rheol hon yna, os yw'r Ymddiriedolwyr yn fodlon nad yw'n bwriadu sefyll i gael ei ailethol neu ei haillethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd hawl ganddo neu ganddi i gael pensiwn o dan Reol DD1 fel pe bai wedi cyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed ar ddyddiad ei gais neu ei chais, neu, os yw'n hwyrach, y cyfryw ddyddiad arall ag a bennir; ond bydd swm blynyddol y pensiwn y mae gan y person hawl iddo, cyn ac ar ôl iddo neu iddi gyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed, yn swm (yn amodol ar Ran E (Cymudo)) a gyfrifir yn unol â Rheol DD2 ac wedi'i leihau yn unol ag Atodlen 2.

(2) At ddiben y Rheol hon gall gwasanaeth person fel Aelod o Dŷr Cyffredin Senedd y Deyrnas Unedig neu fel Aelod o Senedd y Cymunedau Ewropeaidd gyfrif tuag at ei gyfnod neu ei chyfnod cymwys i'r graddau nad yw'n cydreddeg â gwasanaeth fel Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.



(3) At ddibenion cyfrifo pensiwn ymddeol yn gynnar o dan Reolau F1 ac F2, dim ond y rhan honno o'u gwasanaeth sy'n gyfystyr â gwasanaeth gwirioneddol yn y Cynllun ar ôl 1af Rhagfyr 2006, fel "cyfnod cymwys" o wasanaeth wrth gyfrifo'r ganran leihau berthnasol o dan Atodlen 2 y gall aelodau presennol y Cynllun ar 1af Rhagfyr 2006 ei chyfrif. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd yr holl wasanaeth cyfrifadwy cyn 1af Rhagfyr 2006 yn cyfrif fel gwasanaeth cymwys at ddibenion y cyfrifiadau i'w gwneud o dan Atodlen 2.

(4) At ddibenion Rheolau F1 ac F2, ni all rhywun sy'n ymuno am y tro cyntaf â'r Cynllun ar ôl 1af Ebrill 2007, gael pensiwn ymddeol yn gynnar heb ei leihau o dan ddarpariaethau Atodlen 2; er bod ei oedran ef neu ei hoedran hi ynghyd â'i gyfnod cymwys o wasanaeth neu ei chyfnod cymwys o wasanaeth yn 80 mlynedd neu fwy.

(5) Yn weithredol o 1 Gorffennaf 2010, at ddibenion cyfrifo pensiwn ymddeol yn gynnar o dan Reolau F1 a F2, bydd canran y lleihad perthnasol i'w chymhwyso at y pensiwn ymddeol yn gynnar o dan ddarpariaethau Atodlen 2 yn (cydymffurfio'n llawn â gofynion y ddeddfwriaeth gadw) ac yn cael ei chyfrifo yn unol â'r cyfryw dablau allanol ag a baratoir o bryd i'w gilydd gan yr Actiwari a benodir o dan Reol P1 a'i mabwysiadu a bydd yr Ymddiriedolwyr yn hysbysu aelodau'r Cynllun ohoni. Wrth baratoir cyfryw dablau, mae'n rhaid i'r Actiwari geisio sicrhau niwtraled o ran costau, h.y. yr un fydd cyfanswm y gost debygol i'r Cynllun, dros amser, o dalu pensiynau waeth beth fo oedran yr unigolion pan fydd pensiwn yn dechrau cael ei dalu iddynt.

### **Ymddeoliad cynnar i ddeiliaid swydd a fu'n Aelodau**

F2. Bydd gan berson y mae ganddo hawl i gael pensiwn o dan Reol F1 sydd neu a fu'n ddeiliad swydd cyfranogol (yn amodol ar Ran E (Cymudo)) yr hawl i gael pensiwn hefyd o dan Reol DD3 wedi'i gyfrifo yn unol â Rheol DD4 ac wedi'i leihau yn unol ag Atodlen 2 ac yn daladwy o'r un dyddiad â'r pensiwn sy'n daladwy o dan Reol F1.

## **RHAN FF**

### **PENSIYNAU OHERWYDD SALWCH**

#### **Pensiynau Haen 1 oherwydd salwch sy'n seiliedig ar wasanaeth fel Aelod cyfranogol**

FF1. (1) Gall cyfranogwr sy'n peidio â bod yn Aelod cyfranogol cyn cyrraedd 65 oed oherwydd salwch wneud cais i'r Ymddiriedolwyr am bensiwn cynnar o dan Reol DD1 os, ar yr adeg pan fydd y cyfranogwr yn peidio â bod yn gyfranogwr felly ("yr adeg berthnasol"), y byddai wedi dod yn gymwys i gael pensiwn o dan y Rheol honno oni bai am y ffaith nad yw wedi cyrraedd 65 oed.

(2) Os yw'r Ymddiriedolwyr yn fodlon ar ôl i gais gael ei wneud o dan y Rheol hon fod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni:

- (a) nad yw'r ymgeisydd yn bwriadu ceisio cael ei ailethol neu ei haillethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- (b) bod yr ymgeisydd yn peidio â bod yn Aelod fel y cyfeirir ato ym mharagraff (1) uchod o ganlyniad i'w salwch;

- (c) bod salwch yr ymgeisydd o'r fath ag y byddai'n ei atal neu'n ei hatal rhag cyflawni dyletswyddau Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddigonol,
- (ch) nad yw'r salwch yn atal yr unigolyn rhag gwneud unrhyw waith cyflogedig arall;
- (d) y disgwylir i'r salwch fod yn barhaol a pharhau i atal yr unigolyn rhag cyflawni dyletswyddau Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddigonol; a
- (dd) y cyflwynir tystiolaeth gan feddyg sy'n fodlon bod yr amodau yn is-baragraffau (c) a (d) wedi'u bodloni ar y cyd â'r cais.

bydd gan yr ymgeisydd yr hawl i gael pensiwn "haen 1" oherwydd salwch sy'n daladwy o dan Reol DD1 o'r adeg berthnasol ac sy'n cael ei gyfrifo yn unol â Rheol DD2.

(3) Gall person, y byddai hawl ganddo neu ganddi i wneud cais o dan baragraff (1) uchod pe bai'n peidio â bod yn Aelod fel y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw oherwydd salwch ar adeg benodol yn y dyfodol, wneud y cyfryw gais cyn yr adeg honno, gan nodi ynddo pryd y mae'n bwriadu peidio â bod yn Aelod, a lle mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon ar ôl cael y cyfryw gais y bydd ganddo neu ganddi hawl o dan baragraff (2) i gael pensiwn o dan Reol DD1 o'r adeg honno os bydd yr ymgeisydd yn peidio â bod yn Aelod ar yr adeg a bennir yn y cais, byddant yn hysbysu'r person yn ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw.

(4) Cyfrifir swm blynyddol pensiwn haen 1 oherwydd salwch sy'n daladwy o dan Reol DD1 i berson drwy'r Rheol Ff1 hon (yn amodol ar Ran E (Cymudo)) yn unol â Rheol DD2, gan dybio bod yr ymgeisydd eisoes wedi cyrraedd 65 oed ar y dyddiad y peiodd â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac os felly na fydd unrhyw ostyngiad na lleihad ar gyfer ymddeoliad cynnar yn gymwys. Os bydd cyflog Aelod ar adeg ymddeol fel Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ostwng oherwydd gorchymyn o dan adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu o dan adran 21 (terfyn cyflogau Aelodau o gyrrff cyhoeddus eraill) o'r Ddeddf, yna tybir at ddiben y cyfrifiad hwn y byddai person yn parhau i gael cyflog ar y cyfryw lefel ostyngol yn ystod y cyfnod cyn i'r person gyrraedd 65 oed.

(4A) O dan yr amgylchiadau lle mae Aelod sy'n bensiynwr 65 oed neu drosodd ac sy'n cael pensiwn oherwydd salwch o dan y Cynllun yn ceisio cael ei ailethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bydd yr elfen honno o'i bensiwn neu ei phensiwn a gynyddwyd gynt oherwydd analluogrwydd o dan Reol FF1(4) yn cael ei hanwybyddu wrth benderfynu ar gyfanswm ei gyfnod neu ei chyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol (fel y'i hamlinellir yn Rheolau D1 a D2) at ddibenion cyfrifo ei hawl i gael pensiwn yn unol â Rheol DD2.

(5) At ddibenion y Rheol FF1 hon trinnir person sydd wedi peidio â bod yn Aelod cyfranogol o ganlyniad i etholiad cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel person sydd wedi peidio â bod yn Aelod oherwydd salwch os, ond dim ond os, bydd y person yn bodloni'r Ymddiriedolwyr na cheisiodd gael ei

ailethol neu ei haillethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr etholiad hwnnw o ganlyniad i'w salwch.

(6) Yn y Rheol FF1 hon, ystyr 'gwaith cyflogedig' yw gwaith o dan contract cyflogaeth, gwasanaeth neu brentisiaeth neu fel deiliad swydd (gan gynnwys dal swydd gyhoeddus neu wasanaethu fel Cynghorydd), neu fel person hunangyflogedig sy'n ymgymryd â busnes neu broffesiwn, sef gwaith sut bynnag y mae'r person dan sylw yn ennill ei incwm neu ei hincwm cyfan neu gyfran sylweddol ohono.

(7) Yn y Rheol FF1 hon, ystyr "parhaol" mewn perthynas â sefyllfa neu gyflwr iechyd yw y bydd y sefyllfa neu'r cyflwr yn parhau nes bod yr ymgeisydd yn cyrraedd 65 oed.

## **Pensiynau Haen 2 oherwydd salwch sy'n seiliedig ar wasanaeth fel Aelod cyfranogol**

FF1A. (1) Gall cyfranogwr sy'n peidio â bod yn Aelod cyfranogol cyn cyrraedd 65 oed oherwydd salwch wneud cais i'r Ymddiriedolwyr am bensiwn cynnar o dan Reol DD1 os, ar yr adeg pan fydd y cyfranogwr yn peidio â bod yn gyfranogwr felly ("yr adeg berthnasol"), byddai wedi dod yn gymwys i gael pensiwn o dan y Rheol honno oni bai am y ffaith nad yw wedi cyrraedd 65 oed.

(2) Os yw'r Ymddiriedolwyr yn fodlon pan ddaw cais i law o dan y Rheol hon fod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni:

- (a) nad yw'r ymgeisydd yn bwriadu ceisio cael ei ailethol neu ei haillethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- (b) bod yr ymgeisydd yn peidio â bod yn Aelod fel y cyfeirir ato ym mharagraff (1) uchod o ganlyniad i'w salwch;
- (c) bod y salwch yn atal yr ymgeisydd rhag cyflawni dyletswyddau Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddigonol,
- (ch) bod y salwch yn atal yr ymgeisydd rhag gwneud unrhyw waith cyflogedig arall;
- (d) y disgwylir i'r salwch fod yn barhaol a pharhau i atal yr unigolyn rhag cyflawni dyletswyddau Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddigonol a rhag gwneud unrhyw waith cyflogedig; a
- (dd) y cyflwynir tystiolaeth gan feddyg sy'n fodlon bod yr amodau yn is-baragraffau (c), (ch) a (d) wedi'u bodloni ar y cyd â'r cais.

bydd gan yr ymgeisydd yr hawl i gael pensiwn "haen 2" oherwydd salwch sy'n daladwy o dan Reol DD1 o'r adeg berthnasol ac sy'n cael ei gyfrifo yn unol â Rheol DD2 fel y'i haddaswyd gan Reol FF1A(4) isod.

(3) Gall person, y byddai hawl ganddo neu ganddi i wneud cais o dan y paragraff hwnnw pe bai'n peidio â bod yn Aelod fel y cyfeirir ato ym mharagraff (1) uchod oherwydd salwch ar adeg benodol yn y dyfodol, wneud y cyfryw gais cyn yr adeg honno, gan nodi ynddo pryd y mae'n bwriadu peidio â bod yn Aelod, a lle mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon ar ôl cael y cyfryw gais y

bydd ganddo neu ganddi hawl o dan baragraff (2) i gael pensiwn o dan Reol DD1 o'r adeg honno os bydd yr ymgeisydd yn peidio â bod yn Aelod ar yr adeg a bennir yn y cais, byddant yn hysbysu'r person yn ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw.

(4) Cyfrifir swm blynyddol pensiwn haen 2 oherwydd salwch sy'n daladwy o dan Reol DD1 i berson drwy'r Rheol Ff1 hon (yn amodol ar Ran E (Cymudo)) yn unol â Rheol DD2, ond at ddibenion y cyfrifiad hwnnw cynyddir ei gyfnod neu ei chyfnod gwirioneddol o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol gan gyfnod sy'n gyfartal â'r cyfnod rhwng y dyddiad y bydd yn peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y cyfeirir ato ym mharagraff (1) uchod) a'r dyddiad y bydd yn cyrraedd 65 oed. Os bydd cyflog Aelod ar adeg ymddeol fel Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ostwng oherwydd gorchymyn o dan adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu o dan adran 21 (terfyn cyflogau Aelodau o gyrff cyhoeddus eraill) o'r Ddeddf, yna tybir at ddiben y cyfrifiad hwn y byddai person yn parhau i gael cyflog ar y cyfryw lefel ostyngol yn ystod y cyfnod cyn i'r person gyrraedd 65 oed.

(5) At ddibenion y Rheol FF1A hon trinnir person sydd wedi peidio â bod yn Aelod cyfranogol o ganlyniad i etholiad cyffredin i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel person sydd wedi peidio â bod yn Aelod oherwydd salwch a fyddai'n gymwys i gael pensiwn salwch haen 2 os, ond dim ond os, bydd y person yn bodloni'r Ymddiriedolwyr na cheisiodd gael ei ailethol neu ei haillethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr etholiad cyffredin hwnnw o ganlyniad i'w salwch.

(6) Yn y Rheol FF1A hon, ystyr 'gwaith cyflogedig' yw gwaith o dan gontract cyflogaeth, gwasanaeth neu brentisiaeth neu fel deiliad swydd (gan gynnwys dal swydd gyhoeddus neu wasanaethu fel Cynghorydd), neu fel person hunangyflogedig sy'n ymgymryd â busnes neu broffesiwn, sut bynnag gwaith y mae'r person dan sylw yn cael y cyfan neu ran sylweddol o'i incwm neu ei hincwm ohono.

(7) Yn y Rheol FF1A hon, ystyr "parhaol" mewn perthynas â sefyllfa neu gyflwr iechyd yw y bydd y sefyllfa neu'r cyflwr yn parhau nes bod yr ymgeisydd yn cyrraedd 65 oed.

### **Pensiynau oherwydd salwch sy'n seiliedig ar ddeiliad swydd cyfranogol**

FF2. (1) Gall cyfranogwr sy'n peidio â bod yn ddeiliad swydd cyfranogol cyn cyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed oherwydd salwch wneud cais i'r Ymddiriedolwyr am bensiwn cynnar o dan Reol DD3 os, ar yr adeg pan beidiodd y cyfranogwr â bod yn aelod, byddai wedi dod yn gymwys i gael pensiwn o dan y Rheol honno oni bai am y ffaith nad yw wedi cyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed.

(2) Os yw'r Ymddiriedolwyr yn fodlon ar ôl i gais gael ei wneud o dan baragraff (1) uchod bod y meini prawf perthnasol wedi'u bodloni o dan Reol FF1(2) neu

FF1A(2) fel y bo'n briodol, bydd gan yr ymgeisydd yr hawl i gael pensiwn o dan Reol DD3 o'r adeg berthnasol.

(3) Bydd Rheol FF1(3) a Rheol FF1A(3) fel y bo'n briodol yn gymwys mewn perthynas â pharagraffau (1) a (2) uchod fel y mae'n gymwys i baragraffau (1) a (2) o bob un o'r Rheolau hynny, a darllenir cyfeiriad at bensiwn o dan Reol DD1 at y diben hwn fel cyfeiriad at bensiwn o dan Reol DD3.

(4) Cyfrifir swm blynyddol y pensiwn sy'n daladwy o dan Reol DD3 drwy'r Rheol hon (yn amodol ar Ran E (Cymudo)) yn unol â Rheol DD4.

(5) Bydd Rheol FF1(5) a Rheol FF1A(5) yn gymwys fel y bo'n briodol at ddibenion y Rheol hon.

### **Pensiynau oherwydd salwch i gyn-Aelodau**

FF3. (1) Gall person a ymddeolodd o waith cyflogedig cyn cyrraedd 65 oed oherwydd salwch tra nad oedd yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru nac yn ymgeisydd ar gyfer etholiad iddo, wneud cais i'r Ymddiriedolwyr am bensiwn cynnar o dan Reol DD1 os byddai'r person sy'n ymddeol felly wedi dod yn gymwys i gael pensiwn o dan y Rheol honno ar adeg ymddeol oni bai am y ffaith nad oedd wedi cyrraedd 65 oed.

(2) Os yw'r Ymddiriedolwyr yn fodlon ar ôl cael cais o dan y Rheol hon fod yr amodau canlynol wedi'u bodloni:

- (a) nad yw'r ymgeisydd yn bwriadu ceisio cael ei ethol neu ei hethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- (d) ei fod neu ei bod wedi ymddeol o waith cyflogedig yn barhaol o ganlyniad uniongyrchol i'w salwch;
- (e) bod ei salwch o'r fath ag y byddai'n ei atal neu'n ei hatal rhag cyflawni dyletswyddau Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn barhaol, a
- (ch) y cyflwynir tystiolaeth gan feddyg sy'n fodlon bod amodau (b) ac (c) wedi'u bodloni ar y cyd â'r cais,

bydd gan yr ymgeisydd, o'r dyddiad y bydd yr Ymddiriedolwyr yn fodlon felly, yr hawl i gael pensiwn o dan Reol DD1.

(3) Lle y gwneir cais o dan y Rheol hon, bydd yr Ymddiriedolwyr yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r ymgeisydd a ydynt yn fodlon fel y cyfeirir ato ym mharagraff (2) uchod ac, os ydynt yn fodlon felly, byddant yn nodi'r dyddiad y daw'r pensiwn yn daladwy.

(4) Yn y Rheol FF3 a FF4, ystyr "gwaith cyflogedig" yw gwaith o dan contract cyflogaeth, gwasanaeth neu brentisiaeth neu fel deiliad swydd ( gan gynnwys dal swydd gyhoeddus neu wasanaethu fel Cynghorydd) neu fel person hunangyflogedig sy'n ymgymryd â busnes neu broffesiwn, sef gwaith sut

bynag y mae'r person dan sylw yn ennill ei incwm neu ei hincwm cyfan neu gyfran sylweddol ohono.

(5) Yn Rheolau FF3 a FF4, ystyr "parhaol;" mewn perthynas â sefyllfa neu gyflwr iechyd yw y bydd y sefyllfa neu'r cyflwr yn parhau nes bod yr ymgeisydd yn cyrraedd 65 oed.

### **Pensiynau oherwydd salwch i gyn-ddeiliaid swydd**

FF4. Bydd Rheol FF3 yn gymwys mewn perthynas â pherson a ymddeolodd o waith cyflogedig cyn cyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed oherwydd salwch tra nad oedd yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru nac yn ymgeisydd ar gyfer etholiad iddo, na deiliad swydd, ac sy'n gwneud cais i'r Ymddiriedolwyr am daliad cynnar o'i bensiwn neu ei phensiwn o dan Reol DD3; a lle mae Rheol FF3 yn gymwys i'r cyfryw berson dehonglir unrhyw gyfeiriad at Reol DD1 fel cyfeiriad at Reol DD3.

### **Gofyniad ar gyfer Analluogrwydd ar gyfer galwedigaeth**

FF4(A) Nid oes gan berson yr hawl i gael pensiwn oherwydd salwch drwy ddarpariaethau'r Rheol FF hon, oni fydd y person mewn gwirionedd wedi peidio â chynnal ei alwedigaeth neu ei galwedigaeth.

### **Tystiolaeth feddygol**

FF5. (1) Rhaid i bob cais o dan y Rheol FF hon, gael ei ategu gan dystiolaeth gan ymarferydd meddygol cofrestredig nad yw'r ymgeisydd (ac na fydd yn y dyfodol) yn gallu cynnal galwedigaeth yr ymgeisydd oherwydd nam corfforol neu feddyliol.

(2) Yn achos y cyfryw gais gall yr Ymddiriedolwyr ofyn i'r ymgeisydd gael archwiliad meddygol gan ymarferydd meddygol neu ymarferwyr meddygol a enwebir ganddynt at y diben a gall yr Ymddiriedolwyr ofyn am adroddiadau meddygol neu dystiolaeth arall; telir y ffioedd ar gyfer y cyfryw archwiliad neu adroddiadau gan yr Ymddiriedolwyr neu'r ymgeisydd, yn ôl penderfyniad yr Ymddiriedolwyr.

(3) Wrth ystyried a yw ymgeisydd o dan y Rheol FF hon, (neu bensiynwr oherwydd salwch os yw mewn perthynas â phŵer yr Ymddiriedolwyr i adolygu o dan Reol FF6) yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau neu ei dyletswyddau neu unrhyw waith cyflogedig ai peidio, gall yr Ymddiriedolwyr ystyried barn unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig a enwebwyd ganddynt ynghych effaith bosibl unrhyw driniaeth feddygol y gellir ei rhoi i'r unigolyn.

### **Pŵer ymddiriedolwyr i adolygu pensiynau oherwydd salwch**

FF6. (1) Gall yr Ymddiriedolwyr adolygu hawl unigolyn i gael pensiwn oherwydd salwch a roddir o dan Reol FF ar unrhyw adeg cyn i'r unigolyn gyrraedd 65 oed (gallant gynnal y cyfryw adolygiad yn rheolaidd fel ag a bennir ganddynt).

(2) Gall yr Ymddiriedolwyr ofyn i unigolyn yr adolygir ei hawl i gael pensiwn oherwydd salwch roi tystiolaeth gan feddyg am ei gyflwr neu ei chyflwr iechyd

(3) Gall yr Ymddiriedolwyr yn ôl eu disgrisiwn llwyr ostwng swm pensiwn oherwydd salwch a delir i unigolyn i'r graddau y maent yn ystyried ei bod yn briodol. Gall yr Ymddiriedolwyr hefyd newid neu derfynu'r pensiwn os ydynt yn fodlon ar ôl adolygiad

(i) yn achos pensiwn haen 2 oherwydd salwch sy'n daladwy o dan Reol FF1A, nad yw cyflwr iechyd yr unigolyn yn ei atal mwyach rhag cyflawni dyletswyddau Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn barhaol na gwneud unrhyw waith cyflogedig neu;

(ii) yn achos pensiwn haen 1 oherwydd salwch sy'n daladwy o dan Reol FF1, nad yw cyflwr iechyd yr unigolyn yn ei atal mwyach rhag cyflawni dyletswyddau Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn barhaol;

a phenderfynu:

(a) nad oes gan yr unigolyn hawl mwyach i unrhyw bensiwn oherwydd salwch o dan y Rheol hon, neu

(b) bod gan yr unigolyn hawl i gael pensiwn haen 1 oherwydd salwch yn lle pensiwn haen 2 oherwydd salwch, ond dim ond lle maent yn parhau i fod yn fodlon bod cyflwr iechyd yr unigolyn yn ei atal neu ei hatal rhag cyflawni dyletswyddau Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddigonol.

(4) Lle mae'r Ymddiriedolwyr wedi gostwng neu wedi terfynu pensiwn o dan y Rheol FF6 hon, bydd yr Ymddiriedolwyr (ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â gofynion cadw statudol) yn penderfynu ar lefel y pensiwn sy'n daladwy i'r unigolyn o'r dyddiad y mae'n bodloni'r amodau i ymddeol o dan Reol DD1. Gall yr Ymddiriedolwyr ostwng swm y pensiwn sy'n daladwy o dan Reol DD2, yn y fath fodd ag a argymhellir gan yr Actiwari, er mwyn ystyried unrhyw gyfandaliad a dderbyniwyd gan yr unigolyn o dan Reol E pryd yr ymddeolodd yn wreiddiol oherwydd salwch o dan y Rheol FF1 hon.

(5) Gall yr Ymddiriedolwyr benderfynu nad oes gan unigolyn sy'n gwrthod yn afresymol gael ei archwilio yn unol â Rheol FF5, neu sydd fel arall yn methu â chydweithredu ag adolygiad, hawl mwyach i gael pensiwn oherwydd salwch o'r Cynllun o dan y Rheol FF hon.

(6) Os bydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu o dan y Rheol hon naill ai atal taliadau pensiwn derbynnydd neu, yn ôl y digwydd, ostwng lefel y pensiwn sy'n daladwy, bydd y derbynnydd yn cael mis o rybudd o'u penderfyniad.

(7) Ni fydd yr Ymddiriedolwyr yn atal pensiwn o dan y Rheol hon os yw'r derbynnydd yn 65 oed neu drosodd ar ddyddiad yr adolygiad.

## **RHAN G**

### **GWRAGEDD A GWŶR GWEDDW A PHLANT**

#### **Triniaeth Gyfartal**

G1. Bydd Rheolau G2, 3, 4, 5, 7, 8 a 9 yn gymwys mewn perthynas â gwagedd a gwŷr gweddw ac eithrio cyn belled ag y bônt yn ymwneud â'r isafswm pensiwn gwarantedig ac â phensiynau sy'n daladwy i wragedd gweddw o dan adran 17 Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993 (Rheol G2(5), (6), (7) a (8)).

#### **Pensiynau i Wragedd a Gwŷr Gweddw**

G2. (1) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Rheol hon, bydd gan wragedd a gwŷr gweddw priod a oedd ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth naill ai:

- (a) yn gyfranogwr; neu
- (b) yn bensiynwr; neu
- (c) yn bensiynwr gohiriedig;

yr hawl i gael pensiwn o dan y Rheol hon.

(2) Bydd swm blynyddol y pensiwn sy'n daladwy i wraig neu ŵr gweddw o dan y Rheol hon yn bum rhan o wyth o bensiwn neu bensiynau sylfaenol neu arfaethedig y diweddar briod.

(3) Yn amodol ar baragraffau (4) a (6), bydd pensiwn sy'n daladwy o dan y Rheol hon i ŵr neu wraig weddw yn parhau am ei oes neu ei hoes er gwaethaf ailbriodas;

(4) Yn amodol ar baragraffau (5) a (6), bydd pensiwn sy'n daladwy o dan y Rheol hon i ŵr neu wraig weddw ar neu ar ôl 6ed Ebrill 2006, yn parhau am ei oes neu ei hoes er bod y cyfryw unigolyn yn cyd-fyw â rhywun arall ar ddyddiad marwolaeth ei briod ef neu ei phriod hi

(5) Er gwaethaf unrhyw beth yn y Rheolau hyn ac yn arbennig er gwaethaf darpariaethau paragraffau (3) a (4) uchod

- (a) bydd gan wraig weddw dyn yr oedd ganddo isafswm pensiwn gwarantedig o dan y Rheolau hyn, ar adeg ei farwolaeth, yr hawl i bensiwn am weddill ei hoes ar gyfradd sy'n gyfartal â chyfradd wythnosol heb fod yn llai na hanner isafswm gwarantedig y dyn hwnnw; a
- (b) bydd gan ŵr gweddw gwraig yr oedd ganddi isafswm pensiwn gwarantedig, ar adeg ei marwolaeth, yr hawl i bensiwn am weddill ei oes ar gyfradd sy'n gyfartal â chyfradd heb fod yn llai



na hanner y rhan honno o isafswm pensiwn gwarantedig y wraig y gellir ei phriodoli i ffactorau enillion ar gyfer blwyddyn dreth 1988-89 a blynyddoedd treth ar ôl hynny.

(6) Yn ystod unrhyw gyfnod a bennir yn adran 17 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993 yn gyfnod lle mae pensiwn ymddeol Categori B, lwfans mam weddw neu bensiwn gwraig weddw yn daladwy o dan yr isadran honno, bydd gan wraig weddw person, er gwaethaf darpariaethau paragraffau (3) a (4) uchod, yr hawl i bensiwn o dan baragraffau (1) a (2) uchod.

(7) Os bydd person yn marw o dan amgylchiadau lle, ar wahân i'r paragraff hwn, y byddai pensiwn gwraig neu wŵr gweddw a gyfrifir yn unol â pharagraff (2) yn daladwy i wraig neu wŵr gweddw y mae'r person hwnnw wedi priodi â hi neu ef o fewn y cyfnod o chwe mis sy'n gorffen â'i farwolaeth neu ei marwolaeth ac ymddengys i'r Ymddiriedolwyr fod y person ar ddyddiad y briodas wedi rhagweld ei farwolaeth neu ei marwolaeth, yna

- (a) os nad oes plant o'r briodas honno; a
- (b) os oedd y person wedi priodi â'i briod neu ei phriod ar ôl terfynu ei wasanaeth neu ei gwasanaeth mewn cyflogaeth wedi eithrio y mae pensiwn y wraig neu wŵr gweddw yn daladwy mewn perthynas ag ef; a
- (c) os byddai cyfradd pensiwn y wraig neu'r gŵr gweddw sy'n daladwy yn fwy na'r isafswm pensiwn gwarantedig a gyfrifir yn unol â pharagraff (5)(a) neu (5)(b) fel y bo'n briodol.

gall yr Ymddiriedolwyr gyfarwyddo na fydd unrhyw ran o bensiwn y wraig weddw sy'n mynd y tu hwnt i isafswm pensiwn gwarantedig y wraig weddw yn daladwy.

### **Pensiynau i Blant**

G3. (1) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Rheol hon, bydd pensiwn plant yn daladwy er budd unrhyw blentyn neu blant perthnasol person a fu farw os caiff yr amodau a bennir yn Rheol G2(1) eu cyflawni yn ei achos neu ei hachos ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth.

(2) Bydd swm blynyddol y pensiwn plant sy'n daladwy o dan y Rheol hon er budd unrhyw blentyn neu blant person a fu farw o dan yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn y paragraff blaenorol:

- (a) yn swm sy'n hafal i chwarter pensiwn neu bensiynau sylfaenol neu arfaethedig yr ymadawedig os oes un plentyn, neu os oes mwy nag un plentyn, yn swm sy'n hafal i dair rhan o un ar bymtheg o bensiwn neu bensiynau sylfaenol neu arfaethedig yr ymadawedig ar gyfer pob plentyn perthnasol heb fod yn fwy na dau o blant; neu

- (b) os yw'r wraig neu'r gŵr gweddw yn farw ac yn amodol ar baragraff (4) isod, yn swm sy'n hafal i bum rhan o un ar bymtheg o bensiwn neu bensiynau sylfaenol neu arfaethedig yr ymadawedig ar gyfer pob plentyn perthnasol heb fod yn fwy na dau o blant.

(3) Telir pensiwn plant o dan y Rheol hon i'r cyfryw berson neu bersonau neu dosberthir pensiwn plant o dan y Rheol hon rhwng y cyfryw berson neu bersonau yn ôl cyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr o dro i dro, a bydd y person hwnnw neu'r personau hynny, yn cymhwyso'r pensiwn hwnnw, yn ddiwahân, er budd plentyn neu blant perthnasol yr ymadawedig neu'r nifer ohonynt a gyfarwyddir gan yr Ymddiriedolwyr o dro i dro.

(4) Yn y Rheol hon mae "plentyn" mewn perthynas ag unrhyw berson yn cynnwys plentyn anghyfreithlon, llysblentyn neu blentyn mabwysiedig ac ystyr "plentyn perthnasol" (yn amodol ar ddarpariaethau Atodlen 3) yw unrhyw blentyn yr ymadawedig neu unrhyw blentyn i wraig neu ŵr yr ymadawedig,

- (a) sydd o dan ddwy ar bymtheg mlwydd oed; neu
- (b) nad yw wedi cyrraedd tair ar hugain mlwydd oed ac o fewn cyfnod o addysg amser llawn fel y'i diffinnir yn Atodlen 3; neu
- (c) a oedd ar adeg marwolaeth yr ymadawedig yn llwyr ddibynnol neu'n bennaf dibynnol ar yr ymadawedig ac a oedd bryd hynny ac a fu byth oddi ar hynny naill ai'n berson sy'n dod o dan is-baragraff (a) neu (b) y paragraff hwn neu'n analluog, ac yn debygol o fod yn analluog yn barhaol, oherwydd nam corfforol neu feddyliol yn unol â pharagraff 15(3) o Atodlen 28 o'r Ddeddf Cyllid, o ennill ei fywoliaeth ef neu ei bywoliaeth hi, ac nad yw am y tro yn cael ei gynnal felly o arian a ddarperir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Senedd mewn ysbyty neu sefydliad cyffelyb; neu
- (ch) a oedd eisoes wedi'i genhedlu ond nad oedd wedi'i eni ar adeg marwolaeth yr ymadawedig,

### **Marwolaeth Aelod cyfranogol mewn swydd**

G4. (1) Lle mae person wedi marw ac, ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth, roedd yn Aelod cyfranogol, bydd paragraff (2) isod a Rheol G5 (cyn belled ag y bo'n gymwys) yn gymwys os oes gan y wraig neu'r gŵr gweddw yr hawl i gael pensiwn o dan Reol G2, neu os yw pensiwn plant yn daladwy o dan Reol G3 er budd unrhyw blentyn neu blant perthnasol.

(2) Os yw'r ymadawedig wedi marw cyn cyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed, cyfrifir swm blynyddol unrhyw bensiwn sy'n daladwy i'w wraig weddw neu i'w gŵr gweddw o dan Reol G2, neu er budd unrhyw blentyn neu blant perthnasol yr

yamadawedig o dan Reol G3, fel petai wedi peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn union cyn ei farwolaeth neu ei marwolaeth oherwydd salwch a bod ganddo neu ganddi drwy Reol FF1 yr hawl i gael pensiwn o dan Reol DD1 o'r dyddiad y peidiodd â bod yn Aelod felly.

### **Pensiwn cychwynnol mwy i wragedd a gwŷr gweddw**

G5. (1) Yn y Rheol hon ystyr "y cyfnod o dri mis", mewn perthynas â pherson a fu farw, yw'r cyfnod o dri mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl dyddiad y farwolaeth.

(2) Lle mae gan wraig neu ŵr gweddw person a oedd yn Aelod a oedd bensiynwr neu'n bensiynwraig ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth yr hawl i bensiwn o dan Reol G2, bydd paragraffau (3) a (4) o'r Rheol hon yn gymwys.

(3) Os, am unrhyw ran o'r cyfnod o dri mis, bydd cyfanswm y symiau canlynol, sef

- (a) y swm sy'n daladwy i'r wraig neu'r gwŷr gweddw drwy bensiwn o dan Reol G2 ar wahân i'r paragraff hwn; a
- (b) unrhyw swm (yn ôl cyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr o dan Reol G3(4)) yn daladwy i'r cyfryw wraig neu ŵr gweddw drwy bensiwn o dan Reol G3 er budd unrhyw blentyn neu blant perthnasol yr ymadawedig,

yn llai na'r swm y cyfeirir ato ym mharagraff (4) isod, yna ar gyfer y rhan honno o'r cyfnod hwnnw cynyddir y swm sy'n daladwy i'r cyfryw wraig neu ŵr gweddw drwy bensiwn o dan Reol G2 gan y gwahaniaeth.

(4) Y swm hwn yw'r swm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r ymadawedig fel rhan o'r cyfnod o dri mis dan sylw drwy bensiwn o dan Reol DD1 neu Reol DD3 neu'r ddwy, pe bai'r ymadawedig wedi byw.

(5) Lle mae person wedi marw ac, ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth, roedd yn Aelod cyfranogol, bydd paragraffau (6) a (7) o'r Rheol hon (cyn belled ag y bo'n gymwys) yn gymwys os ganddo ef neu ganddi hi gwraig neu ŵr gweddw yr hawl i bensiwn o dan Reol G2 neu os yw pensiwn plant o dan Reol G3 yn daladwy er budd unrhyw blentyn neu blant perthnasol.

(6) Os yw cyfanswm y symiau canlynol, ar gyfer unrhyw ran o'r cyfnod o dri mis, sef

- a. y swm sy'n daladwy i wraig neu ŵr gweddw yr ymadawedig drwy bensiwn o dan Reol G2 ar wahân i'r paragraff hwn; a
- b. unrhyw swm sy'n daladwy (yn ôl cyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr o dan Reol G3(4)) i wraig neu ŵr gweddw yr ymadawedig drwy bensiwn o dan Reol G3 er budd unrhyw blentyn neu blant perthnasol yr ymadawedig,

yn llai na'r swm y cyfeirir ato ym mharagraff (7) isod, yna ar gyfer y rhan honno o'r cyfnod hwnnw cynyddir y swm sy'n daladwy i'r cyfryw wraig neu ŵr gweddw drwy bensiwn o dan Reol G2 gan y gwahaniaeth.

(7) Y swm hwn yw'r swm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r ymadawedig ar gyfer y rhan o'r cyfnod o dri mis dan sylw

- (a) pe bai'r ymadawedig wedi byw a phe bai wedi dod yn gymwys i gael pensiwn o dan Rheol DD1 ar yr adeg berthnasol; a
- (b) yn weithredol o 1af Ebrill 2007, pe bai swm blynyddol y pensiwn hwnnw wedi bod yn swm sy'n hafal i gyflog arferol yr Aelod ar y gyfradd a oedd mewn grym ar yr adeg berthnasol; ond lle y cafodd cyflog yr aelod ei leihau oherwydd gorchymyn o dan adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu o dan adran 21 (terfyn cyflogau Aelodau cyrff cyhoeddus eraill) o'r Ddeddf, ystyr "cyflog" fydd lefel ostyngol y cyflog cyffredin a dalwyd i'r Aelod ar ddyddiad ei farwolaeth ef neu ei marwolaeth hi.

Yn y paragraff hwn ystyr "yr adeg berthnasol" yw'r dyddiad pan fu farw'r ymadawedig.

(8) Mae darpariaethau blaenorol y Rheol hon heb ragfarn i baragraffau (3), (4) a (7) Rheol G2 (parhad pensiwn gwraig neu ŵr gweddw, a chyfyngiadau ar daliad).

### **Ystyr "pensiwn neu bensiynau sylfaenol neu arfaethedig"**

G6. Yn y Rheolau hyn ystyr "pensiwn neu bensiynau sylfaenol neu arfaethedig"

- (a) mewn perthynas â pherson a fu farw ac a oedd yn gyfranogwr ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth, yw swm blynyddol y pensiwn neu bensiynau a bennir ym mha baragraffau canlynol bynnag sy'n gymwys i'r person hwnnw:
  - (i) lle roedd neu lle bu'r ymadawedig yn Aelod cyfranogol, swm blynyddol y pensiwn a gyfrifir yn unol â Rheol DD2, neu, os oedd wedi marw tra'n Aelod cyfranogol cyn cyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed, swm blynyddol y pensiwn a gyfrifir o dan Reol DD4; a
  - (ii) lle roedd neu lle bu'r ymadawedig yn ddeiliad swydd cyfranogol, swm blynyddol y pensiwn, a gyfrifir yn ôl Rheol DD4, y byddai gan y cyfryw ddeiliad swydd ymadawedig hawl iddo o dan Reol DD3, os oedd wedi cyflawni'r amodau a bennir yn is-baragraffau (a) a (b) Rheol DD1 yn union cyn ei farwolaeth neu ei marwolaeth; a

- (b) mewn perthynas â pherson a fu farw ac a oedd yn bensiynwr ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth, yw swm blynyddol y pensiwn neu bensiynau yr oedd yn ei gael neu yn eu cael neu yr oedd ganddo neu ganddi yr hawl i'w gael neu i'w cael a gyfrifir yn unol â Rhan DD, gan gynnwys pensiwn oherwydd salwch a gyfrifir yn unol â Rhan FF; ar yr amod na fydd swm blynyddol y pensiwn neu'r pensiynau at ddibenion y Rheol hon yn cael ei ostwng neu ei leihau felly lle roedd y swm blynyddol yr oedd yn ei gael o ganlyniad i un neu fwy o achosion o ostwng neu leihau'r pensiwn o dan Reol E1 (cymudo) neu F1 a F2 (ymddeol yn gynnar).
- (c) mewn perthynas â pherson a fu farw ac a oedd yn bensiynwr gohiriedig ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth, yw swm blynyddol y pensiwn neu'r pensiynau a bennir ym mha is-baragraffau canlynol bynnag a fo'n gymwys i'r person hwnnw
  - (i) lle'r oedd yr ymadawedig yn gyn-Aelod cyfranogol, swm blynyddol y pensiwn, a gyfrifir yn unol â Rheol DD2, y byddai ganddo neu ganddi hawl i'w gael o dan Reol DD1 os oedd wedi peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn union cyn iddo neu iddi farw ac os oedd wedyn wedi bodloni'r amodau a bennir yn is-baragraffau (a) a (b) Rheol DD1;
  - (ii) lle roedd yr ymadawedig yn ddeiliad swydd cyfranogol; swm blynyddol y pensiwn, a gyfrifir yn unol â Rheol DD2, y byddai ganddo neu ganddi hawl i'w gael o dan Reol DD1 os oedd wedi cyflawni'r amodau a bennir yn is-baragraffau (a) a (b) Rheol DD1 yn union cyn iddo neu iddi farw.

### **Pensiynau i Bartneriaid**

G7 (1) Os bydd aelod yn marw ar 1<sup>af</sup> Tachwedd 2002 neu ar ôl hynny a oedd ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth naill ai:

- (a) yn gyfranogwr; neu
- (b) yn bensiynwr; neu
- (c) yn bensiynwr gohiriedig;

nad yw pensiwn gwraig neu ŵr gweddw yn daladwy mewn perthynas ag ef neu hi o dan ddarpariaethau blaenorol Adran G, bydd pensiwn yn daladwy i'w Bartner neu i'w Phartner sy'n hafal i'r swm sy'n daladwy i wraig neu ŵr gweddw fel arall o dan ddarpariaethau Rheol G2.

(2) Ym mharagraff (1) uchod ac yn Rheol G8(1) a Rheol G9 ystyr "Partner" yw person sy'n wryw neu'n fenyw a oedd

- (a) yn cyd-fyw â'r aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod ac a oedd wedi bod yn cyd-fyw â'r aelod am gyfnod o 12 mis o leiaf yn union cyn marwolaeth yr aelod, a
- (b) wedi'i enwebu'n ysgrifenedig gan yr aelod hwnnw o leiaf chwe mis cyn marwolaeth yr aelod fel y person y dymunodd yr aelod i bensiwn Partner gael ei dalu iddo neu iddi o dan y Rheol G7 hon, a
- (c) a oedd ym marn yr Ymddiriedolwyr naill ai'n ddibynnol yn ariannol ar yr aelod hwnnw neu'n gyd-ddibynnol yn ariannol â'r aelod hwnnw ac sydd

wedi rhoi tystiolaeth o fodolaeth y ddibyniaeth ariannol honno neu'r gyd-ddibyniaeth ariannol honno a oedd yn bodoli am o leiaf cyfnod o ddeuddeg mis cyn marwolaeth yr aelod.

(3) Bydd darpariaethau Rheolau H2 a H4 yn gymwys os telir pensiwn o dan Reol G7 (yn cynnwys pensiwn sy'n daladwy i bartner sifil) oni fydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu fel arall.

(4) Ni fydd darpariaethau Rheolau M3 a M5 yn gymwys os telir pensiwn o dan y Rheol G7 hon (ac eithrio pan delir y pensiwn i bartner sifil ac os felly bydd yn gymwys) oni fydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu fel arall.

(5) O'u newid yn briodol ar gyfer manylion, bydd darpariaethau Rheol G2(3) a Rheol G2(4) yn gymwys i bensiwn Partner (yn cynnwys pensiwn partner sifil) sy'n daladwy o dan y Rheol G7 hon.

(6) Ni fydd darpariaethau Rheolau G4 a G5 yn gymwys i bensiwn Partner sy'n daladwy o dan y Rheol G7 hon (ac eithrio pan delir y pensiwn i bartner sifil ac os felly bydd yn gymwys) oni fydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu fel arall.

### **Pensiynau Dibynnyddion**

G8 (1) O dan amgylchiadau lle na fydd pensiwn gwraig neu ŵr gweddw neu bensiwn Partner yn daladwy ar adeg marwolaeth person sy'n dod o dan y categorïau a bennir yn Rheol G2(1) neu Reol G7(1), gall yr Ymddiriedolwyr, yn ôl eu disgresiwn llwyr, dalu'r holl bensiwn neu ran ohono sydd fel arall yn daladwy i wraig weddw, gŵr gweddw neu Bartner i Ddibynnydd arall ar y cyfryw delerau ac am y cyfryw gyfnod ag a bennir gan yr Ymddiriedolwyr.

(2) Ym mharagraff (1) uchod ac yn Rheol G9 ystyr cyfeiriadau at "Dibynnydd" yw person a fu'n ddibynnol yn ariannol ar yr aelod ac a ddylai yn briodol gael budd-dal o dan y Cynllun ym marn yr Ymddiriedolwyr yn achos marwolaeth aelod p'un a oedd

yr aelod wedi hysbysu'r Ymddiriedolwyr y dymunai i'r person hwnnw gael ei ystyried fel person sy'n cael y cyfryw fudd-daliadau ai peidio.

(3) O'u newid yn briodol ar gyfer manylion, bydd darpariaethau paragraffau (3) a (4) o Reol G2, yn gymwys yn yr un modd i bensiwn Dibynnydd sy'n cael ei dalu o dan y Rheol G8 hon.

(4) Bydd darpariaethau Rheolau H2 yn gymwys os telir pensiwn o dan y Rheol G8 hon oni fydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu fel arall.

(5) Ni fydd darpariaethau Rheolau H3 a H5 yn gymwys i bensiwn a delir o dan y Rheol G8 hon oni fydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu fel arall.

(6) Ni fydd darpariaethau Rheolau G4 a G5 yn gymwys i bensiwn a delir o dan y Rheol G8 hon oni fydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu fel arall.

### **Pensiynau Dibynnyddion ar adeg marwolaeth aelod sy'n gadael gwraig neu ŵr gweddw a Phartner sy'n goroesi.**

G9 (1) Lle bydd person yn marw o dan amgylchiadau lle byddai, ar wahân i'r paragraff hwn, pensiwn gwraig neu ŵr gweddw a gyfrifir yn unol â Rheol G2 yn daladwy ond bod gan y person hwnnw hefyd Bartner sy'n fyw cyfyngir y pensiwn sy'n daladwy i wraig neu ŵr gweddw y person hwnnw i'r symiau sy'n daladwy o dan Reol G2(5) a (6) a thelir y swm sy'n weddill i Bartner y person hwnnw.

(2) Bydd darpariaethau Rheolau H2 yn gymwys os telir pensiwn o dan y Rheol hon oni fydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu fel arall.

(3) O'u newid yn briodol ar gyfer manylion, bydd darpariaethau paragraffau (3) a (4) a pharagraffau (5) a (6) o Reol G2, yn gymwys yn yr un modd i bensiwn gwraig neu ŵr gweddw neu Bartner sy'n daladwy o dan y Rheol G9 hon.

(4) Ni fydd darpariaethau Rheolau G4 a G5 yn gymwys i bensiwn a delir o dan y Rheol G9 hon oni fydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu fel arall.

## **RHAN NG**

### **ARIAN RHODD AR ADEG MARWOLAETH**

#### **Arian rhodd ar adeg marwolaeth mewn swydd**

NG1. (1) Lle mae person wedi marw ar adeg pan oedd yn gyfranogwr gall yr Ymddiriedolwyr, os gwelant yn dda i wneud hynny yn ôl eu disgrisiwn, roi arian rhodd o dan y Rheol hon mewn perthynas â'r person hwnnw.

(2) Rhoddir arian rhodd a roddir o dan y Rheol hon mewn perthynas â chyfranogwr

- a) i'r person neu i'r personau a enwebir mewn unrhyw enwebiad a wnaed gan y cyfranogwr at ddibenion y Rheol hon a oedd mewn grym ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth; neu
- b) os nad oedd y cyfryw enwebiad mewn grym ar yr adeg honno neu, yn unol â pharagraff (4) isod, i'r graddau ag y trinnir enwebiad fel enwebiad nad yw mewn grym, i gynrychiolwyr personol y cyfranogwr.

(2A) Ni roddir arian rhodd ar farwolaeth mewn swydd i gyfranogwr o dan Reol NG1(2) uchod, os yw'r person ymadawedig wedi cyrraedd 75 oed ar ddyddiad y farwolaeth.

(3) Lle mae cyfranogwr yn enwebu mwy nag un person at ddibenion y Rheol hon gall bennu hefyd gyfran yr arian rhodd i'w rhoi i bob cyfryw berson.

(4) Bydd yr Ymddiriedolwyr yn trin enwebiad a wnaed at ddibenion yr adran hon gan unrhyw gyfranogwr fel enwebiad nad yw mewn grym ar adeg marwolaeth y cyfranogwr i'r graddau

- (a) ag yr oedd unrhyw berson a enwebwyd yn briod â'r cyfranogwr pan wnaed yr enwebiad ond sydd wedi peidio â bod yn briod â'r cyfranogwr wedi hynny; neu
- (b) ag y maent o'r farn nad yw talu arian rhodd i unrhyw berson a enwebir yn ymarferol resymol o dan yr holl amgylchiadau.

(5) Mae'n rhaid gwneud enwebiad at ddibenion y Rheol hon, a gellir ei ddiddymu, drwy hysbysu'r Ymddiriedolwyr yn ysgrifenedig; ac mae'n rhaid i'r cyfryw hysbysiad fod ar y cyfryw ffurf ag sy'n ofynnol gan yr Ymddiriedolwyr.

(6) Yn amodol ar baragraff (7) isod, swm yr arian rhodd a roddir o dan y Rheol hon mewn perthynas â chyfranogwr fydd pa swm bynnag o'r ddau swm canlynol sydd fwyaf

- (a) y swm sy'n hafal i dair gwaith cyflog y cyfranogwr ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth os bu farw cyn 1<sup>af</sup> Tachwedd 2002; neu swm sy'n hafal i bedair gwaith cyflog y cyfranogwr ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth os bu farw ar 1<sup>af</sup> Tachwedd 2002 neu ar ôl hynny; neu
- (b) cyfanswm y cyfraniadau a dalwyd gan y cyfranogwr hwnnw, ac nas ad-dalwyd iddo neu iddi, ynghyd â llog ar bob cyfryw gyfraniad o'r dyddiad y'i talwyd.

(6A) Pennir unrhyw arian rhodd sy'n daladwy ar adeg marwolaeth mewn swydd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2010 o dan y Rheol NG(6) hon, fel lluosydd y cyflog gwirioneddol yr oedd y cyfranogwr yn ei gael yn union cyn ei farwolaeth neu ei marwolaeth, yn hytrach na thrwy gyfeirio at gyflog llawn y cyfranogwr y mae ganddo neu ganddi hawl iddo o dan reolau'r Cynllun.



(7) Bydd swm yr arian rhodd ym mharagraff (6) uchod yn ddarostyngedig i uchafswm o bedair gwaith yr uchafswm a ganiateir.

(8) Ym mharagraff (6) uchod ystyr "cyflog"

- (a) Lle mae'r cyfranogwr yn Aelod cyfranogol, yw cyflog arferol Aelod ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth, ond lle y gostyngwyd cyflog yr Aelod drwy orchymyn o dan adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu o dan adran 21 (terfyn cyflogau Aelodau o gyrff cyhoeddus eraill) o'r Ddeddf ystyr "cyflog" fydd y swm gostyngol hwnnw sy'n daladwy ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth;
- (b) Lle mae'r cyfranogwr yn ddeiliad swydd cyfranogol, yw ei gyflog neu ei chyflog fel deiliad swydd ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth fel y'i diffinnir gan Reol CH2(2);

a, lle mae'r cyfranogwr yn Aelod cyfranogol ac yn ddeiliad swydd cyfranogol, cyfanswm y ddau swm hynny.

### **Arian rhodd yn achos marwolaeth ar ôl ymddeol**

NG2. (1) Lle mae pensiywr yn marw ac nad oes pensiwn yn daladwy o dan Reol G2, Reol G3 neu Reol G7 mewn perthynas ag ef neu hi, gall yr Ymddiriedolwyr, os gwelant yn dda i wneud hynny yn ôl eu disgrisiwn, ond yn amodol ar baragraff (2) isod, roi arian rhodd i'w gynrychiolwyr personol neu i'w chynrychiolwyr personol o dan y Rheol hon.

(2) Ni fydd yr Ymddiriedolwyr yn rhoi arian rhodd o dan y Rheol hon mewn perthynas â pherson os bydd swm y cyfryw arian rhodd yn llai na swm y cyfryw gyfandaliad sy'n daladwy o dan Reol H4(2) neu Reol H6.

(3) At ddibenion penderfynu ar swm yr arian rhodd y gellir ei roi mewn perthynas â phensiywr o dan y Rheol hon, cyfrifir

- (a) swm yr arian rhodd y gallai'r Ymddiriedolwyr fod wedi'i roi i gynrychiolwyr personol y pensiywr o dan Reol NG1 uchod pe bai'r pensiywr wedi marw ar adeg pan oedd yn gyfranogwr; a
- (b) cyfanswm y taliadau a wnaed gan y pensiywr drwy bensiwn o dan Ran DD, Rhan F neu Ran FF ynghyd ag unrhyw gyfandaliad a dalwyd i'r pensiywr o dan Reol E1;

a swm yr arian rhodd fydd y swm (os o gwbl) y mae'r swm a gyfrifir o dan is-baragraff (a) yn mynd y tu hwnt i'r swm a gyfrifir o dan is-baragraff (b) o'r paragraff hwn.

## **RHAN H**

### **GWARANT PUM MLYNEDD**

## **Hawl**

H1. (1) Bydd Rheolau H2, H3, H4 a H5 yn gymwys mewn perthynas ag Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr.

## **Taliadau Gwarant a'r Ddeddf Cyllid**

H1A Bydd pob cyfandaliad gwarant a wneir mewn perthynas ag Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr neu ddeiliad swydd ymadawedig a oedd yn bensiynwr o dan Reolau H2-H7, yn daladwy fel Budd-dal Diffiniedig Budd-dal ar adeg Marwolaeth mewn Cyfandaliad, lle nad yw'r ymadawedig wedi cyrraedd 75 oed ar ddyddiad ei farwolaeth ef neu ei marwolaeth hi a bodlonwyd holl amodau paragraff 13 o Atodlen 29 i'r Ddeddf Cyllid; onid oedd yr ymadawedig eisoes yn cael pensiwn (gyda gwarant pum mlynedd) ar 6 Ebrill 2006.

Ni all unrhyw gyfandaliad gwarant fod yn daladwy lle roedd yr ymadawedig wedi cyrraedd 75 oed ar ei farwolaeth ef neu ei marwolaeth hi ar neu ar ôl 6 Ebrill 2006. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd darpariaethau'r Rheol H hon yn galluogi'r person sy'n goroesi'r ymadawedig i gael pensiwn yn lle unrhyw gyfandaliad.

(2) Bydd Rheol H6 yn gymwys mewn perthynas â deiliad swydd ymadawedig a oedd yn bensiynwr.

## **Gwarantau i wragedd a gŵr gweddw**

H2. (1) Lle mae Aelod sy'n bensiynwr yn marw yn ystod cyfnod pum mlynedd yr Aelod sy'n bensiynwr ac mae gwraig neu ŵr gweddw yn goroesi, bydd paragraffau (2) i (6) o'r Rheol hon yn gymwys.

(2) Os bydd cyfanswm y symiau canlynol, am unrhyw ran o gyfnod pum mlynedd yr Aelod sy'n bensiynwr, sef

- (a) y swm sy'n daladwy i'r wraig neu'r gŵr gweddw drwy bensiwn o dan Reol G2 ar wahân i'r paragraff hwn (gan gynnwys unrhyw bensiwn mwy sy'n daladwy o dan Reol G5); a
- (b) unrhyw swm sy'n daladwy (yn ôl cyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr o dan Reol G3(3)) drwy bensiwn o dan Reol G3 er budd unrhyw blentyn neu blant perthnasol yr Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr,

yn llai na'r swm y cyfeirir ato ym mharagraff (3) o'r Rheol hon, yna ar gyfer y rhan honno o'r cyfnod hwnnw bydd y gwahaniaeth yn daladwy i'r wraig neu'r gŵr gweddw.

(3) Y swm hwn yw'r swm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr pe bai wedi byw ar gyfer y rhan o gyfnod pum mlynedd yr Aelod ymadawedig dan sylw a oedd yn bensiynwr drwy bensiwn o dan Reol DD1 (gan

gynnwys pensiwn ymddeol yn gynnar neu bensiwn oherwydd salwch o dan Reol F1, FF1 neu FF3).

(4) Os yw gwraig neu ŵr gweddw yr Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr yn marw yn ystod cyfnod pum mlynedd yr Aelod sy'n bensiynwr, telir cyfandaliad i gynrychiolwyr personol y wraig neu'r gŵr gweddw a gyfrifir drwy ddiwynnu'r swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) isod o'r swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) isod

- (a) cyfanswm unrhyw bensiynau a fyddai wedi bod yn daladwy (yn ôl cyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr o dan Reol G3(3)) o dan Reol G3 er budd unrhyw blentyn neu blant perthnasol yr Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr os oedd y swm blynyddol sy'n daladwy o dan Reol G3(2) (ar ôl marwolaeth gwraig neu ŵr gweddw yr Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr) mewn perthynas â phob plentyn perthnasol wedi parhau yn ystod y cyfnod sy'n dod i ben ar ddyddiad diwedd pensiwn arfaethedig plant Aelod sy'n bensiynwr ar gyfer y plentyn hwnnw;
- (b) y swm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr pe bai swm blynyddol y pensiwn yr oedd gan yr Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr hawl iddo o dan Reol DD1 (gan gynnwys pensiwn ymddeol yn gynnar neu bensiwn oherwydd salwch o dan Reol F1, FF1 neu FF3) wedi'i dalu iddo neu iddi yn ystod gweddill cyfnod pum mlynedd yr Aelod sy'n bensiynwr.

(5) Yn y Rhan hon, ystyr "cyfnod pum mlynedd yr Aelod a oedd yn bensiynwr" yw'r cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y daeth yr Aelod sy'n bensiynwr yn gymwys i gael pensiwn neu bensiynau o dan Reol DD1 (gan gynnwys pensiwn ymddeol yn gynnar neu bensiwn oherwydd salwch sy'n daladwy o dan Reol F1, FF1 neu FF3).

(6) Yn y Rhan hon, ystyr "dyddiad diwedd pensiwn arfaethedig plant Aelod sy'n bensiynwr", mewn perthynas ag unrhyw blentyn perthnasol Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr yw'r dyddiad cynharaf o'r canlynol,

- (a) (i) y diwrnod cyn y dyddiad y bydd y plentyn yn ddwy ar bymtheg oed; neu  
(ii) os yw'r plentyn o fewn ei gyfnod neu ei chyfnod o addysg amser llawn fel y'i diffinnir yn Atodlen 3, y cyfryw ddyddiad hwyrach ag a bennir gan yr Ymddiriedolwyr sydd heb fod yn hwyrach na'r diwrnod cyn y diwrnod y bydd plentyn yn cyrraedd tair ar hugain oed; a
- (b) diwedd cyfnod pum mlynedd yr Aelod sy'n bensiynwr.

### **Gwarantau lle mae plant ond dim priod yn goroesi**

H3. (1) Lle mae Aelod sy'n bensiynwr yn marw yn ystod cyfnod pum mlynedd Aelod sy'n bensiynwr ac mae plentyn neu blant perthnasol, ond dim priod, yn goroesi, bydd paragraff (2) o'r Rheol hon yn gymwys.

(2) Telir cyfandaliad i gynrychiolwyr personol yr Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr a gyfrifir drwy ddiwynnu'r swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) isod o'r swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) isod

- (a) cyfanswm unrhyw bensiynau sy'n daladwy o dan Reol G3 (yn ôl cyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr o dan Reol G3(3)) er budd unrhyw blentyn neu blant perthnasol yr Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr, pe bai'r swm blynyddol sy'n daladwy o dan Reol G3(2)) (ar ôl marwolaeth yr Aelod sy'n bensiynwr) mewn perthynas â phob plentyn perthnasol yn parhau yn ystod y cyfnod sy'n dod i ben ar ddyddiad diwedd pensiwn arfaethedig plant Aelod sy'n bensiynwr ar gyfer y plentyn hwnnw;
- (b) y swm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr pe bai swm blynyddol y pensiwn yr oedd ganddo neu ganddi hawl iddo o dan Reol DD1 (gan gynnwys pensiwn ymddeol yn gynnar neu bensiwn oherwydd salwch sy'n daladwy o dan Reol F1, FF1 neu FF3) wedi bod yn daladwy iddo neu iddi yn ystod gweddill cyfnod pum mlynedd yr Aelod sy'n bensiynwr.

### **Gwarantau lle nad oes goroeswyr**

H4. (1) Lle mae Aelod sy'n bensiynwr yn marw o fewn cyfnod pum mlynedd yr Aelod sy'n bensiynwr ac nad oes priod na phlentyn neu blant perthnasol yn goroesi, bydd paragraff (2) o'r Rheol hon yn gymwys.

(2) Telir cyfandaliad i gynrychiolwyr personol yr Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr a gyfrifir fel pe bai swm blynyddol y pensiwn yr oedd ganddo neu ganddi hawl iddo o dan Reol DD1 (gan gynnwys pensiwn ymddeol yn gynnar neu bensiwn oherwydd salwch sy'n daladwy o dan Reol F1, FF1 neu FF3) wedi'i dalu iddo neu iddi yn ystod gweddill cyfnod pum mlynedd yr Aelod sy'n bensiynwr.

(3) Ni fydd y Rheol hon yn gymwys os rhoddir arian rhodd o dan Reol NG2.

### **Terfynu cyfnod addysg amser llawn plentyn yn gynnar**

H5. Os

- (a) talwyd swm i gynrychiolwyr personol gwraig neu ŵr gweddwr yr Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr o dan Reol H2(4) neu i gynrychiolwyr personol Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr o dan Reol H3(2); a

- (b) daeth cyfnod addysg amser llawn unrhyw blentyn perthnasol Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr i ben ar ddyddiad sy'n gynharach na dyddiad diwedd pensiwn arfaethedig plant Aelod sy'n bensiynwr ar gyfer y plentyn hwnnw a ddefnyddir wrth gyfrifo'r swm hwnnw;

gall yr Ymddiriedolwyr dalu swm ychwanegol i'r cynrychiolwyr personol a gyfrifir drwy ddidynnu'r swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (ii) isod o'r swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (i) isod

- (i) cyfanswm unrhyw bensiynau a fyddai wedi bod yn daladwy er budd y plentyn hwnnw os oedd y taliadau wedi parhau hyd ddyddiad diwedd pensiwn arfaethedig plant Aelod sy'n bensiynwr;
- (ii) cyfanswm y pensiynau a dalwyd er eu budd.

### **Deiliaid swydd ymadawedig a oedd yn bensiynwyr**

H6. (1) Bydd Rheolau H2, H3, H4, a H5 yn gymwys mewn perthynas â deiliad swydd ymadawedig a oedd yn bensiynwr a'i wraig weddw neu'i gŵr gweddw ac unrhyw blentyn neu blant perthnasol fel y bônt yn gymwys mewn perthynas ag Aelod ymadawedig a oedd yn bensiynwr a'i wraig weddw neu'i gŵr gweddw a phlentyn neu blant perthnasol ond lle mae'r Rheolau hynny yn gymwys mewn perthynas â deiliad swydd ymadawedig a oedd yn bensiynwr

- (a) dehonglir unrhyw gyfeiriad at "Aelod sy'n bensiynwr" fel cyfeiriad at "deiliad swydd sy'n bensiynwr"; a
- (b) dehonglir unrhyw gyfeiriad at "ddyddiad diwedd pensiwn arfaethedig plant Aelod sy'n bensiynwr" fel cyfeiriad at "dyddiad diwedd pensiwn arfaethedig plant deiliad swydd sy'n bensiynwr"; a
- (c) dehonglir unrhyw gyfeiriad at "cyfnod pum mlynedd yr Aelod sy'n bensiynwr" fel cyfeiriad at "cyfnod pum mlynedd y deiliad swydd sy'n bensiynwr"; a
- (ch) dehonglir unrhyw gyfeiriad at Reol DD1 fel cyfeiriad at Reol DD3; a
- (d) dehonglir unrhyw gyfeiriad at Reol F1 fel cyfeiriad at Reol F2; a
- (dd) dehonglir unrhyw gyfeiriad at Reol FF1 fel cyfeiriad at Reol FF2; a
- (e) dehonglir unrhyw gyfeiriad at Reol FF3 fel cyfeiriad at Reol FF4.

(2) Yn y Rhan hon

ystyr “dyddiad diwedd pensiwn arfaethedig plant deiliad swydd sy’n bensiwnwr”, mewn perthynas ag unrhyw blentyn perthnasol y deiliad swydd ymadawedig a oedd yn bensiwnwr”, yw’r dyddiad cynharaf o’r canlynol

(a)

(i) y diwrnod cyn y diwrnod y bydd y plentyn yn ddwy ar bymtheg oed; neu

(ii) os yw’r plentyn o fewn ei gyfnod neu ei chyfnod o addysg amser llawn fel y’i diffinnir yn Atodlen 3, y cyfryw ddyddiad hwyrach a bennir gan yr Ymddiriedolwyr sydd heb fod yn hwyrach na’r diwrnod cyn y diwrnod y bydd plentyn yn ddwy ar hugain oed;

a

(b) diwedd cyfnod pum mlynedd y deiliad swydd sy’n bensiwnwr;

ystyr “cyfnod pum mlynedd y deiliad swydd sy’n bensiwnwr” yw’r cyfnod o bum mlynedd sy’n dechrau ar y diwrnod y daeth yn gymwys i gael pensiwn o dan Reol DD3 (gan gynnwys pensiwn ymddeol yn gynnar neu pensiwn oherwydd salwch sy’n daladwy o dan Rheol F2, FF2 neu FF4).

## **RHAN L**

### **AD-DALIADAU**

Caiff rheol L ei gweinyddu yn unol â gofynion y Ddeddf Cyllid drwy gyfeirio at gyfranogwyr sydd â’r hawl i gyfandaliadau ad-dalu gwasanaeth byr ar neu ar ôl 6 Ebrill 2006. Didynnir treth ar gyfandaliadau ad-dalu gwasanaeth byr yn unol â Rheol R3.

#### **Ad-daliad i gyfranogwr**

L1. (1) Yn amodol ar baragraffau (3) a (5) isod bydd yr Ymddiriedolwyr yn ad-dalu cyfraniadau a dalwyd gan berson a nas ad-dalwyd iddo neu iddi yn flaenorol, iddo neu iddi, ynghyd â llog o’r dyddiadau y talwyd y cyfraniadau yn y drefn honno, os cyflawnir yr amodau a bennir yn y paragraffau canlynol.

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) o’r Rheol hon yw

(a) bod y person wedi peidio â bod yn gyfranogwr;

(b) bod cyfanswm ei gyfnod neu ei chyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol yn llai na dwy flynedd; a

(c) nad yw wedi dod yn gymwys i gael pensiwn o dan y Rheolau hyn.

(3) Os, ar ôl i gyfraniadau gael eu had-dalu o dan y Rheol hon, daw'r person yn gymwys i dalu ac os yw'n talu cyfraniadau o dan Reol CH1 neu Reol CH2, gall

- (a) os dymuna felly, ac yn gwneud ad-daliad cyn diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau ar y dyddiad y daeth yn gymwys felly, neu
- (b) ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw, os yw'r Ymddiriedolwyr yn caniatáu felly,

ad-dalu'r swm a ad-delir felly i'r Ymddiriedolwyr, ynghyd â llog ar y dyddiad y'i had-dalwyd a gall unrhyw swm i'w dalu i'r Ymddiriedolwyr o dan y paragraff hwn, os bydd yr Ymddiriedolwyr yn caniatáu hynny, gael ei dalu fesul tipyn dros y cyfryw gyfnod, heb fod yn fwy na thair blynedd, fel y gwêl yr Ymddiriedolwyr yn dda.

(4) Caiff unrhyw swm (yn brifswm neu'n llog) a ad-delir gan y cyfranogwr i'r Ymddiriedolwyr o dan baragraff (3) o'r Rheol hon ei drin at ddibenion y Rheol hon fel petai'n gyfraniad a dalwyd ganddo neu ganddi ar ddyddiad y'i had-dalwyd.

(5) Bydd yr Ymddiriedolwyr yn didynnu'r swm a ardystir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag Adran 55(2) a 58(4) Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993 o swm unrhyw gyfraniadau y gellir eu had-dalu i berson yn unol â darpariaethau'r Rheol hon mewn perthynas â'r person hwnnw.

(6) At ddiben cyfrifo cyfnod gwirioneddol gwasanaeth cyfrifadwy person fel Aelod cyfranogol, nid ystyrir unrhyw gyfnod y mae cyfraniadau a dalwyd gan y person hwnnw

- (a) wedi eu had-dalu iddo neu iddi o dan y Rheol hon; a
- (b) heb eu had-dalu iddo neu iddi wedi hynny gan yr Ymddiriedolwyr,

mewn perthynas ag ef.

### **Ad-dalu ar ôl marwolaeth**

L2. Lle mae person wedi marw

- (a) heb adael gwraig neu wŷr gweddw neu blentyn perthnasol sydd, neu y gall fod â hawl i gael pensiwn o dan Reolau G2 neu G3 mewn perthynas â'r person hwnnw; a
- (b) o dan amgylchiadau lle cyflawnwyd yr amodau a bennir yn is-baragraffau (a) a (c) o baragraffau (2) o Reol L1, ond lle nad oes arian rhodd, cyfandaliad neu fudd-dal pensiwn yn daladwy mewn perthynas ag ef neu hi,

bydd yr Ymddiriedolwyr yn ad-dalu'r cyfraniadau a dalwyd gan y cyfranogwr ac nas ad-dalwyd iddo neu iddi yn flaenorol i gynrychiolwyr personol y person, ynghyd â llog o'r dyddiadau y talwyd y cyfraniadau yn y drefn honno.

## **RHAN LL** **TROSGLWYDDO**

Gweinyddir Rheol LL yn unol â gofynion y Ddeddf Cyllid yn weithredol o 6 Ebrill 2006; sef y caiff yr Ymddiriedolwyr wneud trosglwyddiadau i gynlluniau pensiwn cofrestredig eraill a derbyn trosglwyddiadau o gynlluniau pensiwn cofrestredig eraill a chynlluniau pensiwn tramor cydnabyddedig cymwys yn unol â darpariaethau adran 169 o'r Ddeddf Cyllid.

### **Trosglwyddo i gynlluniau pensiwn eraill**

LL1. (1) Ar gais unrhyw berson

(a) a fu'n gyfranogwr ond sydd wedi peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a

(b) y mae ganddo neu ganddi o leiaf ddwy flynedd o wasanaeth cyfrifadwy; a

(c) nad yw wedi dod yn gymwys i bensiwn o dan y Rheolau hyn,

bydd yr Ymddiriedolwyr yn talu swm neu symiau sy'n cynrychioli gwerth trosglwyddo hawliau pensiwn cronodig y person hwnnw yn y Cynllun i mewn i unrhyw un neu fwy o gynlluniau neu flwydd-daliadau, neu at ddibenion unrhyw un neu fwy o gynlluniau neu flwydd-daliadau y mae'r Rheol hon yn gymwys iddynt.

(2) Mae'r Rheol hon yn gymwys i unrhyw gynllun neu flwydd-dal sy'n bodloni'r gofynion a nodir ym Mhennod IV Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993 a'r Rheolau a wnaed o dan y Ddeddf honno.

(3) Gall person ofyn i'r Ymddiriedolwyr dalu gwerth trosglwyddo mewn perthynas ag ef neu hi ar unrhyw adeg cyn dyddiad

(a) sydd heb fod dros flwyddyn cyn y dyddiad y bydd yn cyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed; neu

(b) sydd heb fod dros chwe mis ar ôl y dyddiad y bydd yn peidio â bod yn gyfranogwr,

pa ddyddiad bynnag sydd hwyraf.

### **Trosglwyddo i gynlluniau pensiwn eraill ar ôl eithrio o'r Cynllun**

LL2. (1) Ar gais unrhyw berson



- (a) sy'n Aelod wedi eithrio; a
- (b) nad yw wedi dod yn gymwys i gael pensiwn o dan y Rheolau hyn, ac eithrio'r isafswm pensiwn gwarantedig sy'n codi o dan Reol DD6,

bydd yr Ymddiriedolwyr yn talu'r gwerth trosglwyddo a gyfrifir yn unol â pharagraff (3) isod i mewn i unrhyw un neu fwy o gynlluniau neu flwydd-daliadau neu at ddibenion unrhyw un neu fwy o gynlluniau neu flwydd-daliadau y mae'r Rheolau hyn gymwys iddynt.

(2) Bydd y Rheol hon yn gymwys i unrhyw gronfa neu gynllun a bennir yn Rheol LL1(2) uchod.

(3) At ddibenion y Rheol hon y gwerth trosglwyddo sy'n daladwy fydd gwerth hawliau pensiwn cronedig person.

(4) Bydd paragraff (3) o Reol LL1 yn gymwys at ddibenion y Rheol hon.

### **Trosglwyddo i gynlluniau pensiwn dramor**

LL3. (1) Ar gais unrhyw berson a fu'n gyfranogwr ond sydd wedi peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac nad yw wedi dod yn gymwys i gael pensiwn o dan y Rheolau hyn ac eithrio'r isafswm pensiwn gwarantedig bydd yr Ymddiriedolwyr yn talu swm neu symiau sy'n cynrychioli gwerth trosglwyddo hawliau pensiwn cronedig y person hwnnw yn y Cynllun i mewn i unrhyw un neu fwy o gronfeydd neu gynlluniau neu at ddibenion unrhyw un neu fwy o gronfeydd neu gynlluniau y mae'r Rheolau hyn yn gymwys iddynt.

(2) Mae'r Rheol hon yn gymwys i unrhyw gronfa neu gynllun dramor a gymeradwyir gan yr Ymddiriedolwyr, ar yr amod bod yr Ymddiriedolwyr yn ymgynghori â Bwrdd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a gofynion y Ddeddf Cyllid ac yn rhoi sylw i'w farn ynglŷn ag addasrwydd y gronfa neu'r cynllun at ddibenion y Rheol hon cyn rhoi'r cyfryw gymeradwyaeth.

- (3) Ar gais unrhyw berson
  - (a) y talwyd unrhyw swm o dan y Rheol hon i mewn i gronfa neu gynllun dramor neu at ddibenion cronfa neu gynllun dramor mewn perthynas ag ef neu hi; a
  - (b) nad yw'n Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr adeg y gwnaed y cais,

gall yr Ymddiriedolwyr dderbyn swm o'r gronfa honno neu'r cynllun hwnnw, neu o arian a ddelir at ddibenion y gronfa honno neu'r cynllun hwnnw, sy'n hafal i'r swm a delir o dan y Rheol hon ynghyd â llog arno o ddyddiad y taliad hwnnw ar y gyfryw gyfradd y cytunir arni gan yr Ymddiriedolwyr.

## **Effaith trosglwyddo ar wasanaeth cyfrifadwy**

LL4. Lle mae'r Ymddiriedolwyr yn talu unrhyw symiau o dan Reol LL1, LL2 neu LI3 mewn perthynas ag unrhyw berson, yna

- (a) at ddiben cyfrifo cyfanswm cyfnod gwasanaeth cyfrifadwy y person hwnnw fel Aelod cyfranogol, neu gyfanswm ei gyfnod neu ei chyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel deiliad swydd cyfranogol, nid ystyrir unrhyw gyfnod cyn dyddiad y taliad hwnnw; a
- (b) at ddibenion Rheolau L1 a L2 caiff unrhyw gyfraniadau a wneir ganddo neu ganddi cyn y dyddiad hwnnw eu trin fel rhai nas talwyd.

## **Ardystiad Actiwari**

LL5. At ddibenion Rheolau LL1, LL2 a LL3, gwerth trosglwyddo holl hawliau pensiwn cronedig person neu ran ohonynt o dan y Rheolau hyn fydd y cyfryw swm ag sy'n bodloni'r gofynion a bennir o dan Bennod IV Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993 a chaiff ei ardystio gan yr Actiwari a benodir o dan Reol P1, neu ei gyfrifo yn unol â thablau a baratowyd ganddo.

## **Trosglwyddo o gynlluniau pensiwn eraill**

LL6. (1) Ar gais unrhyw berson

- (a) sy'n Aelod cyfranogol; neu
- (b) sy'n Aelod wedi eithrio sy'n gwneud cais i ailymuno â'r Cynllun o dan Reol C5,

bydd yr Ymddiriedolwyr yn derbyn unrhyw symiau sy'n daladwy drwy werth trosglwyddo mewn perthynas ag ef neu hi, o unrhyw gynllun neu flwydd-dal neu o arian a ddelir at ddibenion unrhyw gynllun neu flwydd-dal y mae Rheol LL1 yn gymwys iddynt, neu o dan unrhyw ddeddfiad sydd am y tro mewn grym sy'n awdurdodi trosglwyddo hawliau pensiwn.

(2) Lle mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn unrhyw symiau o dan baragraff (1) uchod ar gais person sy'n Aelod cyfranogol ar yr adeg y gwnaed y cais

- (a) caiff cyfanswm ei gyfnod neu ei chyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol ei drin fel cyfanswm wedi'i gynyddu drwy ychwanegu'r cyfryw gyfnod ag a bennir gan yr Ymddiriedolwyr; a
- (b) at ddibenion Rheolau L1 a L2, caiff y symiau a dderbynnir gan

yr Ymddiriedolwyr felly, cyn belled ag y maent yn cynrychioli taliadau cyfranogol y person ei hun ym marn yr Ymddiriedolwyr, eu trin fel pe baent yn gyfraniadau a dalwyd ganddo neu ganddi, ar yr un pryd â'r daliadau cyfranogol a wnaed, drwy ddidynnu o'i gyflog neu o'i chyflog o dan Reol CH1.

(3) Bydd unrhyw gyfnod a bennir gan yr Ymddiriedolwyr o dan baragraff (2)(a) yn gyfnod neu'n nifer o flynyddoedd naill ai wedi'i ardystio gan yr Actiwari a benodir o dan Reol P1 fel cyfnod priodol mewn perthynas â'r symiau a dderbynnir gan yr Ymddiriedolwyr ar gais y person dan sylw neu'n gyfnod neu'n nifer o flynyddoedd wedi'i gyfrifo, yn unol â thablau a baratowyd gan yr Actiwari, fel cyfnod priodol mewn perthynas â'r symiau hynny.

## **RHAN M**

### **BLYNYDDOEDD YCHWANEGOL**

#### **Aelodau cyfranogol yn prynu blynyddoedd ychwanegol**

M1. Bydd Atodlen 4 mewn grym mewn perthynas ag Aelod cyfranogol sy'n prynu blynyddoedd ychwanegol, ac yn amodol ar ddarpariaethau'r Atodlen honno, caiff cyfanswm cyfnod gwasanaeth cyfrifadwy Aelod cyfranogol ei drin fel cyfanswm sydd wedi'i gynyddu gan y cyfnod o flynyddoedd ychwanegol a brynir felly.

## **RHAN N**

### **CYFRANIADAU GAN GOMISIWN Y CYNULLIAD**

#### **Cyfraniad Comisiwn y Cynulliad i'r Gronfa**

N1. (1) Mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol y Cynllun bydd Comisiwn y Cynulliad yn cyfrannu swm i'r Gronfa yn unol ag argymhelliad yr Actiwari a benodir o dan Reol P1.

(2) Gall swm cyfraniad Comisiwn y Cynulliad fod yn ddim mewn unrhyw flwyddyn benodol os yw hynny yn unol ag argymhelliad yr Actiwari.

## **RHAN P**

### **PRISIADAU ACTIWARAIDD**

#### **Penodi Actiwari**

P1. (1) Bydd yr Ymddiriedolwyr yn penodi actiwari i fod yn Actiwari'r Cynllun a gall ar unrhyw adeg ddiswyddo'r Actiwari a phenodi actiwari arall fel yr Actiwari. Os bydd yr Actiwari'n ymddiswyddo neu'n marw neu os bydd yr Ymddiriedolwyr yn diswyddo'r person hwnnw yna bydd yr Ymddiriedolwyr yn penodi actiwari arall fel yr Actiwari mor fuan ag sy'n ymarferol.

(2) Bydd yr Actiwari naill ai

- (a) yn Actiwari'r Llywodraeth; neu
- (b) Cymrawd o Sefydliad yr Actiwariaid sy'n dal tystysgrif Actiwari Cynllun cyfredol a gyhoeddir gan Sefydliad yr Actiwariaid; neu
- (c) Cymrawd Cyfadran yr Actiwariaid sy'n dal tystysgrif Actiwari Cynllun gyfredol a gyhoeddir gan Sefydliad yr Actiwariaid.

### **Prisiadau actiwaraidd**

P2. (1) Mor fuan ag sy'n ymarferol ar ôl y dyddiad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfarfod am y tro cyntaf bydd yr Actiwari yn paratoi adroddiad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cynllun ar y dyddiad hwnnw, ac eithrio pan fydd yr Actiwari, gyda chydsyniad Ymddiriedolwyr y Cynllun, yn paratoi'r adroddiad yn ôl dyddiad gwahanol sydd heb fod yn fwy na thri mis ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarfod am y tro cyntaf.

(2) Bydd yr Actiwari yn paratoi adroddiadau pellach ar sefydliad ariannol cyffredinol y Cynllun ar y dyddiadau y cytunir arnynt gyda'r Ymddiriedolwyr. Ni fydd y dyddiad gweithredol pan asesir y sefydliad ariannol gan yr Actiwari yn fwy na thair blynedd ar ôl dyddiad gweithredol yr adroddiad actiwaraidd blaenorol diweddaraf a baratoir o dan y Rheol hon.

(3) Caiff prisiad actiwaraidd a baratoir gan y Rheol hon ei gwblhau a'i lofnodi gan yr Actiwari o fewn blwyddyn i ddyddiad gweithredol y prisiad.

### **Cynnwys pob prisiad actiwaraidd**

P3. Bydd pob adroddiad gan yr Actiwari

- (a) yn nodi gwerth rhwymedigaethau'r Cynllun o'i gymharu â'i asedau;
- (b) yn argymhell cyfradd gyfrannu i'w thalu gan Gomisiwn y Cynulliad i'r Cynllun.

### **Prisiadau actiwaraidd i'w gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

P4. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn gosod copi o bob adroddiad gan yr Actiwari gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn tri mis i'r Ymddiriedolwyr ei gael.

## **RHAN PH**

### **AMRYWIOL AC ATODOL**

### **Cymhwyso pensiynau**

PH1. (1) Os yw'r Ymddiriedolwyr yn fodlon ar ôl ystyried tystiolaeth feddygol bod person y mae unrhyw bensiwn neu fudd-daliadau eraill yn daladwy iddo neu iddi o

dan ddarpariaethau eraill y Cynllun hwn (y cyfeirir ato neu ati yn y Rheol hon fel 'y claf') yn analluog i reoli a gweinyddu ei eiddo a'i faterion neu ei heiddo a'i materion oherwydd anhwylder meddyliol, gallant yn lle talu unrhyw bensiwn neu fudd-dal i'r claf, ei gymhwyso yn unol â pharagraff (2) isod.

(2) Gall yr Ymddiriedolwyr dalu'r pensiwn neu'r budd-dal neu'r cyfryw ran ohono fel y gwelant yn dda i'r sefydliad neu'r person sy'n gofalu am y claf, i'w gymhwyso er ei fudd neu ei budd a gall dalu'r gweddill (os o gwbl) neu'r cyfryw ran o'r gweddill fel y gwelant yn dda

- (a) i neu er budd personau sy'n ymddangos i'r Ymddiriedolwyr eu bod yn aelodau o deulu'r claf neu unrhyw bersonau y gellid disgwyl i'r claf ddarparu ar eu cyfer pe na bai anhwylder meddyliol arno neu arni; neu
- (b) i ddiogledu, gyda neu heb log, arian a gymhwysir gan unrhyw berson naill ai i dalu dyledion y claf (p'un a ydynt yn orfodol yn gyfreithiol ai peidio) neu i gynnal neu er budd arall y claf neu'r cyfryw bersonau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) uchod.

## **RHAN R**

### **Newidiadau i'r Ddeddf Cyllid a didynnu treth**

#### **Talu ar ran cyfranogwyr tâl lwfans oes**

R1. (1) Gall cyfranogwr neu gyn-gyfranogwr ofyn i'r person sydd yn Weinyddwr y Cynllun at ddibenion y tâl lwfans oes o dan adran 217 o'r Ddeddf Cyllid, dalu ar ei ran neu ar ei rhan unrhyw swm sy'n daladwy o ran y tâl lwfans oes o dan adran 214 o'r Ddeddf Cyllid:

- (a) pan fydd digwyddiad sy'n ddigwyddiad crisialu budd-daliadau a restrir yn adran 216(1) o'r Ddeddf Cyllid yn digwydd mewn perthynas ag ef neu hi,
- (b) pan fydd cyfranogwr neu gyn-gyfranogwr a Gweinyddwr y Cynllun yn agored i'r tâl mewn perthynas â'r digwyddiad ar y cyd ac yn unigol.

(2) Dim ond drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir cyn y digwyddiad y gellir gwneud y cyfryw gais.

(3) Dim ond os yw'r cyfranogwr neu'r cyn-gyfranogwr yn talu'r swm dan sylw iddo ef neu iddi hi ar neu cyn dyddiad y digwyddiad y gall Gweinyddwr y Cynllun gydymffurfio â'r cyfryw gais.

#### **Lleihau gwerthoedd budd-daliadau a throsglwyddo pan fydd y tâl lwfans oes yn daladwy.**

R2. (1) Mae'r Rheol hon yn gymwys:

- (a) os bydd digwyddiad sy'n ddigwyddiad crisialu budd-daliadau a restrir yn y tabl yn adran 216(1) o'r Ddeddf Cyllid yn digwydd mewn perthynas â chyfranogwr neu gyn-gyfranogwr,
- (b) os bydd y cyfranogwr neu'r cyn-gyfranogwr a'r person sy'n gweithredu fel Gweinyddwr y Cynllun at ddibenion adran 217 o'r Ddeddf Cyllid yn agored i'r tâl mewn perthynas â'r digwyddiad ar y cyd ac yn unigol, ac
- (c) os na wnaed cais o dan Reol R1 mewn perthynas â'r digwyddiad neu, os gwnaed cais, caiff Gweinyddwr y Cynllun ei atal rhag cydymffurfio ag ef o dan baragraff (3) o'r Rheol honno.

(2) Pan fydd y Rheol hon yn gymwys:

- (a) rhaid i Weinyddwr y Cynllun dalu o'r Gronfa y dreth sy'n daladwy ar y digwyddiad,
- (b) os mai trosglwyddiad i gynllun pensiwn tramor cydnabyddedig cymwys yw'r digwyddiad crisialu budd-daliadau, rhaid i swm neu werth y symiau neu'r asedau a drosglwyddir gael ei leihau, ac
- (c) yn achos unrhyw ddigwyddiad arall o dan adran 216, rhaid i swm neu werth y budd-daliadau sy'n daladwy i'r cyfranogwr neu mewn perthynas â'r cyfranogwr gael ei leihau i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith i dalu'r tâl treth sy'n codi.

(3) Rhaid i swm neu werth y gostyngiad olygu ei fod ym marn Actiwari'r Llywodraeth yn adlewyrchu'n llawn swm y dreth a delir o dan y Rheol hon.

### **Didynnu o daliadau treth eraill sy'n ddyledus o dan y Ddeddf Cyllid**

R3. (1) Mae'r Rheol hon yn gymwys:

- (a) pan wneir taliad o dan Reol H o'r Rheolau hyn sy'n fudd-dal mewn cyfandaliad ar adeg marwolaeth sy'n diogelu pensiwn at ddibenion paragraff 14 o Atodlen 29 i'r Ddeddf Cyllid, neu
- (b) pan wneir ad-daliad o gyfraniadau (yn cynnwys llog ar gyfraniadau) o dan Reol L sy'n gyfandaliad ad-dalu gwasanaeth byr at ddibenion paragraff 5 o Atodlen 29 i'r Ddeddf honno.

(2) Cyn gwneud y taliad gall y person sy'n gweithredu fel Gweinyddwr y Cynllun ddidynnu ohono unrhyw dreth sy'n ddyledus mewn perthynas ag ef, o dan:

- (a) adran 205 o'r Ddeddf Cyllid (tâl cyfandaliad ad-dalu gwasanaeth byr); neu

- (b) adran 206 o'r Ddeddf Cyllid ( tâl budd-dal mewn cyfandaliad arbennig ar adeg marwolaeth).

## ATODLEN 1

Rheol B2

### Darpariaethau cyffredinol ynglŷn ag Ymddiriedolwyr

#### Penodi Ymddiriedolwyr ac ati.

1. Ni fydd mwy na chwe Ymddiriedolwr.
  - 1A. Ar unrhyw adeg, bydd un o'r chwe Ymddiriedolwr yn bensiynwr, i'r graddau y mae unigolion yn barod i ymglyfwyno i gael eu henwebu, eu dewis a'u penodi i'r rôl honno. Os mai dim ond un enwebiad sy'n dod i law ar unrhyw adeg, bydd yr enwebai hwnnw yn weithredol fel yr Ymddiriedolwr sy'n bensiynwr o'r cyfryw ddyddiad ac am y cyfryw gyfnod ag y bydd yn cael ei hysbysu ohono. Lle bydd mwy nag un enwebiad yn dod i law, bydd pleidlais i ddewis yr unigolyn sydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau yn cael ei chynnal ymhlith yr aelodau o'r Cynllun sy'n bensiynwyr.
2. Ni phenodir person yn Ymddiriedolwr oni bai ei fod neu ei bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond ni fydd person yn peidio â bod yn Ymddiriedolwr am ei fod neu ei bod wedi peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
3. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru benodi neu ddiswyddo unrhyw Ymddiriedolwr i'r swydd honno neu o'r swydd honno. Gall Ymddiriedolwr ymddiswyddo o'r swydd drwy hysbysu Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ysgrifenedig.
4. Gall yr Ymddiriedolwr weithredu drwy fwyafrif o'r rhai sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle mae cworwm.
5. Gweithdrefn yr Ymddiriedolwyr, yn amodol ar ddarpariaethau'r Rheolau hyn, fydd y cyfryw weithdrefn a bennir gan yr Ymddiriedolwyr, a nifer yr Ymddiriedolwyr mewn cworwm mewn unrhyw gyfarfod fydd tri.
6. Bydd penderfyniad gan yr Ymddiriedolwyr yn parhau mewn grym hyd nes y caiff ei ddiwygio, ei newid neu ei ddiwyddu drwy benderfyniad arall gan yr Ymddiriedolwyr, er gwaethaf unrhyw newidiadau yn y personau sy'n Ymddiriedolwyr ac er gwaethaf y ffaith nad oes unrhyw Ymddiriedolwyr am y tro oherwydd etholiad cyffredin i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu am unrhyw reswm arall.

#### Darpariaethau gweinyddol

7. Gall yr Ymddiriedolwyr gyflogi'r cyfryw swyddogion a gweision (os o gwbl) ag sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy mewn cysylltiad â rheoli'r Cynllun; a chaiff treuliau sy'n deillio o reoli'r Cynllun, gan gynnwys ffioedd ymgynghorwyr proffesiynol a chydnabyddiaeth a phensiynau, neu gyfraniadau tuag at y pensiynau, sy'n daladwy i swyddogion a gweision a gyflogir gan yr Ymddiriedolwyr neu mewn perthynas â hwy, eu digolledu o'r Gronfa.
- 7A. Caiff yr Ymddiriedolwyr drwy awdurdod ysgrifenedig wedi ei lofnodi gan bob un o'r Ymddiriedolwyr ddirprwyo, awdurdodi is-ddirprwyo neu ddarparu ar gyfer ymarfer unrhyw un o'u dyletswyddau, eu pwerau a'u rhydd-didau i weithredu sy'n briodol yn eu barn hwy, i'r cyfryw bersonau neu gorff (yn cynnwys un neu fwy ohonynt hwy eu hunain) ag a bennir gan yr Ymddiriedolwyr efallai o bryd i'w gilydd.
8. Gall Ymddiriedolwyr y Cynllun, benodi'r cyfryw berson ag y gwelant yn dda i gaffael asedau i'r Gronfa a gwaredu asedau o'r Gronfa ar eu rhan ac yn unol â'r cyfryw gyfarwyddiadau yn unig a bennir, ac a osodir gan yr Ymddiriedolwr o dro i dro ynglŷn â pholisi buddsoddiad.
9. Bydd Ymddiriedolwyr y Cynllun yn adolygu unrhyw asedau'r Gronfa a gaffaelir neu a waredir gan y cyfryw berson a benodir o dan baragraff 8 yn flynyddol.
10. Ar ôl cynnal adolygiad yn unol â pharagraff 9, gall yr Ymddiriedolwyr ddilysu asedau a gaffaelir neu a waredir, neu gallant gymryd y cyfryw gamau eraill mewn perthynas â hyn ag y gwelant yn dda.
11. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cadw cyfrifon priodol a byddant yn paratoui datganiadau cyfrifon mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol y Cynllun a bydd yn trefnu i gyfrifon a datganiadau ariannol y Cynllun gael eu harchwilio'n flynyddol. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sicrhau y caiff yr archwiliad ei gwblhau o fewn saith mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.
12. Penodir yr archwiliwr yn flynyddol gan yr Ymddiriedolwyr a bydd naill ai'n Archwilydd Cyffredinol i Gymru neu'n berson neu'n gwmni a awdurdodir i archwilio cwmni cyfyngedig cyhoeddus. Bydd hawl gan yr archwiliwr i weld llyfrau a chofnodion y Cynllun a gall ofyn am y cyfryw wybodaeth ac esboniadau ag sy'n rhesymol iddo archwilio'r cyfrifon.
13. Bydd yr archwiliwr yn archwilio ac yn ardystio pob datganiad cyfrifon a baratoir o dan baragraff 11 o'r Atodlen hon a bydd yn rhoi barn archwilio arno. Gosodir copi o bob cyfryw ddatganiad, ynghyd ag adroddiad yr archwiliwr a'i farn arno, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn tri mis i'r farn gael ei llofnodi.



## ATODLEN 2

Rheol F1

### Canran yr Hawl i Bensiwn a Leiheir

1. Lleiheir y pensiwn y mae gan berson hawl iddo o dan Reol F1, gan roi sylw i oedran person a hyd ei gyfnod neu ei chyfnod cymwys ar ddyddiad ei gais neu ei chais neu, os yw'n hwyrach, y cyfryw ddyddiad arall a bennir, o'r dyddiad y bydd y pensiwn hwnnw yn daladwy gan y ganran a bennir yn y tabl isod ac ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2010 yn ôl y ganran a nodir yn y cyfryw dablau ag a baratoir gan yr Actiwari o bryd i'w gilydd yn unol â Rheol F(5).<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> Cedwir y tabl isod at ddibenion cyfrifo ac mae'r ffactorau a ddangosir ynddo yn ymwneud â gwasanaeth cyn 1 Gorffennaf 2010 a chaiff ei ddisodoli gan y cyfryw ffactorau diweddarach ag a baratoir gan yr Actiwari o bryd i'w gilydd

Lleihad drwy Ganran Sengl o'r Dyddiad y mae Pensiwn yn Daladwy  
*Cyfnod cymwys (blynyddoedd)*

Oedran y dechreuwyd talu'r pensiwn	20 neu fwy	19	18	17	16	15 neu lai
65	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
64	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.0
63	0.0	0.0	0.0	0.0	7.0	13.7
62	0.0	0.0	0.0	7.0	13.7	19.9
61	0.0	0.0	7.0	13.7	19.9	25.6
60	0.0	7.0	13.7	19.9	25.6	30.8
59	7.0	13.7	19.9	25.6	30.8	35.6
58	13.7	19.9	25.6	30.8	35.6	39.9
57	19.9	25.6	30.8	35.6	39.9	43.7
56	25.6	30.8	35.6	39.9	43.7	47.0
55	30.8	35.6	39.9	43.7	47.0	50.0
54	35.6	39.9	43.7	47.0	50.0	52.8
53	39.9	43.7	47.0	50.0	52.8	55.4
52	43.7	47.0	50.0	52.8	55.4	57.7
51	47.0	50.0	52.8	55.4	57.7	59.7
50	50.0	52.8	55.4	57.7	59.7	61.8

2. Ni leiheir y pensiwn y mae gan berson hawl iddo o dan Reol F1 yn is na chyfradd yr isafswm pensiwn gwarantedig, fel y darperir ar ei gyfer yn Rheol DD7.

\* Bydd unigolyn sy'n ymuno â'r Cynllun ar ôl 1 Ebrill 2007 yn derbyn pensiwn wedi'i leihau yn unol â'r ganran leihau uchod a gymhwysir at bersonau sydd â 15 neu lai o flynyddoedd o wasanaeth cymwys.

Lle nad yw'r oedran neu'r cyfnod cymwys yn nifer union o flynyddoedd, gellir cyfrifo canran y lleihad drwy amcangyfrif gwerth y lleihad ar gyfer yr oedran gofynnol a'r cyfnod cymwys gofynnol yn ôl yr angen.

At ddibenion Rheolau F1 ac F2, bydd unigolyn newydd sy'n cofrestru yn y cynllun ar ôl 1 Ebrill 2007 yn cael pensiwn wedi ei leihau yn unol â'r canran leihau uchod a gymhwysir at bersonau â 15 neu lai o flynyddoedd cymwys o wasanaeth. At yr un dibenion dim ond y rhan honno o'u gwasanaeth sy'n gyfystyr â gwasanaeth gwirioneddol yn y Cynllun ar ôl 1 Rhagfyr 2006 y gall aelodau presennol y Cynllun ar 1 Rhagfyr 2006, ei chyfrif, fel "cyfnod cymwys" o wasanaeth wrth gyfrifo'r ganran leihau berthnasol sy'n gymwys o dan ddarpariaethau'r Atodlen hon a thablau diwygiedig o bryd i'w gilydd.

### **ATODLEN 3**

Rheol G3

#### **Personau sy'n Gymwys i gael Pensiynau Plant**

1. Yn yr Atodlen hon, ystyr "yr ymadawedig" yw'r person y mae pensiwn plant yn daladwy neu gall pensiwn plant fod yn daladwy o dan Rheol G3, ar adeg ei farwolaeth neu ei marwolaeth, ac mae i "plentyn" yr un ystyr â "plentyn" yn y Rheol honno.
2. At ddibenion Rheol G3 trinnir plentyn fel plentyn sydd o fewn cyfnod o addysg amser llawn tra ei fod neu ei bod
  - (a) yn cael addysg amser llawn mewn unrhyw brifysgol, coleg, ysgol neu sefydliad addysgol arall; neu
  - (b) yn cael hyfforddiant amser llawn neu'n amser llawn i raddau helaeth ar gyfer unrhyw grefft, proffesiwn neu alwedigaeth; a phenderfynir ar unrhyw ymholiad sy'n deillio o'r paragraff hwn gan yr Ymddiriedolwyr.
3. Ni thrinnir plentyn fel plentyn perthnasol at ddibenion Rheol G3
  - (a) fel plentyn anghyfreithlon neu'n blentyn mabwysiedig i'r ymadawedig; os ganed neu os mabwysiadwyd y cyfryw blentyn, yn ôl y digwydd, ar ôl i briodas neu briodas ddiwethaf yr ymadawedig gael ei therfynu; neu
  - (b) fel plentyn priod yr ymadawedig, os ganed y plentyn hwnnw neu os daeth y plentyn hwnnw yn blentyn y priod hwnnw ar ôl i briodas y priod â'r ymadawedig gael ei therfynu;

oni bai bod yr Ymddiriedolwyr, yn achos plentyn mabwysiedig o dan is-baragraff (a) neu is-baragraff (b) o'r paragraff hwn, os ydynt yn fodlon bod yr ymadawedig cyn y digwyddiad perthnasol y cyfeirir ato yn y Cynllun hwn (neu'r ymadawedig neu ei briod neu ei phriod, yn ôl y digwydd) eisoes wedi bwriadu mabwysiadu'r plentyn a bod y plentyn wedyn yn llwyr ddibynnol neu'n bennaf dibynnol ar yr ymadawedig, neu yn achos plentyn anghyfreithlon o dan is-baragraff (a) uchod, os ydynt yn fodlon y byddai'r plentyn wedi bod yn llwyr ddibynnol neu'n bennaf dibynnol ar yr ymadawedig pe bai'r plentyn hwnnw wedi'i eni cyn marwolaeth yr ymadawedig, yn cyfarwyddo trin y plentyn fel plentyn perthnasol.

4. Ni thrinnir plentyn fel plentyn perthnasol at ddibenion Rheol G3

- (a) fel plentyn anghyfreithlon yr ymadawedig; neu
- (b) fel plentyn priod yr ymadawedig,

onid oedd y plentyn yn llwyr ddibynnol neu'n bennaf dibynnol ar yr ymadawedig; ar adeg marwolaeth yr ymadawedig.

5. Ni thrinnir plentyn fel plentyn perthnasol at ddibenion Rheol G3, os yw'r plentyn, ar ddyddiad marwolaeth yr ymadawedig, yn briod neu'n cyd-fyw â pherson arall; a bydd plentyn sy'n priodi neu'n cyd-fyw â pherson arall wedyn yn peidio â bod yn blentyn perthnasol gan hynny oni bai a hyd nes y bydd yr Ymddiriedolwyr, sy'n fodlon bod y briodas wedi'i therfynu neu ei fod neu ei bod wedi peidio â chyd-fyw â pherson ac am resymau eithriadol y mae'n briodol gwneud hynny, yn cyfarwyddo trin y plentyn felly.

## ATODLEN 4

Rheol M1

### **Prynu Blynyddoedd Ychwanegol**

1. Yn yr Atodlen hon, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall

ystyr “taliad ar gyfer prynu blynyddoedd ychwanegol” yw’r cyfryw daliad p’un ai yn daladwy yn gyfnodol neu drwy un cyfandaliad;

ystyr “cyfraniadau cyfnodol” yw’r symiau sy’n daladwy gan Aelod cyfranogol y mae’r Ymddiriedolwyr wedi derbyn ei gais neu ei chais i brynu blynyddoedd ychwanegol ac eithrio drwy un taliad;

mae i “cyflog terfynol perthnasol” yr un ystyr ag sydd iddo yn Rheol DD2(2).

### **Prynu blynyddoedd ychwanegol drwy gyfraniadau cyfnodol**

2. (1) Gall Aelod cyfranogol wneud cais ysgrifenedig i’r Ymddiriedolwyr am brynu blynyddoedd ychwanegol drwy gyfraniadau cyfnodol sy’n daladwy hyd nes y bydd yn cyrraedd 65 mlwydd oed a bydd yr Ymddiriedolwyr yn derbyn ei gais neu ei chais os bodlonir pob un o’r amodau canlynol mewn perthynas â’r cais hwnnw

- (i) ni fydd yr Aelod cyfranogol wedi cyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed ar ei ben-blwydd neu ei phen-blwydd nesaf ar ôl dyddiad y cais;
- (ii) roedd yr Aelod cyfranogol wedi bodloni’r Ymddiriedolwyr, ym mha fodd bynnag y gofynna’r Ymddiriedolwyr, ei fod neu ei bod mewn iechyd da;
- (iii) nid yw nifer y blynyddoedd ychwanegol y mae’r Aelod cyfranogol wedi gwneud cais i’w prynu yn fwy na’r uchafswm a ganiateir gan baragraff 8 o’r Atodlen hon; a
- (iv) mae’r Aelod cyfranogol wedi darparu’r cyfryw wybodaeth a thystiolaeth i’r Ymddiriedolwyr ag y gofynnir amdani ac wedi nodi a yw ei gais neu ei chais wedi’i wneud o dan ddarpariaethau’r is-baragraff hwn neu o dan ddarpariaethau is-baragraff (2) isod.

(2) Gall Aelod cyfranogol wneud cais ysgrifenedig i’r Ymddiriedolwyr am brynu blynyddoedd ychwanegol drwy dalu cyfraniadau cyfnodol am gyfnod o dair neu bedair blynedd, o fewn cyfnod o ddeuddeg mis yn union ar ôl y dyddiad y dechreuodd gyfnod o wasanaeth fel Aelod, neu o fewn cyfnodau hwy ag a ganiateir gan yr Ymddiriedolwyr o dan amgylchiadau arbennig ac yn ôl eu disgrisiwn, a bydd yr Ymddiriedolwyr yn derbyn ei gais neu ei chais os nad yw’r Aelod cyfranogol wedi cyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed ar y dyddiad y daw’r cais i law ac os bodlonir amodau is-baragraffau (ii), (iii) a (iv) is-baragraff (1) uchod mewn perthynas â’r cais hwnnw.

3. Bydd cais gan Aelod cyfranogol i brynu blynyddoedd ychwanegol yn ddiwrthdro ar y dyddiad ac o'r dyddiad pan dderbynnir y cais gan yr Ymddiriedolwyr.

4. Lle mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn cais gan Aelod cyfranogol i brynu blynyddoedd ychwanegol drwy gyfraniadau cyfnodol

(1) bydd y cyfraniadau cyfnodol hynny, yn amodol ar ddarpariaethau paragraff 5 o'r Atodlen hon, yn daladwy

(a) yn achos cais o dan baragraff 2(1) o'r Atodlen hon, o ddyddiad pen-blwydd nesaf yr Aelod cyfranogol ar ôl i'r cais ddod i law a hyd nes y bydd yr Aelod cyfranogol yn cyrraedd 65 mlwydd oed; a

(b) yn achos cais o dan baragraff 2(2) o'r Atodlen hon, am ba gyfnodau o dair neu bedair blynedd bynnag a ddewisir gan yr Aelod cyfranogol i dalu'r cyfraniadau cyfnodol ynddo yn dechrau ar y cyfryw ddyddiad sydd heb fod yn hwyrach na deufis o'r dyddiad y derbynnir y cais ag a bennir gan yr Ymddiriedolwyr drwy hysbysu'r Aelod cyfranogol yn ysgrifenedig;

(2) yn weithredol o 1 Ebrill 2010, bydd cyfraniadau cyfnodol gan yr Aelod cyfranogol yn daladwy drwy eu didynnu o gyflog arferol yr Aelod, neu yn achos Aelod cyfranogol sy'n dewis derbyn cyflog is sy'n daladwy drwy ddidynnu o'i gyflog neu ei chyflog ostyngol ac sy'n seiliedig arni; ac yn achos ôl-ddyledion, yn y cyfryw fodd ag sy'n ofynnol gan yr Ymddiriedolwyr; a

(3) cyfrifir y cyfraniadau cyfnodol sy'n daladwy gan Aelod cyfranogol ar gyfer y blynyddoedd ychwanegol yn unol â'r tablau a baratoir o dro i dro gan yr Actiwari a benodir o dan Reol N1.

### **Gwasanaeth Bylchog**

5. (1) Os yw Aelod cyfranogol yn marw neu'n peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru oherwydd salwch o dan amgylchiadau y mae Rheol FF1 yn gymwys iddynt a

(a) mae wedi gwneud cais i brynu blynyddoedd ychwanegol drwy gyfraniadau cyfnodol; a

(b) mae'r Ymddiriedolwyr wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig eu bod wedi derbyn ei gais neu ei chais;

ni fydd unrhyw gyfraniadau cyfnodol ychwanegol yn daladwy o'r diwrnod ar ôl dyddiad ei farwolaeth neu ei marwolaeth neu o'r diwrnod ar ôl y dyddiad y mae'n peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ôl y digwydd, a chredydir unrhyw flynyddoedd ychwanegol y gwnaeth gais i'w prynu drwy gyfraniadau cyfnodol yn llawn fel gwasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol.

(2) Os yw Aelod cyfranogol sydd wedi gwneud cais i brynu blynyddoedd ychwanegol drwy gyfraniadau cyfnodol ac y derbyniwyd ei gais neu ei chais gan yr Ymddiriedolwyr yn peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan amgylchiadau nad yw Rheol FF1 yn gymwys iddynt, ni fydd y cyfryw gyfraniadau cyfnodol yn daladwy ganddo neu ganddi o'r diwrnod ar ôl y dyddiad pan fydd yn peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond cynyddir ei wasanaeth neu ei gwasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol mewn perthynas â phob cais gan (A x B) / C lle:

A yw nifer y blynyddoedd ychwanegol y gwnaeth gais i'w prynu drwy gyfraniadau cyfnodol;

B yw'r cyfnod (a fynegir i'r diwrnod agosaf) lle talwyd cyfraniadau cyfnodol;

C yw cyfanswm y cyfnod lle y byddai cyfraniadau cyfnodol wedi bod yn daladwy yn unol â pharagraff 4(1) uchod.

(3) Os yw Aelod y bu is-baragraff (2) o'r paragraff hwn yn gymwys iddo neu iddi wedyn yn dechrau cyfnod arall o wasanaeth fel Aelod cyfranogol cyn ei fod neu ei bod yn cyrraedd 65 mlwydd oed, o dan amgylchiadau lle mae'r cyfnodau gyda'i gilydd yn hafal i gyfanswm cyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol, yna yn amodol ar is-baragraffau (4) a (6) o'r paragraff hwn, gall hysbysu'r Ymddiriedolwyr yn ysgrifenedig o fewn cyfnod o dri mis yn dechrau ar y dyddiad y cychwynnodd y cyfnod arall o wasanaeth ei fod neu ei bod yn bwriadu ailddechrau talu cyfraniadau cyfnodol mewn perthynas â'r blynyddoedd ychwanegol yr oedd yn gwneud cyfraniadau cyfnodol ar eu cyfer yn ei gyfnod neu ei chyfnod union blaenorol o wasanaeth a bydd y cyfryw gyfraniadau cyfnodol wedyn yn daladwy o'r dyddiad pan gychwynnodd y cyfnod arall o wasanaeth fel Aelod cyfranogol a byddant yn parhau hyd nes y bydd yr Aelod cyfranogol yn cyrraedd 65 mlwydd oed ar gyfradd neu gyfraddau sy'n gymwys yn ystod y cyfnod union blaenorol hwnnw.

(4) Lle mae Aelod cyfranogol sydd wedi peidio â thalu cyfraniadau cyfnodol dim ond am ei fod neu ei bod wedi peidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru am gyfnod ond wedyn sydd wedi dod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru unwaith eto ac wedi ailddechrau prynu blynyddoedd ychwanegol drwy gyfraniadau cyfnodol yn unol ag is-baragraff (3) o'r paragraff hwn, yn dod yn gymwys i bensiwn o dan Reol DD1 wedi hynny, bydd ei wasanaeth neu ei gwasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol yn cynyddu yn unol ag is-baragraff (2) o'r paragraff hwnnw ac eithrio y darllenir C fel cyfanswm y cyfnod y byddai wedi talu cyfraniadau cyfnodol ar gyfer y blynyddoedd ychwanegol pe bai ei wasanaeth neu ei gwasanaeth fel Aelod cyfranogol wedi bod yn barhaus.

(5) Os yw Aelod cyfranogol y cymhwyswyd is-baragraff (2) o'r paragraff hwn iddo neu iddi wedyn, yn dechrau cyfnod arall o wasanaeth fel Aelod cyfranogol cyn ei fod neu ei bod yn cyrraedd 65 mlwydd oed, o dan amgylchiadau lle mae'r cyfnodau gyda'i gilydd yn gwneud cyfanswm o gyfnod o wasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol, yna yn amodol ar is-baragraffau (4) a (6) o'r paragraff hwn, gall, os bu gostyngiad yn nifer y blynyddoedd ychwanegol y gall eu prynu yn llawn o ganlyniad i'w fwch neu i'w bwch mewn gwasanaeth fel Aelod cyfranogol, gyda chytundeb yr

Ymddiriedolwyr ac yn amodol ar ddarpariaethau paragraffau 2(1)(ii) a 8(1) o'r Atodlen hon, wneud cais i brynu rhai neu bob un o nifer y blynyddoedd ychwanegol a gynhwysir yn y gostyngiad hwnnw drwy gyfraniadau cyfnodol sy'n daladwy hyd nes y bydd yn cyrraedd 65 mlwydd oed ar gyfradd sy'n gymwys i ben-blwydd nesaf yr Aelod cyfranogol, ar ôl i'w gais neu i'w chais ddod i law.

(6) Ni fydd is-baragraffau (3), (4) a (5) o'r paragraff hwn yn gymwys lle y gwnaed y cais i brynu blynyddoedd ychwanegol cyn i'r Aelod cyfranogol beidio â bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 2(2) uchod.

### **Prynu blynyddoedd ychwanegol drwy gyfandaliad**

6. (1) Yn amodol ar ddarpariaethau is-baragraff (2) o'r paragraff hwn, gall Aelod cyfranogol wneud cais ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr am brynu blynyddoedd ychwanegol drwy dalu cyfandaliad.

(2) Bydd yr Ymddiriedolwyr yn derbyn cais i brynu blynyddoedd ychwanegol o dan y paragraff hwn os bodlonir pob un o'r amodau canlynol mewn perthynas â'r cais hwnnw

- (i) nid yw'r Aelod cyfranogol wedi cyrraedd 65 mlwydd oed;
- (ii) mae'r Aelod cyfranogol yn gwneud cais i'r Ymddiriedolwyr o fewn y cyfryw gyfnod ag a ganiateir gan yr Ymddiriedolwyr yn ôl eu disgresiwn;
- (iii) nid yw'r Aelod cyfranogol wedi gwneud cais i'r Ymddiriedolwyr o dan ddarpariaethau Rheol FF1 am bensiwn cynnar oherwydd salwch
- (iv) nid yw nifer y blynyddoedd ychwanegol y mae'r Aelod yn gwneud cais i'w prynu yn fwy na'r uchafswm a ganiateir oherwydd y cyfraniadau y caniateir iddynt gael eu gwneud o dan baragraff 8 o'r Atodlen hon; a
- (v) mae'r Aelod cyfranogol wedi darparu'r cyfryw wybodaeth a thystiolaeth i'r Ymddiriedolwyr ag y gofynnant amdani.

(3) Gall Aelod cyfranogol sydd wedi gwneud cais i brynu blynyddoedd ychwanegol o dan ddarpariaethau paragraff 2(2) ac y mae paragraff 5(2) yn gymwys iddo neu iddi, mewn perthynas â'r cyfryw gais os

- (a) o ganlyniad i beidio â bod yn Aelod cyfranogol, bu gostyngiad yn nifer y blynyddoedd ychwanegol y gall eu prynu yn llawn;
- (b) bodlonir amodau paragraffau (iii), (iv) a (v) o is-baragraff (2) o'r paragraff hwnnw mewn perthynas â'r cais a wnaed o dan yr is-baragraff hwnnw; a

- (c) gwnaed y cais o dan yr is-baragraff hwn o fewn tri mis iddo neu iddi beidio â bod yn Aelod cyfranogol,

wneud cais ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr am brynu rhai neu bob un o nifer y blynyddoedd ychwanegol a gynhwysir yn y gostyngiad hwnnw drwy dalu cyfandaliad ar y gyfradd sy'n gymwys ar ben-blwydd nesaf yr Aelod cyfranogol ar ôl i'r cais ddod i law.

### **Talu cyfandaliadau**

7. (1) Bydd unrhyw Aelod cyfranogol sydd wedi gwneud cais i'r Ymddiriedolwyr am brynu blynyddoedd ychwanegol drwy dalu cyfandaliad, o fewn y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y dyddiad pan dderbyniodd yr Ymddiriedolwyr ei gais neu ei chais, yn talu cyfandaliad a gyfrifir drwy gyfeirio at gyflog arferol Aelod ar yr adeg y derbyniodd yr Ymddiriedolwyr ei gais neu ei chais ac yn unol â thablau a baratoir o dro i dro gan yr Actiwari a benodir o dan Reol P1 a chynyddir swm eu gwasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol yn unol â hynny yn weithredol o'r dyddiad y derbynia'r Ymddiriedolwyr y cyfandaliad.

(2) Os, ar ôl i Aelod cyfranogol wneud cais i brynu blynyddoedd ychwanegol drwy dalu cyfandaliad ac ar ôl i'r Ymddiriedolwyr ei dderbyn, na fydd y taliad yn dod i law o fewn y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y dyddiad pan dderbyniodd yr Ymddiriedolwyr y cais, bydd y cais i brynu yn peidio â bod yn ddilys.

### **Terfynau ar brynu blynyddoedd ychwanegol**

8. Ni fydd cyfanswm cyfraniadau Aelod cyfranogol ar gyfer prynu blynyddoedd ychwanegol (p'un a'u gwneir fel cyfraniadau cyfnodol o dan baragraff 2 neu drwy gyfandaliad o dan baragraff 6), ar ôl eu cyfansymio â'i gyfraniadau ef neu ei chyfraniadau hi o dan Reol CH1 ac unrhyw gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol eraill yn fwy nag 20 y cant o gyflog arferol Aelod mewn unrhyw flwyddyn dreth.

### **Ceisiadau eraill i brynu blynyddoedd ychwanegol**

9. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Atodlen hon, gall yr Ymddiriedolwyr dderbyn mwy nag un cais gan Aelod cyfranogol i brynu blynyddoedd ychwanegol drwy dalu cyfraniadau cyfnodol neu gyfandaliadau.

### **Cyfyngiadau ar brynu blynyddoedd ychwanegol a darpariaethau cyffredinol**

10. (1) Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr wrthod cais i brynu blynyddoedd ychwanegol ar neu ar ôl mis Ebrill 2011, os byddai'r cynnydd cyfatebol mewn gwasanaeth cyfrifiadwy, o'i ystyried ar y cyd â "gwasanaeth cyfrifiadwy a ragwelir" yr ymgeisydd, yn rhoi hawl i'r ymgeisydd gael pensiwn blynyddol o dan Reol DD1 sy'n fwy na'r hyn sydd leiaf o'r canlynol:

(a) y swm sy'n hafal i ddwy ran o dair o'r lluosydd, neu

(b) y swm sy'n hafal i ddwy ran o dair o'r uchafswm a ganiateir.



- (2) “Gwasanaeth cyfrifadwy a ragwelir” ymgeisydd yw’r gwasanaeth cyfrifadwy fel Aelod cyfranogol y byddai’r ymgeisydd yn ei gael pe bai wedi parhau fel y cyfryw ac wedi parhau i wneud cyfraniadau o dan Reol CH1 ar yr un gyfradd tan:-
- (a) wrth wneud cais i brynu yn ôl cyfraniadau cyfnodol, ddiwedd y cyfnod y mae’r rhandaliadau yn daladwy ar ei gyfer, neu
  - (b) wrth wneud cais i brynu yn ôl cyfandaliad, y diwrnod etholiad cyffredinol nesaf.
- (3) Mae’n rhaid i’r Ymddiriedolwyr wrthod cais i brynu blynyddoedd ychwanegol os ydynt o’r farn y byddai hyn yn arwain at lwfans gydol oes neu lwfans taliad treth blynyddol mewn perthynas â’r ymgeisydd sy’n daladwy yn y drefn honno o dan adrannau 214 a 227 o’r Ddeddf Cyllid.
- (4) Nid yw darpariaethau’r Atodlen hon yn effeithio ar unrhyw uchafswm pensiwn a bennir mewn perthynas ag Aelod cyfranogol gan Reol DD5.

## **ATODLEN 5**

### **Rhannu Pensiwn yn dilyn Ysgariad**

1. Bydd darpariaethau’r Atodlen hon yn gymwys i bartner sifil fel y maent yn gymwys i briod a byddant yn gymwys i ddiddymiad partneriaeth sifil fel y maent yn gymwys i ysgariad ar ôl priodas. Caiff darpariaethau’r Atodlen hon eu dehongli yn y fath fodd fel na fydd unrhyw fudd-dal mewn cyfandaliad adeg marwolaeth yn daladwy ar farwolaeth Cyfranogwr sy’n Gyn-briod na chynbartner sifil ar ôl 75 oed. Os bydd anghysondeb trinnir darpariaethau canlynol yr Atodlen hon yn bwysicach na holl ddarpariaethau eraill y Cynllun. Bydd i’r geiriau canlynol yr ystyron canlynol:-

#### **Diffiniadau**

Ystyr “Cyfanswm Budd-dal Ymddeol” mewn perthynas â chyfranogwr yw cyfanswm:-

- (a) ei pensiwn neu ei phensiwn o dan y Cynllun hwn ac unrhyw Gynllun cysylltiedig; a
- (b) pensiwn sy’n cyfateb i Gyfandaliad ei Fudd-daliadau neu ei Budd-daliadau Ymddeol ac mewn perthynas â chyfranogwr Dosbarth A cyfrifir hyn fel un rhan o ddeuddeg o gyfanswm ei werth arian parod.

Ystyr “Cynllun Cysylltiedig”:

- (a) mewn perthynas â chyfranogwr Dosbarth A yw unrhyw Gynllun Perthnasol sy'n Gynllun Cysylltiol neu sy'n rhoi budd-daliadau mewn perthynas â Gwasanaeth Cyfrifadwy;
- (b) mewn perthynas â chyfranogwr Dosbarth B yw unrhyw Gynllun Perthnasol sy'n rhoi budd-daliadau mewn perthynas â Gwasanaeth Cyfrifadwy.

Ystyr "cyfranogwr Dosbarth A" yw unrhyw gyfranogwr a ymunodd â'r Cynllun ar neu ar ôl 1af Mehefin 1989 neu unrhyw gyfranogwr arall sydd wedi dewis dod yn gyfranogwr Dosbarth A (waeth sut y'i gelwir) o dan reolau'r Cynllun;

Ystyr "cyfranogwr Dosbarth B" yw unrhyw gyfranogwr a ymunodd â'r Cynllun ar neu ar ôl 17eg Mawrth 1987 a chyn 1af Mehefin 1989 ac nad yw wedi dewis dod yn gyfranogwr Dosbarth A;

Ystyr "cyfranogwr Dosbarth C" yw unrhyw gyfranogwr a ymunodd â'r Cynllun cyn 17eg Mawrth 1987 ac nad yw wedi dewis dod yn gyfranogwr Dosbarth A;

Ystyr "Cynllun Cysylltiol" yw unrhyw Gynllun Perthnasol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun mewn perthynas â chyfranogwr h.y.:

- (a) os oes cyfnod lle bu'r cyfranogwr yn gyflogai i ddau gyflogwr cysylltiedig;
- (b) os yw'r cyfnod hwnnw yn cyfrif o dan y ddau gynllun fel cyfnod y mae budd-daliadau yn daladwy mewn perthynas ag ef;
- (c) os yw'r cyfnod yn cyfrif o dan un cynllun am wasanaeth gyda'r naill gyflogwr ac o dan gynllun arall am wasanaeth gyda'r llall.

At ddibenion y diffiniad hwn tybir bod cyflogwyr yn gysylltiedig os caiff y naill ei reoli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y llall neu os caiff y ddau eu rheoli gan drydydd parti, ystyr rheoli yn y naill achos a'r llall yw'r ystyr a nodir yn Adran 840 o Ddeddf Trethi 1988 neu yn achos cwmni caeedig fel y nodir yn Adran 416 o Ddeddf Trethi 1988.

Ystyr "dibynnydd" yw person a fu'n ddibynnol yn ariannol ar yr aelod ac a ddylai yn briodol gael budd-dal o dan y Cynllun ym marn yr Ymddiriedolwyr yn achos marwolaeth aelod p'un a yw'r aelod wedi hysbysu'r Ymddiriedolwyr y dymunai i'r person hwnnw gael ei ystyried fel person sy'n cael y cyfryw fudd-daliadau ai peidio.

Ystyr "Cyn-briod" yw unigolyn y dyrannwyd neu y dyrennir Hawliau Credyd Pensiwn iddo neu iddi yn dilyn Gorchymyn Rhannu Pensiwn, cytundeb neu ddarpariaeth gyfatebol.

Ystyr "Cyfranogwr sy'n Gyn-Briod" yw Cyn-briod sy'n cyfranogi yn y Cynllun.

Ystyr “Cyfandaliad Budd-dal Ymddeol” yw gwerth cyfan yr holl fudd-daliadau ymddeol sy’n daladwy ar unrhyw ffurf ar wahân i bensiwn na ellir ei gymudo o dan y Cynllun hwn ac unrhyw Gynllun Cysylltiedig arall.

Ystyr “Pensiwn Gohiriedig Negyddol” yw’r swm y gostyngir pensiwn neu pensiwn gohiriedig y cyfranogwr o dan y Cynllun a ddeilliodd/sy’n deillio o wasanaeth gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar y dyddiad perthnasol o dan adran 31 Deddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999 neu o dan ddeddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon, yn dilyn Gorchymyn Rhannu Pensiwn, cytundeb neu ddarpariaeth gyfatebol. At y diben hwn, mae gwasanaeth gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys pob cyfnod o wasanaeth gyda chyflogwyr eraill sy’n arwain at fudd-daliadau yn y Cynllun hwn lle gwnaed taliad trosglwyddo i’r Cynllun mewn perthynas â’r gwasanaeth arall hwnnw.

Mae “cyfranogwr” fel y’i diffinnir yn Rhan A2(1) o’r Rheolau.

Ystyr “Credyd Pensiwn” yw credyd o dan adran 29(1)(b) o Ddeddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999 neu o dan ddeddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon.

Ystyr “Budd-dal Credyd Pensiwn” mewn perthynas â chynllun yw’r budd-daliadau sy’n daladwy o dan y cynllun neu mewn perthynas â pherson oherwydd hawliau o dan y cynllun y gellir eu priodoli (yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol) i Gredyd Pensiwn.

Ystyr “Hawliau Credyd Pensiwn” yw hawliau i fudd-daliadau o dan y cynllun yn y dyfodol y gellir eu priodoli (yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol) i Gredyd Pensiwn.

Ystyr “Debyd Pensiwn” yw debyd o dan adran 29(1)(a) o Ddeddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999 neu o dan ddeddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon.

Ystyr “Aelod â Debyd Pensiwn” yw cyfranogwr y mae ei fudd-daliadau neu ei budd-daliadau wedi’u gostwng yn barhaol drwy Ddebyd Pensiwn. Bydd y cyfryw gyfranogwr:

- (i) yn gyfranogwr y mae ei enillion neu ei henillion ar y dyddiad y diddymwyd neu y di-rymwyd ei briodas neu ei phriodas yn fwy na  $\frac{1}{4}$  yr uchafswm a ganiateir ar gyfer y flwyddyn asesu pan ddiddymwyd neu di-rymwyd y briodas. Cyflog arferol cyfranogwr at y dibenion hyn fydd cyfanswm y taliadau -
  - (a) a dalwyd i’r cyfranogwr o ganlyniad i wasanaeth pensiynadwy y mae’r Cynllun yn ymwneud ag ef yn ystod y flwyddyn asesu cyn y flwyddyn asesu pan ddiddymwyd neu di-rymwyd y briodas, a
  - (b) y didynnwyd treth ohonynt yn unol â Rheoliadau Treth Incwm (Cyflogaethau) 1993.

Ystyr “Gorchymyn Rhannu Pensiwn” yw unrhyw orchymyn neu ddarpariaeth y cyfeirir ato neu ati yn adran 28(1) Deddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999 neu Erthygl 25(1) Gorchymyn Diwygio Lles a Phensiynau (Gogledd Iwerddon) 1999.

Ystyr “Cynllun Pensiwn Personol” fydd yr ystyr a roddir iddo yn adran 1 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993.

Ystyr “Gwasanaeth Cyfrifadwy”

- (a) mewn perthynas â chyfranogwr Dosbarth A yw cyfanswm yr holl gyfnodau o wasanaeth a phob cyfnod arall sy'n cyfrif mewn perthynas ag unrhyw gyflogaeth gysylltiedig neu unrhyw Gynllun Cysylltiol;
- (b) mewn perthynas â chyfranogwr Dosbarth B yw ei wasanaeth neu ei gwasanaeth.

Ystyr “Dyddiad Perthnasol” mewn perthynas ag Aelod yw'r dyddiad cynharaf o'r canlynol:-

- (a) y dyddiad y mae'n ymddeol;
- (b) y dyddiad y mae'n gadael ei swydd;
- (c) y dyddiad y mae'n marw;
- (ch) y dyddiad y mae'n peidio â bod yn gyfranogwr; a
- (d) ei ddyddiad neu ei dyddiad ymddeol arferol.

Ystyr “Cynllun Perthnasol” yw unrhyw gynllun budd-daliadau ymddeol heblaw'r Cynllun sy'n gallu cael ei gofrestru at ddibenion treth neu sy'n ceisio cael ei gofrestru at ddibenion treth gyda HMRC

Ystyr “gwasanaeth” yw cyfanswm y gwasanaeth cyfrifadwy fel y nodir yn Rheol D2.

2. Gellir aseinio holl fudd-daliadau ymddeol aelod neu ran ohonynt neu holl hawliau aelod i fudd-daliadau neu ran ohonynt o dan y Cynllun i'w Gyn-Briod neu i'w Chyn-briod i'r graddau y bo angen i gydymffurfio â Gorchymyn Rhannu Pensiwn, cytundeb neu ddarpariaeth gyfatebol.

3. Gall yr Ymddiriedolwyr wahodd Cyn-Briod i gyfranogi yn y Cynllun naill ai:-

- (i) ar gyfer darparu Budd-dal Credyd Pensiwn yn unig; neu
- (ii) ar gyfer y ddarpariaeth gwbl wahanol ar gyfer Budd-dal Credyd Pensiwn lle mae budd-daliadau yn cronni neu wedi cronni i'r unigolyn hwnnw o dan y Cynllun am unrhyw reswm arall.

Bydd y gwahoddiad ar y cyfryw delerau ac amodau ag y penderfyna'r Ymddiriedolwyr arnynt. Bydd penderfyniad yr Ymddiriedolwyr ynghylch p'un a ddylid gwahodd Cyn-Briod i gyfranogi ai peidio yn un terfynol a chyfrwymol i bob parti.

4. Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr wneud darpariaeth i'r Budd-dal Credyd Pensiwn o dan y Cynllun gael ei drin fel y'i darperir ar wahân i unrhyw fudd-daliadau a ddarperir o dan y Cynllun i'r un unigolyn fel cyfranogwr neu fel Dibynnydd cyfranogwr.

5. Cynigir i'r Cyn-Briod gyfranogi yn y Cynllun naill ai lle bodlonir y gofyniad ym mharagraff 4, neu lle mae gan y Cyn-Briod Fudd-daliadau Credyd Pensiwn yn unig o dan y Cynllun.

Bydd y dewisiadau canlynol ar gael i'r Cyfranogwr sy'n Gyn-briod mewn perthynas â'r Budd-dal Credyd Pensiwn, yn amodol ar gydymffurfiaeth â deddfwriaeth sy'n ymwneud â Nawdd Cymdeithasol.

- (i) Gellir talu pensiwn ar gais Cyfranogwr sy'n Gyn-briod ar unrhyw adeg o 65 mlwydd oed neu rhwng 60 a 65 mlwydd oed ar sail a leiheir yn actiwaraid. Ni all y Cyfranogwr sy'n Gyn-briod ohirio cychwyn y pensiwn y tu hwnt i'w ben-blwydd neu i'w phen-blwydd yn 75 mlwydd oed. Os yw'n 75 mlwydd oed neu drosodd ar y dyddiad y gweithredir y Gorchymyn Rhannu Pensiwn, mae'n rhaid dechrau talu'r pensiwn ar unwaith. Nid oes terfyn ar swm y pensiwn. Ni ddylid cymudo, ildio nac aseinio'r cyfryw pensiwn, ac eithrio yn unol â Rheolau'r Cynllun. Mae'n rhaid i'r cyfryw pensiwn fod yn daladwy am oes oni chaiff ei gymudo'n llawn o dan baragraff 5(iv) a gellir ei warantu am hyd at uchafswm o bum mlynedd.
- (ii) Ni fydd gan y Cyfranogwr sy'n Gyn-briod y dewis i dderbyn cyfandaliad wedi'i gymudo o ran o'r pensiwn pan ddaw'r pensiwn yn daladwy yn gyntaf.
- (iii) Lle mae Cyfranogwr sy'n Gyn-briod yn marw cyn daw budd-daliadau yn daladwy gellir talu budd-dal ar adeg marwolaeth mewn cyfandaliad i unrhyw berson yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr yn amodol ar uchafswm o bum gwaith y pensiwn sy'n daladwy ac yn ôl cyfryw derfynau'r Ddeddf Cyllid sydd mewn grym ar y pryd.
- (iv) Caniateir cymudo Hawliau Credyd Pensiwn yn llawn ar sail bychander pan ddaw'r pensiwn yn daladwy yn gyntaf. Lle mae gan y Cyfranogwr sy'n Gyn-briod hawl hefyd i fudd-daliadau o dan y Cynllun sy'n deillio o wasanaeth fel cyfranogwr at ddibenion penderfynu ar gyfanswm gwerth cyfanswm y budd-daliadau sy'n daladwy i'r cyfranogwr o dan y rheol ynglŷn â bychander mae'n rhaid cynnwys budd-daliadau o Hawliau Credyd Pensiwn. Lle mae gan y Cyfranogwr sy'n Gyn-briod hawl hefyd i fudd-daliadau o dan y Cynllun sy'n deillio o wasanaeth fel cyfranogwr dim ond lle cymudir budd-daliadau sy'n deillio o wasanaeth fel cyfranogwr yn gyfamserol y caniateir cymudo Hawliau Credyd Pensiwn yn llawn ar sail bychander.
- (v) Gall Cyfranogwr sy'n Gyn-briod nad yw ei pensiwn neu ei phensiwn wedi cychwyn eto ofyn i'r Ymddiriedolwyr drefnu i'w Hawliau Credyd Pensiwn gael eu trosglwyddo i gynllun pensiwn cofrestredig arall yn unol ag adran 169 o'r Ddeddf Cyllid, os yw ef neu hi eisoes yn aelod o'r cynllun hwnnw neu yn Gyfranogwr sy'n Gyn-briod yn y cynllun hwnnw. Gall y Cyfranogwr sy'n Gyn-briod ofyn i'r Ymddiriedolwyr drefnu i'w Hawliau Credyd Pensiwn gael eu trosglwyddo i unrhyw gynllun arall os bodlonir gofynion HMRC

mewn perthynas â throsglwyddo i'r cynllun hwnnw. Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr gadarnhau gyda'r cynllun neu'r trefniant sy'n derbyn bod y gwerth trosglwyddo yn cynnwys yn gyfan gwbl neu'n rhannol Hawliau Credyd Pensiwn er budd Cyfranogwr sy'n Gyn-briod.

- (vi) Ni fydd yr hawliau i Fudd-dal Credyd Pensiwn o dan y Cynllun yn absoliwt, ond gellir eu fforffedu os yw'r Cyfranogwr sy'n Gyn-briod yn mynd yn fethdalwr. Yna gellir talu'r cyfryw fudd-daliadau i unrhyw unigolion neu unigolyn a bennir gan yr Ymddiriedolwyr, yn ôl eu disgresiwn absoliwt.

6. Er gwaethaf unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Rheolau, mae budd-daliadau i Aelod â Debyd Pensiwn hefyd yn amodol ar y terfynau canlynol, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth yn ymwneud â Nawdd Cymdeithasol:

- (i) Ni fydd y pensiwn yn fwy na Chyfanswm Budd-dal Ymdeol Ilaï'r Pensiwn Gohiriedig Negyddol yn y Cynllun hwn a'r Pensiwn Gohiriedig Negyddol mewn unrhyw Gynllun Cysylltiedig ac, at hynny yn achos cyfranogwr Dosbarth A y Cynllun Gohiriedig Negyddol mewn unrhyw Gynllun Cysylltiol.
- (ii) Ni fydd y cyfandaliad o'r Cynllun hwn ac unrhyw Gynllun Cysylltiedig;
  - (a) i Aelodau â Debyd Pensiwn neu gyfranogwr Dosbarth A neu gyfranogwr Dosbarth B yn fwy na swm a bennir drwy 2.25 x y pensiwn blynyddol cychwynnol sy'n daladwy.
  - (b) i Aelodau â Debyd Pensiwn sy'n gyfranogwr Dosbarth C yn fwy na'r swm mwyaf o'r canlynol:
    - (I) 2.25 x y pensiwn blynyddol cychwynnol sy'n daladwy neu
    - (II) swm a bennir yn unol â Rheolau fel petai dim Debyd Pensiwn, Ilaï 2.25 x y Pensiwn Gohiriedig Negyddol.

At ddibenion y paragraff hwn, dylid cyfrifo'r pensiwn blynyddol cychwynnol ar y sail ganlynol:

- (a) os yw'r pensiwn yn daladwy ar gyfer flwyddyn yn newid, dylid defnyddio'r pensiwn cychwynnol sy'n daladwy
- (b) dylid cymryd yn ganiataol y bydd yr Aelod â Debyd Pensiwn yn byw am flwyddyn;
- (c) dylid anwybyddu effaith cymudo.

7. Lle y bo'n briodol, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr roi manylion llawn am y Debyd Pensiwn a thystysgrif cyfandaliad sy'n pennu'r uchafswm cyfandaliad a ganiateir i'r cynllun/trefniant sy'n derbyn lle trosglwyddir y gronfa sy'n sail i fudd-daliadau ar gyfer Aelod â Debyd Pensiwn i gynllun pensiwn cofrestredig arall.

8. Lle mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn taliad trosglwyddo a lle mae'r trosglwyddwr yn eu hysbysu o fanylion Debyd Pensiwn sy'n ymwneud â'r taliad trosglwyddo, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr ystyried y Debyd Pensiwn, os yw'n briodol, wrth gyfrifo unrhyw derfyn ar fudd-daliadau i'r cyfranogwr hwnnw.
  
9. Os yw'r Cyn-Briod yn marw ar ôl gwneud Gorchymyn Rhannu Pensiwn, cytundeb neu ddeddfwriaeth gyfatebol ond cyn i'r Ymddiriedolwyr weithredu arno neu arni, gellir talu'r budd-daliadau canlynol. Gellir talu budd-dal mewn cyfandaliad ar adeg marwolaeth i unrhyw berson yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr. Cyfyngir ar y cyfandaliad i 25% o'r hyn a fyddai wedi bod yn swm arian parod cyfatebol o'r gronfa a fyddai wedi darparu'r Hawliau Credyd Pensiwn i'r Cyn-Briod.